mae gan bob swyddog yr hawl i'r codiadau cyflog sy'n cael eu pennu. Gyda hyn mewn golwg, mae'r drafft polisi tâl yn datgan *'fod gan y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol presennol'*. Wrth fabwysiadu'r polisi tâl blynyddol felly, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog cenedlaethol hyn. Ym mis Gorffennaf 2024 daeth y cyflogwyr a'r undebau sydd yn cynrychioli prif swyddogion i gytundeb ar gynnydd tâl ar gyfer y flwyddyn 2024/25, sef cynnydd o 2.5% ar gyflog blynyddol pob swyddog. Mae'r broses ar gyfer pennu cyflogau 2025/26 ar fin dechrau.

**GRADDFA SWYDD Y PENNAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

5. Gwelwyd cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf yn nghyfrifoldebau y rôl Swyddog Monitro, sydd wedi eu hymgorffori o fewn swydd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r cynnydd hwnnw yn cynnwys gwaith sydd ynghlwm â chynghori ar holl elfennau cyfreithiol sefydlu a llywodraethu Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Fe fydd y gofyn hwnnw yn parhau i'r dyfodol hefyd wrth i waith y Cyd-Bwyllgor fynd rhagddo. Er mwyn ymateb, cynhaliwyd arfarniad o'r cyfrifoldebau ychwanegol gan gwmni *Korn Ferry*, a ddaeth i gasgliad fod y newidiadau yn golygu bod angen addasu graddfa'r swydd. O ganlyniad, penderfynwyd y dylid talu swm uwch o gyflog am gyfnod dros dro (honorariwm) dros y flwyddyn yn arwain at y 31 o Fawrth 2025. Ni fydd y gofyn penodol hwn sydd ar y swydd Swyddog Monitro yn newid wedi Mawrth 2025, ac felly roedd y Pwyllgor yn cytuno bod angen i ni ymateb a rhoi trefniant parhaol yn ei le. Rydym felly'n argymell, o fabwysiadu'r drafft polisi tâl, y dylid addasu cyflog y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol yn barhaol a gosod y swydd ar raddfa HS1 ar y strwythurau cyflog (gweler y polisi am fwy o fanylion ynghylch y raddfa berthnasol).

**SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG**

6. Mae cyflogau staff sydd yn gweithio mewn swyddi o dan lefel prif swyddogion yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar Gyfer Gweithlu Llywodraeth Leol. Yn union fel prif swyddogion, mae gan staff sydd yn gweithio i'r telerau hyn yr hawl cytundebol i'r codiadau cyflog sydd yn cael eu pennu.

Wedi cyfnod hir o drafod daeth yr undebau a’r cyflogwyr i gytundeb ddechrau Hydref 2024 ar gynnydd ar gyfer 2024/25. Roedd y cynnydd hwnnw yn £1290 ar gyflog blynyddol pob aelod staff hyd at bwynt cyflog 43, ac yna 2.5% ar y pwyntiau cyflog uwchlaw hynny. Mae’r trafodaethau ar gyfer 2025/26 wedi dechrau yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### Swyddog Monitro

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn gosod gofyn statudol ar y Cyngor i fabwysiadu Polisi Tâl blynyddol sydd yn cyfarch y gofynion yn y Ddeddf. Penderfyniad y Cyngor llawn yw hyn. Rwy'n fodlon fod y Polisi a argymhellir ar gyfer ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion yn cyfarch y gofynion statudol.

### Swyddog Cyllid Statudol

Mae'r adnoddau ar gyfer ariannu ymhlygiadau'r Polisi Tâl yma wedi'u darparu yn y Gyllideb ar gyfer 2025/26, sy'n eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod yma.

# Polisi Tâl – 2025 / 26

## 1. CYFLWYNIAD

Yn unol ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011, mae gofyn i bob Cyngor baratoi datganiad polisi tâl. Rhaid i’r datganiad hwn gyfleu beth yw polisïau'r Awdurdod ar nifer o faterion sy’n ymwneud â thâl ei weithlu, yn enwedig ei uwch staff (neu 'brif swyddogion') a'r gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf. Rhaid paratoi datganiad polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn cyn dechrau’r flwyddyn ariannol newydd.

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pa mor allweddol yw rheoli cydnabyddiaeth ariannol mewn modd teg, cyson a thryloyw ac mae’r penderfyniadau a wneir yn y cyswllt hwn yn greiddiol i sicrhau cyflog cyfartal a chydraddoldeb ar draws y Cyngor.

## 2. POLISI TÂL AR GYFER PRIF SWYDDOGION

Mae’r Cyngor yn diffinio ei brif swyddogion fel a ganlyn: y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a’r Penaethiaid Adran. Mae’r Cyngor yn gorff cyflogi atebol ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru hefyd, ac o ganlyniad mae swyddi prif swyddogion y cyrff hynny yn cael eu hystyried fel rhai sy’n disgyn o fewn gofynion y polisi hwn.

Mae’r Cyngor yn cyflogi ei brif weithredwr o dan amodau a thelerau’r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr Llywodraeth Leol, tra cyflogir y gweddill o’i brif swyddogion o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion Llywodraeth Leol. Mae’r telerau hyn wedi eu hymgorffori yn y cytundebau gwaith perthnasol. Mae’r ddau Gyd-Gyngor Cenedlaethol yn negodi codiad cyflog blynyddol cenedlaethol ar sail costau byw. Mae gan y Prif Weithredwr a’r Prif Swyddogion eraill a gyflogir o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol perthnasol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw, a bydd y Cyngor felly yn talu’r rhain yn unol â gofynion cytundebol.

## 3. CYFLOGAU

Mabwysiadwyd y polisi sy’n ymwneud â chyflogau’r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a’r Penaethiaid Adran am y tro cyntaf yng nghyfarfod y Cyngor llawn ym mis Hydref 2009 ac yna ym Mehefin 2012, fel rhan o’r adolygiad blynyddol o’r Polisi Tâl yn ei gyfanrwydd. Cynhaliwyd adolygiad rhannol pellach o’r polisi ym Mawrth 2015 er mwyn adlewyrchu newidiadau strwythurol o fewn y Cyngor. Bryd hynny, roedd cyflogau prif swyddogion yn seiliedig ar adroddiad annibynnol gan gwmni *Korn Ferry* (*Hay Group* yn flaenorol) ac ar eu cynllun arfarnu swyddi hwy.

Ym mis Chwefror 2021, cynhaliwyd adolygiad o gyflogau prif swyddogion y Cyngor, gyda’r adolygiad hwnnw wedi ei seilio ar gymharu cyflogau â swyddi cyfatebol yn y farchnad swyddi ranbarthol er mwyn i unrhyw asesiad adlewyrchu y sefyllfa sydd yn wir berthnasol i ogledd a chanolbarth Cymru. Adolygwyd y sefyllfa ymhellach ym mis Hydref 2022.

Mae tâl ar gyfer y Prif Weithredwr wedi ei osod yn unol â'r raddfa £120,101 - £129,172.

Nid yw'r Cyngor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad i'w Brif Swyddogion. Mae amodau a thelerau gwaith lleol y Cyngor yn berthnasol i'w Brif Swyddogion, yn yr un modd ag ar gyfer gweddill y staff, oni nodir yn wahanol yn y polisïau unigol.

Mae cyflogau Prif Swyddogion y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor (Gweler Atodiad 1).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ffurfio Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae gan y Panel hwn yr awdurdod i roi barn ac argymhelliad i gynghorau wrth iddynt ystyried addasu telerau cyflogi swyddi Prif Weithredwyr. Mewn sefyllfa pan fo'r Cyngor yn bwriadu newid lefel cyflog y Prif Weithredwr, a phan nad yw'r newid hwnnw yn cyd-fynd hefo newid i gyflogau swyddi gweddill cyflogeion y Cyngor, mae gofyn ymgynghori â'r Panel ynglŷn â'r newid arfaethedig cyn cymryd y penderfyniad terfynol.

## 4. SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG

Mae polisi tâl y Cyngor ar gyfer gweddill ei staff yn seiliedig ar bolisi tâl cyfartal y Cyngor a'i gytundeb torfol â'r undebau llafur cydnabyddedig, ddaeth yn weithredol ar y 1af o Ebrill 2008. Mae strwythurau tâl y Cyngor yn destun archwiliadau tâl cyfartal.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu meini prawf Cynllun Arfarnu Swyddi GLPC fel sail i osod graddfa cyflog ar gyfer pob swydd sydd o dan Amodau Gwaith Gweithwyr Llywodraeth Leol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu cyflogau yn unol â deddfwriaeth cyflog cyfartal a'r cytundeb "statws sengl" rhwng cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur cydnabyddedig a luniwyd yn 1997.

Nid yw'r Cyngor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad i'w weithwyr.

Mae'r berthynas rhwng tâl ei Brif Swyddogion a'i weithwyr eraill wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i recriwtio a chadw'r gweithwyr addas gorau yn ei swyddi amrywiol, tra'n cynnal y pwyntiau gwahaniaethol a arfarnwyd yn yr arfarniad swyddi.

Mae Adolygiad Hutton o Gyflog Teg yn y Sector Gyhoeddus yn argymell cymhareb o ddim mwy na 1:20 rhwng y cyflog uchaf a'r cyflog isaf (llawn-amser). Mae'r gymhareb hon ar hyn o bryd yn 1:5.4.

## 5. TÂL CYCHWYNNOL

Mae'r nifer o hicynnau sydd o fewn pob graddfa yn adlewyrchu'r cyfnod posib o ddatblygiad mewn swydd allai fod yn berthnasol i'r unigolion sydd ar y raddfa honno. Bydd aelodau staff yn cael eu penodi i'r pwynt cyflog o fewn y raddfa sydd yn adlewyrchu'r amser fydd ei angen er mwyn datblygu fel eu bod yn gallu ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn llawn.

Yn arferol, penodir pob gweithiwr i'r pwynt cyflog isaf o fewn y raddfa gyflog briodol. Os yw gweithiwr eisoes yn derbyn tâl uwchben y pwynt cyflog isaf neu os oes tystiolaeth ddigonol i arddangos bod y gweithiwr eisoes yn llawn gymwys i gyflawni nifer o agweddau o'r swydd, gall rheolwr, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol neu ddirprwy, benodi ar bwynt cyflog uwch o fewn y raddfa gyflog briodol.

Os oes lle o fewn graddfa'r swydd, bydd pob aelod staff yn gymwys i dderbyn hicyn cyflog blynyddol ar y cyntaf o Ebrill, ar yr amod eu bod wedi'u penodi i'w swydd bresennol am fwy na chwe mis cyn y dyddiad hwnnw.

## 6. COSTAU AIL-LEOLI

Mewn sefyllfa pan ei bod yn angenrheidiol i weithiwr ail-leoli er mwyn ymgymryd â swydd, gall y Cyngor, o dan amgylchiadau arbennig, gyfrannu tuag at ad-daliad costau ail-leoli. Mae'r cynllun yn

berthnasol i weithwyr a benodir o ganlyniad i hysbyseb neu'n dilyn ad-drefnu mewnol lle bydd rhaid iddynt symud tŷ.

Rhaid i gartref presennol y gweithiwr fod ymhellach na 20 milltir o'r ganolfan weinyddol cyn y gellir ystyried cais i ad-dalu costau.

O dan yr amgylchiadau hyn, telir cost symud dodrefn ac eiddo yn llawn, yn ddarostyngedig i dderbyn yr isaf o dri dyfynbris ynghyd â chost lawn storio dodrefn hyd at dri mis. Gellir gwneud cyfraniad hyd at £3,270 ar gyfer costau cyfreithiol, ffioedd arwerthwr tai, costau carpedi a llenni a mân gostau symud eraill yn amodol ar ddangos derbynebau perthnasol.

## 7. YCHWANEGIAD Y FARCHNAD

Mae graddfa cyflog pob swydd o dan lefel pennaeth adran wedi ei seilio ar gynllun arfarnu swyddi'r Cyngor. Golyga hyn fod y system o dalu aelodau staff wedi ei seilio ar gydraddoldeb yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cyflog Cyfartal 1970 ac yn sicrhau cysondeb o ran penderfyniadau sydd yn ymwneud â thâl. O ganlyniad fe allai unrhyw wyro o'r system hon greu risg sydd angen ei reoleiddio'n gadarn. Mae'n rhaid bod rhesymau pendant a chlir os am gyfiawnhau unrhyw wyro o'r trefniant hwn.

Fodd bynnag, fe allai sefyllfa godi pan fo pwysau'r farchnad yn creu problemau recriwtio a/neu gadw staff yng nghyswllt swydd benodol. Gall y Cyngor mewn rhai achosion eithriadol, ac er mwyn denu a/neu gadw unigolyn i swydd benodol, gynnig taliad ychwanegol i'r raddfa gyflog a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Yn y cyswllt hwn dim ond pan fydd tystiolaeth ddogfennol ddigonol o fethiant i recriwtio a/neu gadw aelod staff y bydd ychwanegiad y farchnad yn cael ei ddefnyddio. Nid yw ychwanegiad y farchnad yn ychwanegiad parhaol i gyflog swydd. Os yw'r amgylchiadau sydd yn berthnasol i'r ychwanegiad yn newid, neu os yw aelod staff yn cael ei drosglwyddo gan y Cyngor i swydd arall nad yw'n denu ychwanegiad y farchnad, yna bydd hawl yr unigolyn hwnnw/honno i'r taliad yn peidio, a bydd yr atodiad yn cael ei atal yn unol â'r rhybudd priodol.

Mae'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 9fed o Hydref, 2014, wedi cymeradwyo caniatáu darpariaeth ychwanegiad y farchnad o hyd at £3,000 ar gyfer Prif Swyddogion pan fo hynny wedi'i gyfiawnhau gan achos busnes. Nid oes nenfwd wedi'i osod yng nghyswllt lefel ychwanegiad y farchnad ar gyfer swyddi eraill.

## 8. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL (YMGYMRYD Â CHYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL)

Gellir caniatáu taliad ychwanegol pan fo aelod staff yn cytuno i gais i ymgymryd â chyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau sydd y tu hwnt i ddyletswyddau a chyfrifoldebau arferol ei swydd ar sail dros dro. Mae'n rhaid i'r gyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau uwch fod yn sylweddol, yn cael eu harfarnu ar lefel cyflog uwch a thros gyfnod estynedig cyn y gellir cynnig cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol dros-dro.

## 9. TALIADAU AR-DDYLETSWYDD, AR ALWAD A GALW ALLAN

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau yn unol ag anghenion pobl Gwynedd. Golyga hyn y bydd adegau pan fo gofyn i aelodau staff ymgymryd â dyletswyddau oddi allan i'r patrwm gwaith arferol ac ar adegau anghymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cwrdd â'r anghenion ar gyfer y gwasanaethau hyn trwy:

- sicrhau fod staff cymwys ar gael i gymryd galwadau a phenderfynu ar weithredu priodol

- sicrhau fod gweithlu cymwys ar gael i fod ar alwad ac yn barod i gael eu galw allan ar fyr rybudd er mwyn ymateb i waith mewn argyfwng
- cydnabod y staff uchod trwy daliadau addas mewn cydnabyddiaeth o'r anghyfleustra a'r ymyrraeth mae gwaith o'r fath yn ei greu.

Diffinnir **ar ddyletswydd** fel cyfnod o amser pan fo swyddog ar ddyletswydd oddi allan i'r oriau gwaith arferol ar gyfer cyfnod penodol o amser, a'u bod **ar gael** i ymateb i alwadau gan drigolion, gwasanaethau brys a.y.b.

Diffinnir **ar alwad** fel cyfnod penodol o amser mae swyddog **ar gael** i'w alw allan y tu allan i'r oriau gwaith arferol.

Mewn rhai achosion bydd bod ar alwad neu ar ddyletswydd yn ffurfio rhan o gyflog sylfaenol swyddogion. Mewn achos o'r fath bydd y cytundeb cyflogaeth yn nodi hynny'n glir. Ni fydd gan y swyddogion hynny yr hawl i daliad ychwanegol pan ar alwad/ar ddyletswydd. Bydd swyddogion eraill yn derbyn tâl ar ffurf taliad ychwanegol a fydd yn adlewyrchu lefel yr anghyfleustra ar gyfer bod ar gael i ymateb i alwad tu hwnt i oriau gwaith arferol. Bydd y swyddogion hynny yn derbyn lleiafswm o ddwy awr ar y cyflog priodol pob tro maent yn cael eu galw allan (gan gynnwys amser teithio).

Mae taliadau ar alwad/ar ddyletswydd yn cael eu diweddaru'n flynyddol i adlewyrchu'r cynnydd cyflog blynyddol yn unol â'r hyn a gytunir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol.

## 10. FFIOEDD PROFFESIYNOL

Ad-delir un ffi'r flwyddyn i Swyddogion ar gyfer aelodaeth o gorff cydnabyddedig sy’n berthnasol i’w swyddogaeth broffesiynol a phan fo’r aelodaeth hwnnw yn ofyniad gan y Cyngor.

## 11. DEFNYDDWYR CAR

Dynodir pob gweithiwr fel defnyddiwr car achlysurol a thelir ad-daliadau am deithiau busnes ar sail graddfeydd Swyddfa Cyllid y Wlad.

## 12. TREULIAU CYNHALIAETH

Telir ad-daliadau cynhaliaeth, ar gyflwyniad derbynneb, os yw aelod staff yn teithio tu allan i'r Sir ar gyfer brecwast, cinio, te a swper, a hynny hyd at yr uchafswm ar gyfer lwfansau cynhaliaeth. Ar gyfer y staff hynny sydd â'u gwaith yn golygu eu bod yn teithio ar draws mwy nag un Sir e.e. Gwynedd a Môn, diffinnir "y tu allan i'r Sir" fel y tu allan i'r ardal waith arferol.

## 13. GWEITHIO ORIAU YCHWANEGOL

Telir gweithwyr, a gyflogir ar bwynt 22 neu is, ar sail unwaith a hanner o’r cyflog sylfaenol yr awr pan yn gweithio mwy na 37 awr mewn wythnos (trefniadau amgen ar gyfer gweithwyr gyda phatrymau gwaith pan fo’r oriau a weithir ar sail pythefnos/misol neu flynyddol). Caniateir tâl sylfaenol neu amser yn ei le i staff a gyflogir ar bwynt uwch na 22 pan eu bod yn gweithio mwy na 37 awr, neu os yw Pennaeth Adran wedi cymeradwyo’r gwaith ychwanegol ymlaen llaw yna gellir awdurdodi tâl ar sail amser a hanner.

## 14. GWEITHIO ORIAU ANGHYMDEITHASOL

Telir cyflog ar y raddfa sylfaenol am waith, oddi fewn i'r 37 awr, a gyflawnir ar y penwythnos. Telir tâl chwyddedig o dâl sylfaenol a thraean rhan o'r cyflog am waith a gyflawnir rhwng 10 y nos a 6 y bore i weithwyr sy'n gweithio yn ystod yr oriau hynny.

Telir cyflog yn unol â'r cytundeb cenedlaethol ar gyfer gwaith a gyflawnir ar wyliau banc a gwyliau statudol ychwanegol.

## 15. LWFANS CYMORTH CYNTAF

Telir lwfans blynyddol i weithwyr sydd yn gweithredu fel Cymorthyddion Cyntaf dynodedig.

## 16. DYLETSWYDDAU ETHOLIADAU LLEOL

Mae ffioedd y Cyngor ar gyfer taliadau i'r Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau am ddyletswyddau etholiadau lleol wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

## 17. DISWYDDO AC YMDDEOL

Mae cynlluniau diswyddo ac ymddeol y Cyngor yn cael eu gweithredu'n gyfartal a theg i bob aelod staff, waeth beth fo'u graddfa cyflog, eu hoedran neu eu rhyw ac fe'i gweithredir yn unol â rheoliadau'r cynlluniau pensiwn perthnasol. Nid oes unrhyw eithriadau i Brif Swyddogion. Mae'r polisïau perthnasol ar gael ar wefan y Cyngor.

## 18. CYNLLUN COLLED ARIANNOL

Diffinnir colled ariannol fel colled o ganlyniad i newid mewn graddfa cyflog ac amodau a thelerau cytundebol. Mae'r Cyngor yn darparu cymorth ariannol i staff sy'n wynebu sefyllfa o golled ariannol (yn sgil ail-strwythuro neu ail-ddyrannu cyfrifoldebau) am gyfnod o ddwy flynedd oddi ar ddyddiad gweithredol y newid i'w pecyn cyflogaeth, gyda 100% o warchodaeth yn y flwyddyn gyntaf a 50% yn yr ail. Bydd y cymorth ariannol hwnnw yn dod i ben ar ôl dwy flynedd oni bo'r aelod staff unigol yn y cyfamser wedi'i benodi i swydd arall ple nad yw o/hi yn wynebu'r golled ariannol.

## 19. AIL-GYFLOGI

Bydd y Cyngor yn ystyried pob ymgeisydd yn ôl ei r(h)inweddau ei hun a bydd yn penodi gyda'r bwriad o gyflawni'r effeithlonrwydd gorau ar gyfer y gwasanaeth a'r gwerth gorau ar gyfer ei drethdalwyr. Byddai'r fath benodiad, os byddai'n cael ei wneud, yn destun unrhyw leihad a nodir yn y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Yn unol â deddfwriaeth trethiant, rhaid i reolwyr sicrhau ym mhob achos fod unrhyw drefniant i dalu unigolyn am waith trwy 'gytundeb o wasanaeth' wedi bod yn destun prawf statws cyflogaeth fel sy'n ymddangos ar wefan CThEM, a chynhelir y prawf yma yn hollol wrthrychol.

## 20. PENODI PRIF SWYDDOG NEWYDD (CYFLOG O £100,000 A THROSODD)

Bydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo unrhyw newid i becyn cyflog swydd o'r fath cyn yr eir ati i recriwtio. Byddai angen cyfeirio'r mater at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol hefyd, yn unol â rhan 3 o'r polisi hwn.

Hysbysebir yn allanol ar gyfer llenwi swydd o'r fath.

**ATODIAD 1**

# Cyflogau Prif Swyddogion 2025/26

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr | £120,101 - £129,172 |
| 2 | Cyfarwyddwr Corfforaethol | £97,940 - £108,595 |
| 3 | Pennaeth Addysg | £91,772 - £101,743 |
| 4 | Pennaeth Cyllid | £83,444 - £92,486 |
| 5 | Pennaeth Economi a Chymuned, Gwasanaethau Corfforaethol, Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Chefnogi Teuluoedd, Priffyrdd, Peirianneg a YGC, Amgylchedd, Tai ac Eiddo | £81,860 - £90,274 |
| 6 | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro | £74,200 – £81,400 |

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel yr awdurdod lletya a chyflogwr ar gyfer y swyddi canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Cyfarwyddwr Rhaglen – Uchelgais Gogledd Cymru | £105,742 - £116,510 |
| 8 | Pennaeth Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | £81,860 - £90,274 |

- Nid oes cytundeb eto ar gynnydd mewn cyflogau ar gyfer 2025/26

**TREULIAU'R CYNLLUN TALIADAU ETHOLIADAU FEL A GYMERADWYWYD GAN GYNGOR GWYNEDD**

**Ffioedd ar gyfer cynnal yr etholiad yn gyffredinol a chwblhau'r holl ddyletswyddau ble bo angen i Swyddog Canlyniadau weithredu dan unrhyw orchymyn neu ymddeddfiad sy'n ymwneud ag ethol Cynghorwyr.**

| **Ffioedd Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau** | **Wedi eu herio** | **Heb eu Herio** |
|---|---|---|
| Swyddog Canlyniadau | 125.00 | |
| Am gynnal yr etholiad yn gyffredinol a chwblhau'r holl ddyletswyddau ble bo angen i Swyddog Canlyniadau weithredu dan unrhyw orchymyn neu ymddeddfiad sy'n ymwneud ag ethol Cynghorwyr | | ) |
| Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref | | ) 75.00 |
| Dirprwy Swyddog Canlyniadau | 85.00 | ) |
| Dyletswyddau penodol i gynnwys bod yn bresennol i dderbyn papurau pleidleisio, eu harchwilio a beirniadu a ydynt yn ddilys; ymdrin gydag ymgeiswyr; hysbysu ymgeiswyr am benderfyniadau gydag enwebiadau; cyhoeddi datganiadau am bobl a enwebwyd, a bod yn bresennol i dderbyn unrhyw achos o dynnu yn ôl a rheoli'r cyfrif | | ) |
| Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref. | | |
| Isetholiadau | | |

| | | |
|---|---|---|
| Mewn unrhyw isetholiad lle y cyflogir Dirprwy Swyddog Canlyniadau i reoli'r cyfrif:<br><br>Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref. | 34.00 | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **6ed o Fawrth 2025** |
| **TEITL** | **Addasiad i brosiectau Gwynedd Ofalgar - Cynllun Cyngor Gwynedd** |
| **PWRPAS** | **Cymeradwyo'r addasiad a gynhigir i'r maes blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Dilwyn Morgan** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant** |

## 1 Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

1.1 Cymeradwyo i ychwanegu'r prosiect isod at y meysydd sydd i'w blaenoriaethu ar lefel strategol fel rhan o Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.

***Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi pobl i allu byw adref***

*I sicrhau bod modd i bobl fyw eu bywyd gorau, mae'n rhaid i ni sicrhau fod cefnogaeth prydlon a rhwydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd.*

*Byddwn yn gweithredu cynlluniau er mwyn:*

- *Sicrhau ein bod yn cydnabod pa mor werthfawr yw gofalwyr teuluol a di-dâl drwy wneud yn siwr ein bod yn gallu eu hadnabod yn rhwydd a chynnig cefnogaeth lawn iddynt wrth ofalu*
- *Lleihau ein rhestrau aros am becynnau gofal cartref newydd, gan sicrhau nad oes unrhyw un yng Ngwynedd yn aros mwy na 28 diwrnod yn dilyn asesiad gofal*

## 2 Cyflwyniad

2.1 Pwrpas Cynllun Cyngor Gwynedd yw i osod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2028. Mae'n dangos pam fod y Cyngor am ganolbwyntio ei egni a'i adnoddau mewn rhai meysydd ac yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd o dan saith maes blaenoriaeth.

2.2 Er fod y cynllun yn gosod blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd llawn, mae'r broses o'i baratoi a'i fonitro'n cynnwys trefn adolygu blynyddol. Mae'r broses o adolygu'r cynllun a gwneud man addasiadau iddo ar gyfer 2025-26 yn mynd rhagddo.

2.3 Yn ei gyfarfod ar 11eg o Chwefror 2025 cymeradwyodd y Cabinet yr argymhelliad i sicrhau bod gofal cartref yn cael sylw fel blaenoriaeth yng

Nghynllun y Cyngor, gyda'r bwriad o'i gyflwyno i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar 6ed o Fawrth 2025.

## 3 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

3.1 Un o'r saith maes blaenoriaeth yn y cynllun ydi Gwynedd Ofalgar. Yr uchelgais ar gyfer y maes hwn ydi i 'gefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau'.

3.2 Mae'r cynllun yn nodi'n glir sut y bydd yn cyflawni hyn ac yn adnabod wyth prosiect/rhaglen blaenoriaeth i wella darpariaeth a chryfhau gallu'r Cyngor i gyflawni'r uchelgais ar ran trigolion Gwynedd.

3.3 Yn ystod yr Hydref 2024 cynhaliodd Arolygaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru archwiliadau o wasanaethau gofal a ddarperir gan Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd. Yn ystod yr un cyfnod cynhaliwyd archwiliad cefnogi o wasanaethau pobl hŷn yr adran gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Comisiynwyd yr archwiliad fel dilyniant i ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad Llechen Lân. Mae casgliadau'r archwiliadau hyn yn cynnwys cyfeiriadau at wasanaethau gofal cartref a ddarperir neu a gomisiynir gan y Cyngor ac yn codi cwestiwn am flaenoriaeth y maes yng nghynlluniau strategol y Cyngor. Law yn llaw, roedd cyfeiriadau at y maes gofalwyr di-dâl a'r modd y mae'r Cyngor yn hyrwyddo'r gefnogaeth yma. Wrth gwrs, mae cyfraniad amhrisiadwy gofalwyr di-dâl y sir yn cyfrannu'n sylweddol at leihau'r galw am ofal cartref.

3.4 Yn dilyn trafodaethau gyda CLlLC ac Archwilio Cymru, nodwyd y byddai cynnwys y maes fel blaenoriaeth o dan bennawd Gwynedd Ofalgar yng Nghynllun y Cyngor yn cael ei ystyried fel cam cyntaf allweddol i ymateb i'w canfyddiadau drwy rhoi pwyslais priodol ac angenrheidiol ar faes sy'n un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r Cyngor. Mae'r adran wedi llunio geiriad ar gyfer y prosiect fydd yn mynd i'r afael â'r maes yma ac mae'r geiriad i'w weld ym mharagraff 1.1 yr adroddiad hwn.

## 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r argymhellion wedi ei baratoi gan ddal sylw at y gofynion yma ac yn unol â'r 5 ffordd o weithio.

## 5 Deddf Cydraddoldeb 2010

5.1 Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf

Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru. Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif.

## 6 Camau nesaf ac amserlen

6.1 Cyhoeddi'r diwygiadau i Gynllun y Cyngor ar wefan y Cyngor. Bydd cynnydd yn erbyn y prosiect uchod yn cael ei drafod fel rhan o drefn Herio a Chefnogi Perfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac felly'n cael ei graffu gan y Pwyllgor Craffu Gofal hefyd.

## 7 Barn y Swyddogion Statudol

### i. Y Pennaeth Cyllid

Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir. Mae tystiolaeth, gan gynnwys gwaith gan yr Adran Gyllid ymysg eraill, yn dangos fod y maes Gofal Cartref yn un sydd angen blaenoriaeth a sylw. Ar y llaw arall, mae'r prosiectau yng Nghynllun y Cyngor eisoes yn cystadlu am adnoddau hynod gyfyngedig ac fel amlygwyd pan fabwysiadwyd y Cynllun yn 2023, mae gofynion adnoddau'r holl flaenoriaethau gwella sydd yn y Cynllun eisoes yn fwy na'r arian fydd ar gael iddynt.

### ii. Y Swyddog Monitro

Gan fod Cynllun y Cyngor yn benderfyniad Cyngor Llawn mae'n briodol fod y penderfyniad a geisir yn dod gerbron ar argymhelliad y Cabinet. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

## 8 Barn yr Aelod Lleol

Ddim yn fater lleol.

**Cyfarfod:** Cyngor Llawn

**Dyddiad:** 6 Mawrth 2025

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet dros Gyllid

**Pwnc:** Cyllideb 2025/26

**Swyddog Cyswllt:** Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

---

**CYLLIDEB 2025/26**

**Y Penderfyniad a geisir**

1. **Sefydlu cyllideb o £356,815,330 ar gyfer 2025/26 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £248,389,720 a £108,425,610 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 8.66%).**

2. **Sefydlu rhaglen gyfalaf o £53,736,190 yn 2025/26 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.**

---

*Effaith y Penderfyniad*
*Byddai cynyddu'r Dreth Cyngor 8.66% yn gynnydd wythnosol o £2.92, neu £152.02 yn flynyddol, gyda threth Band D o £1,907.49 am 2025/26.*

*Mae'r cynnydd yn yr ardoll i'r Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynrychioli 0.43% o'r cynnydd.*

*Mae effaith manwl hyn wedi'i osod allan yn y penderfyniad ffurfiol sydd i'w gael yn Atodiad 11.*

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.

1.2 Gosodir y gyllideb hon mewn cyfnod ble mae awdurdodau lleol Cymru yn parhau i wynebu heriau ariannol, lle nad yw'r ychwanegiad i'r setliad yn cwrdd â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau.

1.3 Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd grant Llywodraeth o 3.8% ar gyfer 2025/26, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £8.6m mewn ariannu allanol. Yn ogystal â

hynny, mae sail y setliad am 2024/25 wedi cynyddu o £6.5m i adlewyrchu trosglwyddo cyfrifoldebau i'r setliad, sydd hefyd yn arian ychwanegol wedi ei gynnwys yn y grant.

1.4 Erbyn 2025/26, byddai angen cynyddu ein gwariant o £25.8m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod). Mae hyn yn cynnwys £7.7m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).

1.5 Gwelir yn yr adroddiad hwn fod pwysau galw ar wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant yn dangos fod rhaid ystyried cyfuniad o gynnydd Treth Cyngor a chyflwyno rhaglen newydd o arbedion a thoriadau os am osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26. Mae cyllideb 2025/26 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymell cynnydd o 8.66% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Hyd yn oed wedyn, byddwn angen chwilio am arbedion a thoriadau i osod cyllideb gytbwys, ac mae rhagolygon yn awgrymu bydd pwysau pellach wrth anelu i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27.

1.6 Mae'r arbedion a thoriadau sydd wedi cael eu hadnabod wedi bod yn destun ymgynghori gydag aelodau'r Cyngor mewn cyfres o weithdai yn Ionawr 2025. Mae'r gyllideb ddrafft wedi cael ei hystyried gan mwyafrif aelodau'r Cyngor mewn sesiwn briffio sefyllfa ariannol a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2025, a wedi ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 6 Chwefror. Swyddogaeth y Cabinet yw argymell cyllideb cytbwys a phriodol i gyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth ar gyfer 2025/26.

1.7 Mae cyllideb 2025/26 yn cynnwys cyfran sylweddol o'r arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol, rhai gafodd eu hadnabod wrth osod cyllideb 2024/25 yn ogystal ag arbedion newydd.

1.8 Eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £53.7m yn 2025/26, fel sydd wedi'i osod allan yn Atodiad 4.

1.9 Mater i'r Cyngor Llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor ar gyfer 2025/26 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2025/26, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2024/25.

## 2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi’r setliad terfynol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2025/26 fel a ganlyn:

| **Grant Cynnal Refeniw 2024/25 – 2025/26** | | **Cyfanswm Awdurdodau Cymru £** | **Cyngor Gwynedd £** |
|---|---|---|---|
| Grant y Llywodraeth 2024/25 | | 5,877,383,500 | 239,296,450 |
| Grant y Llywodraeth 2025/26 | | 6,139,077,560 | 248,389,720 |
| | Cynnydd £ | 261,694,060 | 9,093,270 |
| | Cynnydd % | 4.5% | 3.8% |

Mae manylion pellach am y setliad ar gael yma –

[Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: terfynol 2025 i 2026 | LLYW.CYMRU]

2.2 Mae ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru yn y tabl uchod yn dangos fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £9.1m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu’r ffigwr cymharol 2025/26 i adlewyrchu addasiadau yn y sylfaen drethiannol a trosglwyddiadau i’r setliad), sy’n gynnydd o 3.8%, tra bod y cyfartaledd ledled Cymru yn 4.5%.

2.3 Roedd y setliad drafft yn datgan y byddai Gwynedd yn derbyn grant llywodraeth o £246,818,190. Yn seiliedig ar hyn mae’r Cabinet yn ei gyfarfod 11 Chwefror 2025 wedi argymell gosod cyllideb o £355,243,800. Yn y cyfamser, cyhoeddwyd setliad terfynol llywodraeth leol ar 20 Chwefror 2025. Roedd hyn yn setliad o £1.6m uwch na'r hyn oedd yn y setliad drafft. Mae'r gyllideb yma’n defnyddio £1.6m at bwrpasau ariannu bidiau un-tro gwasanaethau yn 2025/26 gan roi'r gwahaniaeth, sef £14k mewn darpariaeth risg. Nid yw’r penderfyniadau a geisir yn cynnwys unrhyw newidiadau eraill i’r gyllideb a argymhellwyd gan y Cabinet.

2.4 Mae nifer o ffactorau yn bwydo’r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis poblogaeth y sir, nifer disgyblion yn ein ysgolion, a nifer hawlwyr cymorth incwm.

## 3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR – 2025/26

3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd mewn gwariant fydd angen er mwyn “sefyll yn llonydd” yn 2025/26.

**Gofynion Gwario Ychwanegol**

| | £ | £ |
|---|---:|---:|
| Cyllideb Sylfaenol | | 331,814,710 |
| Chwyddiant Cyflogau Staff | 8,597,340 | |
| YG Cyflogwr Ychwanegol | 4,560,100 | |
| Grant Tuag at YG Cyflogwr Ychwanegol | (3,500,000) | |
| Chwyddiant Arall (cyflenwyr) | 1,715,150 | |
| Ardollau (Tân, APCE, CNC a CBC) | 505,730 | |
| Demograffi | (643,000) | |
| Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau | 7,688,450 | |
| Addasiadau Cyllideb Amrywiol | (93,130) | |
| Llog ar Falansau | 2,254,120 | |
| Bidiau Un-tro / Darpariaeth Risg | 1,571,530 | |
| Trosglwyddiadau i’r Setliad | 3,094,330 | |
| Cyfanswm net yr ychwanegiadau | | 25,750,620 |
| Cyfanswm gofynion gwario 2025/26 cyn arbedion | | 357,565,330 |

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2024/25**

Er mai £332m yw gwariant net 2024/25, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £590m, oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £177m ac yn codi incwm cyffredinol o £81m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau £8.6m**

Daethpwyd i gytundeb ar gyflogau y gweithlu (ar wahân i athrawon) ar gyfer Ebrill 2024 i Mawrth 2025 drwy gytuno cynnydd o £1,290 hyd at pwynt cyflog 43, ac yna 2.5% i bwyntiau cyflog 44 ac uwch. Yn unol â'r mwyafrif o awdurdodau lleol eraill, roeddem wedi cyllidebu'n ddarbodus ar gyfer cynnydd o 5%, gyda'r cytundeb terfynol ychydig yn is na'r hyn oedd wedi ei gyllidebu amdano.

Mae'r gyllideb yma yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2025/26 o 3.5% ar gyfer yr holl weithlu (athrawon o Medi 2025, gweddill y gweithlu o Ebrill 2025).

3.4 **Addasiadau Net Yswiriant Gwladol Cyflogwr £1.1m**

Cyhoeddodd y Canghellor yn natganiad y Gyllideb ar gyfer 2025/26 y bydd addasiad i'r trothwy a cyfradd yswiriant gwladol telir gan gyflogwyr. Mae'r gyllideb yma wedi ei osod ar y sail y bydd y gost yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Llywodraeth.

3.5 **Chwyddiant Arall £1.7m**

Mae hwn yn swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer ystod eang o newidiadau yn ddibynnol ar raddfa chwyddiant meysydd penodol. Mae'r prif feysydd lle gwelir cynnydd yn cynnwys:

- Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol £1.4m
- Gofal Di-breswyl £972k:
  - Llety Cefnogol £624k,
  - Gofal Cartref £234k,
  - Gwasanaethau eraill £114k
- Ynni (Trydan a Nwy) (£819k)
- Tanwydd (Disel a Petrol) (£184k)
- Cynnydd prisiau eraill:
  - Yswiriant £133k
  - Trethi eiddo £44k

3.6 **Ardollau £506k**

Bydd yr ardollau a delir i'r cyrff perthnasol yn cynyddu fel a ganlyn rhwng 2024/25 a 2025/26:

| | |
|---|---|
| • Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | £427k |
| • Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | £53k |
| • Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig) | £2k |
| • Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd | £24k |

Mae'r cynnydd net o £427k i ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfateb i 0.43% o gynnydd yn y dreth cyngor, mae hyn yn rhagdybio y byddwn yn derbyn grant tuag at gost ychwanegol Yswiriant Gwladol yr awdurdod.

3.7 **Demograffi (£643k)**
Lleihad mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion; sef uwchradd (£228k) a cynradd (£415k).

3.8 **Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau £7.7m**
Mae Atodiad 2 yn cynnwys manylion pob cais unigol am wariant ychwanegol sy'n deillio o bwysau ar y gwasanaethau.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £7.7m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Gofynnir i bob adran i adnabod unrhyw wariant rhaid i'r Cyngor gyflawni er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r drefn yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu ei hun wrth i ni adolygu patrymau gwariant y flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, ac wedyn y Cyngor yn gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau sydd wedi eu rhestru yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet. Ymhellach, cyflwynwyd yr holl geisiadau gwariant hyn yn y Seminar Cyllideb a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2025.

3.9 **Bidiau Un-tro / Darpariaeth Risg £1.6m**
Cyhoeddwyd setliad terfynol llywodraeth leol ar 20 Chwefror 2025. Roedd hyn yn setliad o £1.6m uwch na'r hyn oedd yn y setliad drafft. Mae'r gyllideb yma'n defnyddio £1.6m at bwrpasau ariannu bidiau un-tro gwasanaethau yn 2025/26 gan roi'r gwahaniaeth, sef £14k mewn darpariaeth risg.

3.10 **Ystyriaethau Eraill £2.2m**
Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys effaith lleihad mewn derbyniadau llog o £2.3m mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor, a gostyngiad cost o (£93k) oherwydd ystyriaethau cyllidebol eraill.

## 4. ARBEDION PRESENNOL SYDD WEDI EU CYMERADWYO'N FLAENOROL

4.1 **Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £42m o gynlluniau arbedion ers 2015/16**.

4.2 Ar 20 Chwefror 2024, bu i'r Cabinet gymeradwyo gwerth £5.2m o arbedion ar gyfer cyllideb 2024/25 ymlaen. Gwelir proffil y rhaglen yma yn Atodiad 3, sy'n dangos fod gwerth £2,860,300 o'r arbedion wedi eu proffilio ar gyfer 2025/26. Bu i'r £5.2m yn ei gyfanrwydd ei weithredu yng nghyllideb 2024/25, gydag arbedion y blynyddoedd dilynol yn cael eu pontio o gronfeydd. Felly, nid yw arbedion 2025/26 a 2026/27 yn cynorthwyo i leihau y bwlch ariannol yn y blynyddoedd hynny.

4.3 Mae tri cynllun arbedion gwerth £650k sydd yn berthnasol i 2025/26 yn deillio o raglenni blaenorol o arbedion ac ar gael i lenwi bwlch 2025/26.

4.4 Mae gwerth yr arbedion fesul adran wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol.

| **Arbedion sydd eisoes wedi eu rhaglennu i leihau bwlch Cyllideb 2025/26** | |
|---|---|
| | £ |
| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,123,120 |
| Adran Amgylchedd | 949,630 |
| Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC | 462,500 |
| Adran Cyllid a Technoleg Gwybodaeth | 292,540 |
| Adran Addysg | 151,960 |
| Adran Economi a Chymuned | 135,020 |
| Adran Gwasanaethau Corfforaethol | 218,620 |
| Tim Rheoli Corfforaethol | 30,000 |
| **Is-Gyfanswm** | **3,363,390** |
| Llai: Darpariaeth Arbedion | (286,030) |
| **Arbedion Cynlluniedig Presennol 2025/26** | **3,077,360** |

## 5. BWLCH ARIANNU 2025/26 A'R DRETH CYNGOR

5.1 Fe welir o Rhan 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion a thoriadau) ar gyfer 2025/26 yn £357.6m. Nodwyd yn rhan 2 fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £248.4m.

5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £650k o arbedion a thoriadau sydd eisoes wedi eu cymeradwyo i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

| **Sefydlu Cyllideb 2025/26** | £ |
|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol 2024/25 | 331,814,710 |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 25,750,620 |
| Gofynion Gwario 2025/26 cyn Arbedion | 357,565,330 |
| llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru | (248,389,720) |
| Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac arbedion pellach | 109,175,610 |

5.3 Golyga hynny fod bwlch gweddilliol o £109.2m sydd angen ei lenwi. Mae adroddiad arbedion i Gabinet 11 Chwefror 2025 yn argymell gweithredu cynlluniau arbedion a thoriadau newydd o £519k. Fodd bynnag, dim ond £100k gellir ei dynnu o gyllideb 2025/26 gyda'r gweddill i'w dynnu o gyllidebau 2026/27 a 2027/28.

5.4 O ystyried y £3.4m o arbedion sydd wedi eu cymeradwyo yn flaenorol ar gyfer 2025/26 (gweler Rhan 4 uchod), byddai £100k ychwanegol yn dod â'r cyfanswm i £3.5m o arbedion a thoriadau ar gyfer 2025/26. Serch hynny, gwerth £750k o'r cyfanswm yma sydd yn cyfrannu at lenwi'r bwlch ariannol fel sydd yn cael ei egluro yn rhan 4.3.

| | |
|---|---|
| Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac Arbedion | 109,175,610 |
| Llai Arbedion presennol eisoes wedi eu cymeradwyo | (650,000) |
| Llai Arbedion a thoriadau newydd | (100,000) |
| Bwlch gweddillol o'r Dreth Cyngor | 108,425,610 |

5.5 Ceir mwy o wybodaeth am yr arbedion a'r toriadau yn Atodiad 3.

5.6 Argymhellir cyfarch gweddill y bwlch drwy'r Dreth Cyngor. Byddai cynyddu'r Dreth ar anheddau unigol o 8.66% yn cynhyrchu £108,425,610 o incwm, a byddai hyn y ddigonol i lenwi'r bwlch.

5.7 Bydd hyn yn £9.9m o incwm Treth Cyngor ychwanegol o'i gymharu â chyllideb 2024/25. Mae hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £152.02 i eiddo mewn Band D, neu £2.92 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 6.44% ar gyfer 2025/26) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

5.8 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.

5.9 Pe bai aelodau'r Cyngor yn dymuno cynnydd llai na 8.66% yn lefel y Dreth, yna byddai rhaid ymrwymo llai o adnoddau parhaol i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau, darganfod mwy o arbedion a thoriadau, neu gyfuniad o'r ddau.

5.10 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a lefel rhesymol o drethiant o hyd yn un anodd. Ar gyfer 2025/26 disgwylir bydd y cynnig gerbron i godi'r dreth 8.66% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau tra'n gosod cyllideb gytbwys yn lefel tebyg i fwyafrif yr awdurdodau yng ngogledd Cymru.

## 6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2025/26

6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2025/26 a bydd rhaid parhau i gynaeafu arbedion hanesyddol, cyflwyno arbedion a thoriadau newydd, a chodi lefel y dreth er mwyn gosod cyllideb gytbwys.

6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £357.6m, wedi ychwanegu £25.8m, sy'n cynnwys darparu £7.7m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.

6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £248.4m, dibynnu ar £750k o arbedion (£650k o arbedion hanesyddol sydd eisoes wedi eu rhaglennu a £100k o arbedion newydd). Bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 8.66% i gynhyrchu £108.4m o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2025/26.

| **Cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26** | |
|---|---|
| | £ |
| Gofynion Gwario 2025/26 cyn Arbedion | 357,565,330 |
| Cyfanswm Arbedion 2025/26 | (750,000) |
| Cyllideb 2025/26 | 356,815,330 |
| | |
| **I'w ariannu drwy -** | |
| Incwm Grant | 248,389,720 |
| Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 8.66%) | 108,425,610 |
| Cyllideb 2025/26 | 356,815,330 |

6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o **£356,815,330**. Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

## 7. CYFALAF

7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Ar 11 Gorffennaf 2024 diweddarwyd y strategaeth gan y Cyngor gyda'r cyfnod wedi ei ymestyn hyd at 2033/34. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac rydym yn ychwanegu at hwnnw erbyn 2025/26. Ceir manylion y rhaglen gyfalaf bresennol yn Atodiad 4.

7.2 Mae'r ddau dabl a welir yn Atodiad 4 yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf, ynghyd â'r ariannu, ar gyfer gosod cyllideb cyfalaf 2025/26 i 2027/28, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £53,736,190 yn 2025/26, i'w ariannu o'r ffynonellau sydd wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.

7.3 Yn y tabl yn Atodiad 4 nodir bod £500k ar gael yn flynyddol ar gyfer cyllido bidiau cyfalaf. Ar gyfer 2025/26, mae £523k wedi ei glustnodi ar gyfer y 3 bid cyfalaf perthnasol a fanylir yn Atodiad 2b.

## 8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

8.1 Wrth gyhoeddi setliad drafft 2025/26 yn Rhagfyr 2024, nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi arwydd o'r cynnydd mewn grant fydd yn cael ei dalu i awdurdodau lleol Cymru o 2026/27. Fodd bynnag, nid yw'r rhagolygon yn gadarnhaol, a disgwylir i Cyngor Gwynedd, fel pob cyngor arall dderbyn cynnydd sydd yn is na chwyddiant yn y dyfodol – ac efallai dim cynnydd o gwbl.

8.2 Wrth ystyried y galw cynyddol am wasanaethau sydd ar y Cyngor, yn wyneb darpariaeth sy'n crebachu yn sgil toriadau, bydd angen ystyriaeth sylfaenol, buan am yr hyn y gall y Cyngor ei ddarparu a sut. Fel gwelir yn Atodiad 3, mae cynlluniau arbed pellach wedi eu rhaglennu ar gyfer 2026/27 a thu hwnt ond bydd gwaith yn cychwyn yn syth ar ôl gosod y gyllideb ar gyfer 2025/26 ar ddiweddaru Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cydnabod y sefyllfa fel y'i rhagwelir.

## 9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU

9.1 Mae'r lefel gyfredol o falansau cyffredinol y Cyngor yn £7.9m. O ystyried y pwysau cynyddol a ddisgwylir ar gyllidebau'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf, ystyrir bydd lefel y balansau hyn yn briodol i'w gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir gwybodaeth am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.

9.2 Mae Atodiad 5, 'Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2025/26', yn egluro sefyllfa cyllideb ysgolion Gwynedd.

9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, gan gynnwys sylwadau'r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb cyfan o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r asesiad yn cadarnhau fod effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol, ac ni chredir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn sylweddol.

9.4 Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Yn unol â'r drefn arferol, rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.

9.5 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn fater lleol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Swyddog Monitro:**
Mae'r argymhelliad gan y Cabinet ar gyfer y gyllideb yn anorfod yn ganlyniad proses fanwl sydd yn dwyn at eu gilydd ystyriaethau statudol, cyllidol a blaenoriaethu. Yn unol â threfniadau llywodraethu'r Cyngor mae hyn yn cynnwys trosolwg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rwy'n nodi yr addasiad hwyr i'r setliad sydd yn cael ei gyfarch yn yr adroddiad gyda argymhelliad ar gyfer ymateb eleni. Dylai'r Cyngor ddal sylw at y cyfan o'r asesiadau ac ymgynghoriadau a gyfeirir atynt a'r canfyddiadau sydd yn deillio wrth ystyried cymeradwyo'r argymhelliad. Mae'r Gyllideb hefyd yn seiliedig ar doriadau sydd wedi eu cymeradwyo gan y Cabinet er cefnogi'r argymhelliad. Rwyf wedi adolygu y materion yma ac rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma yn unol â phenderfyniad Cabinet 11 Chwefror ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2025/26 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

**ATODIADAU**

| | |
|---|---|
| 1 | Cyllidebau Arfaethedig |
| 2 | Crynodeb Bidiau |
| 2a | Bidiau Refeniw Parhaol |
| 2b | Bidiau Cyfalaf |
| 3 | Arbedion a Thoriadau |
| 4 | Cyfalaf |
| 5 | Ymdrin â’r Gyllideb Ysgolion yn 2025/26 |
| 6 | Treth Cyngor |
| 7 | Balansau |
| 8 | Asesu’r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol |
| 9 | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| 10 | Datganiad y Swyddog Cyllid Statudol ar Gadernid yr Amcangyfrifon |
| 11 | Penderfyniad Ffurfiol |

## CYLLIDEBAU ARFAETHEDIG 2025/26 FESUL GWASANAETH

| ADRANNAU | Cyllideb Sylfaenol 2024/25 £'000 | Chwyddiant Cyflogau, YG a Phensiynau £'000 | Chwyddiant Arall £'000 | Demograffi £'000 | Trosglwyddiad Setliad £'000 | Addasiad Targed Incwm Grantiau £'000 | Pwysau ar Wasanaethau £'000 | Bidiau Un-tro / Darpariaeth Risg £'000 | Arbedion Presennol £'000 | Arbedion Newydd £'000 | Addasiadau Amrywiol £'000 | Cyllideb Sylfaenol 2025/26 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg Canolog | 20,472 | 888 | (351) | 0 | 70 | 0 | 0 | 939 | (151) | 0 | (230) | 21,637 |
| Cyllideb Ysgolion | 93,627 | 5,762 | (52) | (643) | 2,262 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 96 | 101,052 |
| Economi a Chymuned | 4,847 | 277 | (283) | 0 | 0 | 0 | 202 | 0 | (135) | 0 | (2) | 4,906 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 77,968 | 1,868 | 1,753 | 0 | (40) | 0 | 3,040 | 100 | (1,046) | 0 | 117 | 83,760 |
| Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal | 2,622 | 107 | 4 | 0 | 0 | 0 | 90 | 0 | (77) | 0 | (14) | 2,732 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 22,949 | 787 | (51) | 0 | 0 | 0 | 2,273 | 115 | 0 | 0 | 92 | 26,165 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 17,395 | 888 | (239) | 0 | 0 | 0 | 276 | 0 | (463) | 0 | (25) | 17,832 |
| Amgylchedd | 17,911 | 688 | (85) | 0 | 0 | 0 | 485 | 0 | (950) | 0 | (14) | 18,035 |
| Tai ac Eiddo | 8,645 | 156 | 34 | 0 | 0 | 0 | 700 | 500 | 0 | 0 | 50 | 10,085 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,757 | 66 | (5) | 0 | 0 | 0 | 58 | 0 | (30) | 0 | (12) | 2,834 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 7,752 | 394 | 17 | 0 | 0 | 0 | 289 | 64 | (219) | 0 | 19 | 8,316 |
| Cyllid | 8,368 | 323 | 149 | 0 | 0 | 0 | 275 | 0 | (292) | 0 | 174 | 8,997 |
| CYFANSWM ADRANNAU | 285,313 | 12,204 | 891 | (643) | 2,292 | 0 | 7,688 | 1,718 | (3,363) | 0 | 251 | 306,351 |
| Materion Corfforaethol a Chyfalaf | 53,609 | 954 | 1,658 | 0 | 802 | (3,500) | 0 | (146) | 97 | (100) | 878 | 54,252 |
| CYFANSWM GROS | 338,922 | 13,158 | 2,549 | (643) | 3,094 | (3,500) | 7,688 | 1,572 | (3,266) | (100) | 1,129 | 360,603 |
| Llai Praesept Cynghorau Cymuned | (3,116) | 0 | (328) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (3,444) |
| CYFANSWM GWARIANT GROS | 335,806 | 13,158 | 2,221 | (643) | 3,094 | (3,500) | 7,688 | 1,572 | (3,266) | (100) | 1,129 | 357,159 |
| Balansau a Reserfau Penodol | (3,991) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | 2,616 | 0 | 1,032 | (343) |
| **CYFANSWM GWARIANT NET =** | **331,815** | **13,158** | **2,221** | **(643)** | **3,094** | **(3,500)** | **7,688** | **1,572** | **(650)** | **(100)** | **2,161** | **356,816** |
| ***Ariannwyd Drwy:-*** | | | | | | | | | | | | |
| Grant | 233,317 | | | | | | | | | | | 248,390 |
| Treth Cyngor | 98,498 | | | | | | | | | | | 108,426 |
| **Cyfanswm Incwm** | **331,815** | | | | | | | | | | | **356,816** |

**ATODIAD 2 - CRYNODEB BIDIAU**

| | Bidiau | Parhaol (£) | Cyfalaf (£) |
|---|---|---|---|
| Grŵp A | Adnoddau ychwanegol i gyfarch y gwir gost o ddarparu gwasanaethau presennol gan ddelio gyda gorwariant hanesyddol tu hwnt i allu'r adran i'w ddatrys a/neu pwysau ychwanegol yn 2025/26 oherwydd cynnydd mewn costau a cynnydd yn y galw | 6,887,130 | |
| Grŵp B | Materion mae'r Cabinet eisoes wedi gwneud penderfyniad i'w cefnogi yn ystod y flwyddyn ac felly wedi rhagdybio'r broses bidio | 90,000 | |
| Grŵp C | Materion newydd ar gyfer 2025/26 | 711,320 | |
| Cyfalaf 1 | Adnewyddu offer a gofod ffitrwydd Byw’n Iach Arfon a Dwyfor | | 160,000 |
| Cyfalaf 2 | Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd) | | 50,000 |
| Cyfalaf 3 | System graidd Gwasanaethau Cymdeithasol (Olynydd WCCIS) | | 312,800 |
| | | **7,688,450** | **522,800** |

**ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL 2025/26**

| Grŵp | Teitl y Bid | Swm Parhaol a argymhellir (£) | |
|---|---|---|---|
| **A** | **Adnoddau ychwanegol i gyfarch y gwir gost o ddarparu gwasanaethau presennol gan ddelio gyda gorwariant hanesyddol tu hwnt i allu'r adran i'w ddatrys a/neu pwysau ychwanegol yn 2025/26 oherwydd cynnydd mewn costau a cynnydd yn y galw.** | | |
| 1A | Addasu targed incwm Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu i adlewyrchu'r ganran o amser a dreulir ar waith delio gyda adeiladau blêr a pheryglus, sydd ddim yn cynhyrchu ffi | 85,000 | |
| 2A | Arian grant digartrefedd sydd wedi ei drosglwyddo i'r setliad eleni ac felly angen ei ychwanegu i gyllideb refeniw y Gwasanaeth Digartrefedd | 699,680 | |
| 3A | Colled incwm i wasanaethau canolog yn dilyn terfynu GwE | 155,100 | |
| 4A | Cwrdd â'r cynnydd yn y galw am ofal cartref yn y flwyddyn i ddod a darparu mwy o ofal wrth i ni geisio lleihau rhestrau aros | 1,100,000 | |
| 5A | Cyllido diffyg incwm Priffyrdd sy'n creu gorwariant ers rhai blynyddoedd | 100,000 | |
| 6A | Cynnydd mewn costau lleoli plant mewn gofal mewn lleoliadau all-sirol | 500,000 | |
| 7A | Cynnydd mewn costau o gyfarch y galw uwch am Wasanaethau Cymdeithasol Gofal Plant gan gynnwys cynyddu capasiti a gwariant uwch ar daliadau uniongyrchol | 565,000 | |
| 8A | Cynnydd Yswiriant Gwladol Byw'n Iach | 102,380 | |
| 9A | Cynydd anorfod mewn costau gwasanaeth gan Gartrefi Gofal allanol | 1,026,260 | |
| 10A | Cywiro anghysondebau mewn dull cyfrifo cyflogau (equated pay) gweithwyr mewn sawl adran sydd ar y graddfeydd cyflog isaf | 150,000 | |
| 11A | Delio gyda diffyg cyllideb hanesyddol yn y Tîm Gofal Stryd, sydd tu hwnt i allu'r adran i'w ddatrys ac yn arwain at orwariant blynyddol ers cryn amser | 175,610 | |
| 12A | Delio gyda diffyg cyllideb hanesyddol yn y Tîm Gwastraff, sydd tu hwnt i allu'r adran i'w ddatrys ac yn arwain at orwariant blynyddol ers cryn amser | 400,000 | |
| 13A | Galw uwch am wasanaeth cefnogol Tîm Derwen i blant ag anableddau | 800,000 | |
| 14A | Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer - cywiro diffyg cyllideb hanesyddol sydd tu hwnt i allu'r adran i'w ddatrys | 37,000 | |
| 15A | Gwir gost y gyfundrefn bresennol a cwrdd a'r cynnydd yn y galw am ofal cartref yn 2024/25 | 900,000 | |
| 16A | Mwy o adnodd yn y gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol er mwyn ymdopi gyda cynnydd yn y galw am wasanaeth | 33,500 | |
| 17A | Delio gyda gorwariant hanesyddol y Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol | 57,600 | |
| | | | **6,887,130** |
| **B** | **Materion mae'r Cabinet eisoes wedi gwneud penderfyniad i'w cefnogi yn ystod y flwyddyn ac felly wedi rhagdybio'r broses bidio** | | |
| 1B | Cost blynyddol system meddalwedd Gofal Cymdeithasol, sy'n cadw gwybodaeth am ein holl achosion Plant ac Oedolion | 90,000 | |
| | | | **90,000** |
| **C** | **Materion newydd ar gyfer 2025/26** | | |
| 1C | Byw'n Iach - swm wrth gefn ar gyfer delio gyda diffyg incwm 2025/26 sydd tu hwnt i allu'r cwmni i'w ddatrys | 100,000 | |
| 2C | Costau rhedeg cartref grŵp bychain ar gyfer plentyn sydd ag anghenion ychwanegol sylweddol | 310,000 | |
| 3C | Cwrdd â'r gofyn statudol i gyllido swyddogion undebau llafur | 59,100 | |
| 4C | Cynyddu capasiti er mwyn delio gyda asesiadau 'Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid' (DoLS) Oedolion Bregus | 112,220 | |
| 5C | Diogelu cyfrifiaduron y Cyngor gyda meddalwedd gwrth-firws | 100,000 | |
| 6C | Trefniadau ymateb i argyfwng y gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) | 30,000 | |
| | | | **711,320** |
| | | **Cyfanswm** | **7,688,450** |

**ATODIAD 2b - BIDIAU CYFALAF**

| BIDIAU CYFALAF 2025/26 | | |
|---|---|---|
| **Bid** | **Teitl y Bid** | **Swm a argymhellir (£)** |
| Cyfalaf 1 | Adnewyddu offer a gofod ffitrwydd yng Nghanolfannau Byw'n Iach Arfon a Dwyfor | 160,000 |
| Cyfalaf 2 | Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd) o fewn Adran Economi a Chymuned er mwyn cefnogi grwpiau gwirfoddol i ddatblygu prosiectau mewn cymunedau lleol | 50,000 |
| Cyfalaf 3 | System feddalwedd graidd newydd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn olynu system WCCIS lle mae cefnogaeth y darparwr yn dirwyn i ben | 312,800 |
| | | **522,800** |

**ATODIAD 3**

**ARBEDION A THORIADAU**

**1.** Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £42m o gynlluniau arbedion ers 2015/16.

**2.** Unwaith eto eleni fel mewn blynyddoedd blaenorol nid oedd y grant gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a gan fod y pwysau mewn amrywiol feysydd megis gofal, gwastraff, a digartrefedd yn parhau, rydym wedi bod mewn cylch parhaus o orfod darganfod arbedion.

**3.** Mae un cynllun arbedion gwerth £200,000 gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a dau gynllun gyda chyfanswm o £450,000 yn y maes gwastraff gan yr Adran Amgylchedd, sydd yn deillio o raglenni blaenorol o arbedion sydd yn berthnasol i 2025/26. Mae'r cynlluniau eisoes wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor, ac felly nid ydynt yn destun penderfyniad eleni. Maent hefyd wedi dilyn proses statudol priodol, gweler isod er gwybodaeth.

| **Arbediad** | **Cyfanswm £** |
|---|---:|
| Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd) | 200,000 |
| Gwasanaethau Gwastraff - Rhesymoli trefniadau dosbarthu cynhwysion | 50,000 |
| Gwasanaethau Gwastraff - Adolygu Cytundebau Gwastraff | 400,000 |
| **CYFANSWM** | **650,000** |

**4.** Ar 20 Chwefror 2024, bu i'r Cabinet gymeradwyo gwerth £5.2m o arbedion a thoriadau ar gyfer cyllideb 2024/25 ymlaen, a ddaeth i rym yn unol â'r proffil isod, gyda gwerth £2,860,300 wedi eu proffilio ar gyfer 2025/26. Gweithredwyd y £5.2m yn ei gyfanrwydd wrth osod cyllideb yn 2024/25 ac felly nid yw arbedion 2025/26 a 2026/27 yn cynorthwyo i leihau'r bwlch ariannol yn y blynyddoedd hynny.

**PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION A THORIADAU 2024/25 YMLAEN**

| | **2024/25 £** | **2025/26 £** | **2026/27 £** | **Cyfanswm £** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Proffil arbedion a thoriadau | 1,965,760 | 2,860,300 | 343,090 | **5,169,000** |

**5**. Bu i’r cabinet ar 21 Ionawr 2025 gymeradwyo i ddileu'r cynllun casglu clytiau gwerth £146,910 o’r maes gwastraff yn yr Adran Amgylchedd sydd wedi ei broffilio ar gyfer 2025/26, gan ddefnyddio’r ddarpariaeth a osodwyd o’r neilltu yn y gyllideb er mwyn gwneud hynny.

**6.** Yn sgil yr hinsawdd economaidd bresennol, mae’n anorfod fod rhaid i Awdurdodau Lleol barhau i edrych ar arbedion a thoriadau i gynorthwyo’r sefyllfa ariannol. Mae adroddiad ar wahân ar raglen y Cabinet yn cynnwys rhestr o arbedion a thoriadau pellach arfaethedig ar gyfer eu gweithredu yn 2025/26 – 2027/28 sydd werth £519,000, byddant yn dod i rym yn unol â’r proffil isod:

**PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION A THORIADAU NEWYDD 2025/26 YMLAEN**

| | **2025/26 £** | **2026/27 £** | **2027/28 £** | **Cyfanswm £** |
|---|---|---|---|---|
| Proffil arbedion a thoriadau | 100,000 | 320,500 | 98,500 | **519,000** |

**7.** Felly, i grynhoi, yr arbedion a thoriadau canlynol sydd wedi eu proffilio i’w gwireddu yn 2025/26:

| | **£** |
|---|---|
| Arbedion sydd wedi eu cymeradwyo’n flaenorol | 200,000 |
| Arbedion 23/24 wedi eu proffilio i 25/26 | 450,000 |
| Arbedion a thoriadau 24/25 wedi eu proffilio i 25/26 | 2,860,300 |
| Dileu 1 cynllun hanesyddol yr Adran Amgylchedd | -146,910 |
| Arbedion a thoriadau newydd 25/26 wedi eu proffilio i 25/26 | 100,000 |
| **CYFANSWM** | **3,463,390** |

**ATODIAD 4**

**CYFALAF**

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

2. Gosodir isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

| **RHAGLEN GYFALAF** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2025/26 £'000** | **2026/27 £'000** | **2027/28 £'000** |
| **Cynlluniau'r Cyngor:** | | | |
| Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 12,443 | 2,795 | 1,005 |
| Unedau Diwydiannol | 2,652 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro | 10,974 | 1,975 | 0 |
| Cartrefi/ Canolfannau Oedolion | 4,505 | 0 | 0 |
| Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol | 1,203 | 2,077 | 1,301 |
| Atal Llifogydd Arfordirol | 1,060 | 308 | 2,998 |
| Cynlluniau/Strategaeth Tai | 7,475 | 6,730 | 3,860 |
| Cynlluniau Eiddo | 3,854 | 100 | 194 |
| Cerbydau Adrannol | 6,899 | 3,854 | 244 |
| Cyfarpar Digidol | 606 | 609 | 1,248 |
| Cynlluniau Eraill | 1,565 | 437 | 1,872 |
| Bidiau Cyfalaf (Heb ddosrannu) | 500 | 500 | 500 |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN** | **53,736** | **19,385** | **13,222** |

3. Bydd y rhaglen yn cael ei ariannu fel a ganlyn:

| ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF | | | |
|---|---|---|---|
| | **2025/26 £'000** | **2026/27 £'000** | **2027/28 £'000** |
| Benthyca Gyda Chefnogaeth | 4,070 | 4,070 | 4,070 |
| Benthyca Arall | 4,740 | 4,481 | 362 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 24,960 | 6,498 | 2,540 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 0 | 0 | 0 |
| Cronfa Cyfalaf | 8,709 | 308 | 3,700 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 11,257 | 4,028 | 2,550 |
| **CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN** | **53,736** | **19,385** | **13,222** |

4. Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Ar 11 Gorffennaf 2024 diweddarwyd y strategaeth gan y Cyngor gyda’r cyfnod wedi ei ymestyn hyd at 2033/34. Fe’i ymgorfforir fel rhan o’r Rhaglen Gyfalaf.

5. Sefydlwyd proffiliau i’r Cynlluniau gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda’r Pennaethiaid Adrannau ac yn ddibynnol ar ofynion y cynlluniau a’r adnoddau sydd ar gael.

6. Mae’r tabl uchod felly yn adlewyrchu’n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â’r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2025/26 i 2027/28, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2024/25 hyd 2033/34.

7. Mae’r ffigwr Benthyca Gyda Chefnogaeth a’r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn fwy yn 2025/26 na’r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu’r strategaeth asedau ac mae’r rhaglen wedi ei addasu i gydfynd.

8. Felly, gofynnir i’r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £53,736,190 ar gyfer 2025/26, i’w ariannu o’r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.

**ATODIAD 5**

**YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2025/26**

1. **Cefndir:** Y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi.

2. **Chwyddiant:** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£3.1m** eleni ar gyfer cynnydd chwyddiant, gan gynnwys chwyddiant tâl a phensiwn athrawon. Bydd hyn yn cyfarch cynnydd costau cyflogau athrawon o 5.5% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn lawn cytundeb tâl Medi 2024, a hefyd cost cynnydd pellach o 3% amcangyfrifir ar gyfer cytundeb tâl Medi 2025 (am y 7 mis Medi 2025 – Mawrth 2026). Mae cynnydd cyflog staff ategol Ebrill 2024 hefyd wedi'i gynnwys ac amcan pellach o 3% Ebrill 2025.

3. **Yswiriant Gwladol:** Bydd cynnydd o **£1.9m** mewn cost yswiriant gwladol cyflogwr, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Lloegr i gynyddu cyfradd cyflogwr o 13.8% i 15.0%, ynghyd â lleihau'r trothwy i £5,000.

4. **Pensiwn Athrawon:** Roedd cynnydd yn y gyfradd cyfraniad cyflogwr ar bensiwn athrawon o 5% o Ebrill 2024. Mae grant penodol wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2024/25 i ariannu'r cynnydd, gyda'r grant yn trosglwyddo i'r setliad ar gyfer 2025/26.

5. **Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £474k i gyllideb ar gyfer 2025/26 i ymdrin ag incrementau a lleihad trosiant staff o (£134k).

6. **Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn lleihau eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2024 i gyfrifo dyraniadau 2025/26. Mae'r sefyllfa yn amrywio o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith lleihad niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn lleihau (£643k), sy'n cynnwys lleihad (£415k) i'r sector Gynradd a lleihad (£228k) i'r sector Uwchradd. Bydd ysgolion unigol yn disgwyl cynnydd / gostyngiad yn eu dyraniadau yn gymesur â'r newid mewn niferoedd disgyblion yn yr ysgolion.

7. **Arbedion a Thoriadau:** Ar ôl gweithredu toriadau â cyfanswm o £1.966m yn 2023/24 a 2024/25, nid oes bwriad gweithredu arbedion pellach ar ysgolion yn 2025/26.

8. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys y bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2025/26 gan ddilyn yr un sail dyrannu â 2024/25.

9. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion yn uwch yn 2025/26 o'i gymharu gyda 2024/25.

**ATODIAD 6**

**TRETH CYNGOR**

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor Llawn ei wneud, yn sgil yr ystyriaethau a gyflwynir yn yr adroddiad yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2025/26. Yr allwedd i hyn yw cael balans priodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.

2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5% fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r lefel bu'n rhaid ei godi yn amrywio'n flynyddol, a hynny i raddau helaeth i adlewyrchu'r bwlch oedd yn bodoli yn sgil setliad grant Llywodraeth Cymru.

3. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2016/17:

| **Blwyddyn** | **Cyngor Gwynedd** | **Cymru** |
|---|---|---|
| 2024/25 | 9.54% | 7.8% |
| 2023/24 | 4.95% | 5.5% |
| 2022/23 | 2.95% | 2.2% |
| 2021/22 | 3.7% | 3.6% |
| 2020/21 | 3.9% | 4.6% |
| 2019/20 | 5.8% | 6.2% |
| 2018/19 | 4.8% | 4.9% |
| 2017/18 | 2.8% | 3.0% |
| 2016/17 | 4.0% | 3.6% |

Yn 2024/25 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,755 tra roedd lefel treth gyfartalog siroedd Cymru yn £1,631.

Ceir mwy o fanylion yn y ddogfen yma (sydd ar gael yn Saesneg yn unig): Council Tax levels: April 2023 to March 2024 | GOV.WALES

4. Eleni, argymhellir codi'r dreth 8.66% ar gyfer 2025/26. Byddai hynny'n cynhyrchu £108m o dreth (o'i gymharu â £98m yn 2024/25), sy'n cynnwys £9m o gynnyrch Premiwm. Byddai hynny'n gyfystyr â chynnydd yn y Dreth Cyngor o £152.02 i eiddo mewn Band D, neu £2.92 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 6.44% ar gyfer 2025/26) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

5. Mae dros 7,950 o dai yn derbyn elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor trwy'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, ac mae dros 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Yn ogystal â hynny, mae ystod eang o eithriadau a disgowntiau statudol yn bodoli, sy'n berthnasol i statws yr eiddo.

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cynnydd cyfartalog ar draws Cymru yn 2025/26, ond yr wybodaeth ddiweddaraf yw y bydd amrediad eithaf eang ar draws Cymru. Mae'r cynnig gerbron i godi'r dreth 8.66% yn gyson â'r sefyllfa ar draws y gogledd. Byddai pob 1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £997,840. Felly, byddai 3.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £4,778,820 tra byddai 5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £6,275,590.

7. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i sawl sgwrs anffurfiol mewn fforymau aelodau, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 8.66%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £2.92 neu £152.02 yn flynyddol, gyda threth Band D o £1,907.49 am 2025/26.**

**CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI**

8. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 5 Rhagfyr 2024, penderfynwyd parhau gyda'r premiwm o 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy am 2025/26 ac i barhau efo'r premiwm ar ail gartrefi o 150%. Amcangyfrifir y bydd y Cyngor yn derbyn £9m o incwm ychwanegol yn 2025/26 trwy'r premiwm. Mae £6m o'r arian wedi ei neilltuo i gronfa er mwyn gweithredu'r Cynllun Gweithredu Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau, a £3m i'r gyllideb digartrefedd.

9. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a chyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2025/26.

**ATODIAD 7**

**BALANSAU**

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o ‘gyfalaf gweithredol’ i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir y bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o tua £7.9m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.3% o wariant refeniw gros y Cyngor.

2. Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin â phroblemau a allai godi.

3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, galw am wasanaethau gofal, digartrefedd a gwastraff yn parhau sydd yn golygu fod y risg yn parhau. Felly, mae’r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol.

4. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi’u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i’r reserfau penodol gan y Cabinet ar 14 Mai 2024 a gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Mai 2024, pan gymeradwywyd i drosglwyddo £1.703 miliwn o gronfeydd a’i ddefnyddio yn ei gyfanrwydd i gynorthwyo’r adrannau oedd wedi gorwario yn 2023/24. Hefyd dad ymrwymwyd gwerth £1.113 miliwn o’r gronfa trawsffurfio i’w ddefnyddio i gyllido bidiau un tro 2024/25. Rwy’n adolygu lefel y reserfau yma’n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad eto erbyn Mai 2025**, i ystyried faint o le fydd yna i’r Cyngor newid ei flaenoriaethau y tu mewn i’r reserfau yma.

5. Yn ystod 2025/26 mae bwriad defnyddio £343k o’r ‘Gronfa Strategaeth Ariannol’ i bontio’r gyllideb a’r arbedion sydd wedi eu hadnabod ond na fydd yn cael eu cyflawni tan 2026/27. Mae’r gronfa yma wedi ei sefydlu yn bwrpasol er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd fel hyn pan maent yn codi.

6. Yn ei adroddiad “Ymdrin â’r Heriau Ariannol sy’n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru” (2014), mae **Archwilio Cymru wedi datgan** (ym mharagraff 1.8):

   > *“Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i’w helpu i gydbwyso eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni’r canlyniadau disgwyliedig neu lle mae’r incwm yn llai na’r disgwyl. Fodd bynnag,* ***ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn.*** *Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a’i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn*

*dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."*

7. Ategwyd y neges yma ymhellach gan Archwilio Cymru, sydd wedi adrodd yn Hydref 2020 ar gynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol Cymru. Tra mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy Cyngor Gwynedd ymysg chwartel uchaf yr amrediad o awdurdodau lleol Cymru (yn nhermau maint eu cronfeydd defnyddiadwy), **barn Archwilio Cymru yw:**

   *"(9) fod rhai cynghorau mewn sefyllfa well o lawer na'i gilydd i ddod drwy her ariannol fel y pandemig. Enghreifftir hyn yn fwyaf amlwg gan y lefelau amrywiol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan gynghorau", a (18)* ***bod "lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ar gael i gyngor yn un o ddangosyddion allweddol cydnerthedd a chynaliadwyedd ariannol".***

   Mae copi o'r adroddiad i'w gael yma:
   Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19 | Audit Wales

8. Rwy'n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o falansau yn weithred gwbl briodol.

9. Mae balansau'r Cyngor wedi bod yn arf allweddol. Gan y bydd y Cyngor â balansau o tua £7.9 miliwn, byddwn wedi cadw'r swmp o'r balansau wrth gefn eto, fel eu bod ar gael i 'bontio'r' sefyllfa ariannol os bydd angen.

**ATODIAD 8**

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2025/26. |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Mae gosod cyllideb flynyddol yn ofyn statudol ar y Cyngor, yn ogystal â bod yn gam allweddol yn y drefn o gynnal stiwardiaeth ariannol dda. |

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

| |
|---|
| Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid. |

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Mawrth 2024, wrth ystyried rhagolygon ariannol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2025/26 hyd 2027/28 yn syth ar ôl sefydlu Cyllideb 2024/25. Bryd hynny, roedd disgwyl y byddai modd gosod cyllidebau cytbwys yn y ddwy flynedd yma heb orfod darganfod arbedion pellach.

Cymeradwywyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor gan y Cabinet ar 14 Mai 2024 – roedd y cynllun hwn yn adnabod bwlch sylweddol fyddai angen ei lenwi trwy gyfuniad o gynnydd Treth Cyngor a thoriadau petai'r setliad yn aros heb gynnydd, fel oedd yn cael ei awgrymu ar y pryd.

Mae'r gwaith manwl wedi cychwyn ar 11 Rhagfyr 2024, sef dyddiad cyhoeddi setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2025 i 2026.

Mae'r setliad dros dro wedi dangos bydd rhaid i'r Cyngor barhau i chwilio am arbedion ariannol ar gyfer 2025/26 os ydym am osod cyllideb gytbwys, ond mae angen llawer llai o doriadau nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae pob un o'r cynlluniau arbed unigol wedi bod yn destun asesiad effaith cydraddoldeb.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae nifer o gamau gweithredu wedi eu cymryd wrth baratoi'r gyllideb yma:

- Trafodaethau rhwng cyfrifwyr gwasanaeth ac uwch swyddogion yr adrannau i ystyried bidiau a chynlluniau arbed.
- Holl aelodau'r Cyngor wedi cael eu gwahodd i seminar cyllideb ar 28 Ionawr 2025.
- Cydweithio agos rhwng y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol, a swyddogion cyllid wrth ystyried bidiau.
- Aelodau'r Cabinet wedi cael cyfle i fynegi barn ar yr asesiad o'r bidiau.
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael cyfle i graffu'r gyllideb ar 6 Chwefror.
- Y Cabinet i ystyried y gyllideb ddrafft ar 11 Chwefror a gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn.
- Y Cyngor Llawn i osod y gyllideb ar gyfer 2025/26 a phennu cyfradd Treth Cyngor ar 6 Mawrth.

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

| |
|---|
| Mae'r gyllideb a amlinellir yma yn ceisio parhau i ddarparu deilliannau priodol i holl drigolion y sir. Nid yw'r cynnydd yng ngrant y Llywodraeth eleni yn ddigonol i gwrdd â'r galw am wasanaethau yn ogystal â chwyddiant, felly er mwyn sefydlu cyllideb gytbwys rhaid chwilio am arbedion ariannol pellach.<br><br>Mae pob cynllun arbedion sydd eisoes yn y rhaglen i'w weithredu wedi bod yn destun asesiad ariannol ac asesiad cyfreithiol Effaith Cydraddoldeb ar yr adeg y cafodd ei gyflwyno. Mae cydnabyddiaeth fod posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig, ond mae'r adrannau sy'n berchen ar yr arbedion wedi cynnig cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau. Hefyd, mae'r cynlluniau arbedion unigol wedi bod yn destun asesiadau effaith priodol sy'n cefnogi'r penderfyniadau ariannol gerbron yma.<br><br>Bu ymgynghoriad cyhoeddus 'Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd 2025-2026' yn fyw ar wefan y Cyngor ar 28 Tachwedd hyd at 20 Rhagfyr 2024. Pwrpas yr holiadur oedd i gasglu barn y cyhoedd o ba gwasanaethau cyhoeddus oedd bwysicach iddynt. Bydd y canlyniadau yn cynorthwyo'r cynghorwyr gyda'r gwaith o sefydlu strategaeth ariannol a gosod cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-2026. |

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| Ni fu proses ymgynghori. |

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae cyllideb 2025/26 wedi ei lunio ar egwyddor "gynyddol". Hynny yw, defnyddir cyllideb 2024/25 fel cyllideb sylfaenol, gan wneud nifer o addasiadau cyn dod at gyllideb ddrafft ar gyfer 2025/26:

- Chwyddiant Cyflogau Staff
- Chwyddiant Arall (cyflenwyr)
- Cynnydd mewn ardollau
- Addasiadau i adlewyrchu newidiadau mewn demograffi
- Bidiau ariannol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau
- Addasiadau technegol i'r gyllideb
- Cynnydd neu ostyngiad mewn costau benthyca a llog ar falansau
- Gwireddu arbedion sydd eisoes wedi cael eu cytuno
- Adnabod arbedion pellach sy'n rhaid eu cyflwyno

Mae pob un o'r bidiau ariannol a chynlluniau arbed wedi bod yn destun asesiadau effaith cydraddoldeb eu hunain.

Wrth gynllunio ein cyllidebau ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor, mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol, mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi dadansoddi effaith cynlluniau ar wasanaethau, a monitro'r effaith yn briodol.

Yn ogystal â chwrdd â phwysau chwyddiant, mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Na

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |
| **Anabledd** | Positif | Mae'r drefn bidiau sydd wedi ei fanylu yn Atodiad 2 yn cynnwys gwariant ychwanegol ar y gwasanaethau cymdeithasol, ac yn oedi neu ddileu arbedion yn y maes yma. |
| **Rhyw** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |
| **Oedran** | Positif | Mae'r gyllideb a argymhellir yn cynnwys cynnydd arwyddocaol yng nghyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys sicrhau fod adnoddau wedi cael eu rhoi yn eu lle i gefnogi gwasanaethau dwyieithog llwyr.<br><br>Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.<br><br>Wrth lunio'r gyllideb rhoddwyd sylw penodol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y saith nod llesiant. Mae hynny'n cynnwys rhoi sylw i'r chweched nod sef 'Diwylliant a'r Gymraeg'. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Mae natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y pwysau ar wasanaethau yn diwallu anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol gan fod y mesurau a argymhellir i ymdrin â phwysau ar wasanaethau yn cymryd hyn i ystyriaeth.<br><br>Mae cyllidebau'r Cyngor, ac yn enwedig y bidiau llwyddiannus, wedi eu llunio i sicrhau fod yr awdurdod yn gallu parhau i gyfeirio adnoddau i leihau gwahaniaethu ar sail anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae unrhyw gynnydd yn y gyfradd Treth Cyngor yn bwysau ariannol ar bobl Gwynedd, ond mae dros 8,100 yn derbyn peth cymorth tuag at eu Treth Cyngor drwy'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor. Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng cynnydd yn y Dreth Cyngor a'r angen i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd. |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Ni chredir bydd unrhyw effaith a soniwyd amdano yn 3.1 yn arwain at gamwahaniaethu, aflonyddu, nac erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Positif | Mae'r gwaith o osod y gyllideb yn seiliedig ar waith sylweddol dros nifer o flynyddoedd o sicrhau fod cyllideb yn ei le sydd yn adlewyrchu anghenion a gofynion pobl Gwynedd. |
| **Meithrin perthnasau da** | Niwtral | Mae'r gwaith o osod cyllideb yn cael ei wneud o fewn ffiniau clir, ac mae'r balans o fidiau llwyddiannus ac arbedion yn ymateb i'r gwir bwysau sydd ar wasanaethau. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Cynllun y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Cafodd Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ar 2 Mawrth 2023 a'r adolygu ym Mawrth 2024. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.

Eleni, wrth lunio Cyllideb 2025/26, bu'n rhaid i'r Cyngor adnabod cynlluniau arbedion newydd, yn ogystal ag ystyried ymarferoldeb yr arbedion oedd wedi cael eu hadnabod yn flaenorol fel rhai i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau ac oedd eisoes wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd y prosesau statudol yn cynnwys cwblhau asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am effaith ar yr iaith Gymraeg. Wrth drin penderfyniadau am arbedion yn adroddiad Cyllideb 2020/21, casglwyd fod **dim effaith** wedi ei ganfod ar yr iaith Gymraeg ond fod angen cadw golwg wrth weithredu.

Wrth baratoi adroddiadau Cyllideb yn flynyddol ers 2021/2022 rhoddir ystyriaeth ar effaith arfaethedig y cyllidebau hyn ar y Gymraeg. Yn unol â'r arfer cwblhawyd asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae'r drefn yma yn parhau ar gyfer 2025/26.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Polisi ariannol yw hwn, a chredwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith bositif ar yr iaith.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae'r drefn o sefydlu cyllideb y Cyngor yn ganlyniad i gamau penodol sy'n ystyried cyllideb sylfaenol y flwyddyn flaenorol a'r camau sydd angen eu cymryd wedyn i adlewyrchu addasiadau sydd angen eu hystyried i ymdrin â phwysau ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Yn ychwanegol i hynny mae sefyllfa gyllidebol holl wasanaethau'r Cyngor yn destun adolygiad manwl dair gwaith y flwyddyn, er mwyn adnabod unrhyw feysydd lle mae angen gweithredu i ymdrin â thanwariant neu orwariant – yn enwedig os nad ydi cyllidebau yn ddigonol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau. Mae natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y pwysau ar wasanaethau yn lleihau anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol gan fod y mesurau i ymdrin â phwysau ar wasanaethau yn cymryd hyn i ystyriaeth.

Mae angen cyflwyno cynlluniau arbed newydd eleni yn ychwanegol i'r rhai sydd yn bodoli yn y rhaglen ers blynyddoedd blaenorol. Maent oll wedi dod yn destun asesiad manwl i sicrhau fod anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei leihau.

Mae rhai o'r bidiau yr argymhellir eu hariannu yn cynnwys nifer sydd wedi eu cynllunio yn benodol i leihau anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r rhain wedi eu manylu yn Atodiad 2.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Mae'r ceisiadau am wariant ychwanegol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau ("bidiau") wedi bod yn destun asesiadau manwl gan nifer o swyddogion ac aelodau ac felly rydym yn hyderus fod pob cam sy'n ymarferol bosib i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol wrth lunio'r gyllideb wedi cael eu cymryd.

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Bydd effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u hariannu i'r lefel galw ychwanegol. |

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Mae unrhyw gynnydd mewn Treth Cyngor am gael effaith ar sefyllfa ariannol pobl Gwynedd, ac argymhellir cynnydd uwch na'r arfer, sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. |

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

### 4.4 Os yn parhau efo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Bydd yr adrannau yn gweithio i sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng cynnydd yn y Dreth Cyngor a'r angen i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd. |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Bydd rhaid cael penderfyniad y Cyngor Llawn yn flynyddol ar osod y gyllideb a chyfradd y Dreth.<br><br>Bydd yr arbedion yn cael eu herio yn y Cyfarfodydd Herio Perfformiad dair gwaith y flwyddyn ac yn cael eu hadrodd i'r Cabinet fel rhan o adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol. Hefyd, bydd adroddiad Trosolwg Arbedion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio tair gwaith y flwyddyn. |

**ATODIAD 9**

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd yng nghyd-destun gofynion y Ddeddf uchod. Er bod yr argymhellion yn deillio o ddewisiadau ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau o safbwynt darparu adnoddau digonol er mwyn cynnal lefel briodol o wasanaethau.

2. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd ganlynol o weithio y mae'r Cyngor yn eu hystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.

   - Edrych i'r tymor hir – Mae'r gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, nid ar gyfer 2025/26 yn unig, ac yn cymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
   - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r Seminar Cyllideb ar gyfer Aelodau wedi hwyluso eu dealltwriaeth o'r strategaeth ariannol.
   - Cymryd agwedd integredig – Mae polisïau ac arferion cyllidebu Cyngor Gwynedd, a'r cynigion cyllideb eleni, wedi'u hystyried o safbwynt yr holl nodau llesiant.
   - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, a gweithio gyda phartneriaid, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn, yn fewnol ac allanol, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
   - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu wedi cynnwys ymgysylltu â thrigolion, cwsmeriaid a phartneriaid.

3. Prif gasgliadau am gyllideb 2025/26 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:

   - Llewyrchus – Niwtral (ychwanegu at adnoddau gwasanaethau sy'n rhoi diwedd ar dlodi)
   - Cydnerth - Positif (agwedd ddarbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau a galluogi Cynllun y Cyngor)
   - Iachach – Positif (ariannu gofynion ychwanegol gwasanaethau 'gofal')
   - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
   - Cymunedau Cydlynus – Niwtral (parhau i ariannu gwasanaethau sy'n cadw pobl yn ddiogel)
   - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwyieithog)

- Byd-eang Gyfrifol – Niwtral (parhau i ariannu prosiectau digidol, amgylcheddol, cydweithredol)

4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o’r gyfundrefn arbedion corfforaethol ac adrannol mewn blynyddoedd blaenorol pan gymeradwywyd y cynlluniau arbedion, lle’n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol. Mae cynlluniau arbed a thoriadau newydd sy’n cael eu cyflwyno yn y gyllideb yma yn sicrhau fod modd gosod cyllideb gytbwys sy’n amddiffyn adnoddau i'r dyfodol.

5. Yn gyffredinol, wedi’i gyplysu gyda Chynllun y Cyngor a’r Amcanion Llesiant, mae’r gyllideb yma’n cefnogi’r Cyngor i wireddu amcanion strategol.

**ATODIAD 10**

**DATGANIAD Y SWYDDOG CYLLID STATUDOL AR GADERNID YR AMCANGYFRIFON**

1. Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig. Mae Atodiad 7 yn amlinellu sefyllfa'r balansau a chronfeydd wrth gefn, tra fod y datganiad hwn yn cadarnhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol sy'n sail i'r gyllideb.

2. Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm fydd yn digwydd yn y dyfodol ac mae'n anochel eu bod yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn, a chronfeydd ariannol wrth gefn.

**Cyd-destun economaidd**

3. Mabwysiadwyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) gan y Cabinet ar 14 Mai 2024, yn gosod allan y rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2025. Roedd yr amcangyfrifon o fewn y CATC yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf oedd ar gael am y newid yn yr incwm fydd y Cyngor yn ei dderbyn dros y cyfnod (drwy Grant y Llywodraeth a Treth Cyngor), a'r gofynion gwariant ychwanegol dros yr un cyfnod.

4. Ar sail rhagolygon oedd wedi eu cyhoeddi gan Dadansoddi Cyllid Cymru yn dilyn Cyllideb Canghellor y Trysorlys ym mis Tachwedd 2023, wrth ystyried cynnydd yn y setliad ar gyfer 2025/26 hyd 2027/28 roeddem wedi ystyried y ffactorau a rhagdybio byddai'r Cyllid Allanol Cyfun i Gyngor Gwynedd yn aros yn "cash flat" (h.y. dim cynnydd yn unol â chwyddiant, ond dim toriad mewn arian parod chwaith).

5. Fodd bynnag, yn dilyn newid mewn llywodraeth yn San Steffan, mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd o 3.1% yn ei setliad ar gyfer 2025/26 a hynny ar ôl addasu'r sylfaen ar gyfer 2024/25 wrth lunio'r setliad. Mae hynny'n golygu fod y Cyngor mewn sefyllfa cryfach yn 2025/26 na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, er fod y cynnydd yn y setliad fel canran yr ail isaf yng Nghymru.

**Hanes rheoli ariannol**

2. Bydd penderfyniadau ar reolaeth cyfalaf a thrysorlys a wneir eleni yn cael effaith ariannol ar y Cyngor am nifer o flynyddoedd i'r dyfodol. Maent felly o dan reolaeth fframwaith cenedlaethol a fframwaith polisi lleol, fel a grynhoir yn yr adroddiad hwn.

**GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO**

3. Gwariant cyfalaf yw pan mae'r Cyngor yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau, a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Mewn llywodraeth leol mae hyn yn cynnwys gwario ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill, a rhoi benthyciadau a grantiau i gyrff eraill i'w galluogi nhw i brynu asedau.

4. Yn 2025/26, mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £53.7m, fel a grynhoir isod:

*Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | Gwir 2023/24 £m | Amcan 2024/25 £m | Cyllideb 2025/26 £m | Cyllideb 2026/27 £m | Cyllideb 2027/28 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol | 56.9 | 103.1 | 53.7 | 19.4 | 13.2 |
| Prydlesu Cronfa Gyffredinol * | 0.0 | 5.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **CYFANSWM** | **56.9** | **108.1** | **53.7** | **19.4** | **13.2** |

** Mae’r Gwariant Cyfalaf am 2024/25 yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

5. Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2025/26 yn cynnwys:
   - Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £12.4m
   - Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro - £11.0m
   - Cynlluniau /Strategaeth Tai - £7.5m
   - Cerbydau Adrannol - £6.9m
   - Cartrefi / Canolfannau Oeodlion- £4.5m
   - Cynlluniau Eiddo - £3.9m

6. **Llywodraethu**: Mae gan y Cyngor Strategaeth Asedau 10 mlynedd, sef cynllun o flaenoriaethau gwariant cyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar anghenion yr adrannau. Mae'r strategaeth yn cynnwys cyfran heb ei chlustnodi. O'r gyfran hon, mae modd i adrannau wneud cais yn flynyddol am arian ar gyfer cynlluniau cyfalaf. Yr Adran Gyllid sy'n cydlynu'r ceisiadau. Mae'r Cabinet yn gwerthuso pob cais yn seiliedig ar flaenoriaethau, ac yn gwneud argymhellion. Cyflwynir ceisiadau cyfalaf a strategaeth asedau i'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn flynyddol.

   - Am ragor o wybodaeth am raglen gyfalaf y Cyngor, ewch i **Atodiad A**.

7. Rhaid ariannu pob gwariant cyfalaf naill ai o ffynonellau allanol (grantiau gan y llywodraeth a chyfraniadau eraill), adnoddau'r Cyngor (refeniw, cronfeydd a derbyniadau cyfalaf), neu ddyled (benthyca, prydlesu, a Menter Cyllid Preifat (MCP)). Bwriedir ariannu'r gwariant uchod fel a ganlyn:

*Tabl 2: Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | Gwir 2023/24 £m | Amcan 2024/25 £m | Cyllideb 2025/26 £m | Cyllideb 2026/27 £m | Cyllideb 2027/28 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffynonellau Allanol | 37.2 | 55.2 | 24.9 | 6.5 | 2.5 |
| Adnoddau ein Hunain | 11.6 | 31.4 | 20.0 | 4.3 | 6.3 |
| Dyled * | 8.1 | 21.5 | 8.8 | 8.6 | 4.4 |
| **CYFANSWM** | **56.9** | **108.1** | **53.7** | **19.4** | **13.2** |

** Mae'r Ddyled am 2024/25 yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau ac nid yw'n cynrychioli gwariant arian parod.*

8. Cyllid dros dro yn unig yw dyled, gan fod rhaid talu benthyciadau a phrydlesau yn ôl. Mae hwn, felly, yn cael ei ddisodli mewn amser gyda mathau gwahanol o ariannu, fel arfer o refeniw. Gelwir hyn yn ddarpariaeth lleiafswm refeniw (DLlR). Fel arall, gellir defnyddio enillion a ddaw o werthu asedau cyfalaf (a elwir yn dderbyniadau cyfalaf) i ddisodli dyled ariannol. Mae'r defnydd o'r derbyniadau cyfalaf a'r DLlR bwriedig fel a ganlyn:

*Tabl 3: Disodli Dyled mewn £ miliynau*

| | Gwir 2023/24 £m | Amcan 2024/25 £m | Cyllideb 2025/26 £m | Cyllideb 2026/27 £m | Cyllideb 2027/28 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Lleiafswm Refeniw | **5.4** | **5.8** | **6.3** | **6.6** | **6.7** |

- Ceir Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw cyflawn y Cyngor yn **Atodiad B** y Datganiad Strategaeth Cyfalaf. Mae'r datganiad yma wedi ei addasu ar gyfer 2025/26.

9. Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronnus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda DLlR a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled. Disgwylir y bydd y GCC yn cynyddu £2.5m yn ystod 2025/26. Yn seiliedig ar y ffigyrau gwariant ac ariannu uchod, mae GCC amcangyfrifedig y Cyngor fel a ganlyn:

*Tabl 4: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o’r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **Gwir 31.3.2024 £m** | **Amcan 31.3.2025 £m** | **Cyllideb 31.3.2026 £m** | **Cyllideb 31.3.2027 £m** | **Cyllideb 31.3.2028 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol * | 173.5 | 189.2 | 191.7 | 193.7 | 191.4 |

** Mae’r Gofyn Cyllido Cyfalaf am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £5m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

10. **Rheoli Asedau:** Er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn parhau'n ddefnyddiol yn y tymor hir, mae gan y Cyngor strategaeth rheoli asedau. Mae’r Cynllun Asedau ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd o 2024/25 hyd 2033/24 wedi cael ei adolygu a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 11/07/2024, gweler Eitem 7 ar y rhaglen:

    Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Dydd Iau, 11eg Gorffennaf, 2024, 2.00 y.h.

11. **Gwaredu Asedau:** Pan nad oes angen yr ased cyfalaf mwyach, gellir ei werthu er mwyn gwario'r derbyniadau cyfalaf yma ar asedau newydd neu i ad-dalu dyled. Mae ad-dalu grantiau cyfalaf, benthyciadau a buddsoddiadau hefyd yn creu derbyniadau cyfalaf. Bwriad y Cyngor yw derbyn derbyniadau cyfalaf fel a ddengys yn y tabl isod:

*Tabl 5: Derbyniadau Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **Gwir 2023/24 £m** | **Amcan 2024/25 £m** | **Cyllideb 2025/26 £m** | **Cyllideb 2026/27 £m** | **Cyllideb 2027/28 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerthu Asedau | 0.3 | 0.2 | 0.0 | 0.1 | 0.0 |
| Ad-dalu Benthyciad | 0.0 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.1 |
| **CYFANSWM** | **0.3** | **0.3** | **0.1** | **0.1** | **0.1** |

**RHEOLAETH TRYSORLYS**

12. Mae rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digonedd ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y Cyngor, gan reoli'r risgiau cysylltiedig. Buddsoddir arian dros ben nes bydd galw amdano, ac ymdrinnir â phrinder arian drwy fenthyg, er mwyn sicrhau nad yw'r gweddill credyd na'r gorddrafft yn y cyfrif banc cyfredol yn ormod. Mae'r Cyngor fel arfer yn gyfoethog mewn arian parod yn y tymor byr gan fod incwm refeniw'n cael ei dderbyn cyn cael ei wario. Ond yn y tymor hir mae'n ariannol dlawd, gan fod

gwariant cyfalaf yn digwydd cyn canfod yr arian i dalu amdano. Caiff gormodedd arian parod refeniw ei osod yn erbyn diffygion arian parod cyfalaf er mwyn lleihau faint a fenthycir yn gyffredinol.

13. Oherwydd y penderfyniadau a wnaethpwyd yn y gorffennol, ar hyn o bryd mae benthyciadau'r Cyngor yn £97.4m, gyda chyfradd llog cyfartalog o 5.37%, a buddsoddiadau trysorlys o £161.9m ar gyfradd gyfartalog o 4.98%.

14. **Y Strategaeth Fenthyca:** Prif amcanion y Cyngor wrth fenthyg yw canfod cost benthyca sy'n isel ond sy'n benodedig, gan gynnal hyblygrwydd pe bai cynlluniau yn newid yn y dyfodol. Yn aml, mae'r amcanion hyn yn gwrthdaro. Mae'r Cyngor, felly, yn ceisio cael cydbwysedd rhwng benthyciadau rhad, tymor byr a benthyciadau tymor hir ar gyfradd sefydlog lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch.

    Nid yw’r Cyngor yn benthyca i fuddsoddi ar gyfer y prif bwrpas o ddychweliadau ariannol ac felly gyda mynediad llawn i’r PWLB.

15. Gweler lefelau rhagamcanedig o gyfanswm dyled y Cyngor sy'n weddill (sy’n cynnwys benthyciadau, ymrwymiadau MCP a phrydlesau) isod, o'u cymharu â'r gofyn cyllido cyfalaf (gweler uchod).

*Tabl 6: Dangosydd Darbodus: Dyled Gros a’r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **Gwir 31.3.2024 £m** | **Amcan 31.3.2025 £m** | **Cyllideb 31.3.2026 £m** | **Cyllideb 31.3.2027 £m** | **Cyllideb 31.3.2028 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys MCP a phrydlesau) | 101.3 | 98.7 | 94.0 | 88.6 | 86.6 |
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 173.5 | 189.2 | 191.7 | 193.7 | 191.4 |

16. Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Fel y gwelir yn nhabl 6, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd yn cydymffurfio â hyn yn y tymor canolig.

17. **Meincnod Ymrwymiad:** Er mwyn cymharu faint mae'r Cyngor wedi'i fenthyg mewn gwirionedd yn erbyn strategaeth amgen, mae meincnod ymrwymiad wedi'i gyfrifo sy'n dangos y lefel risg isaf o fenthyg. Mae hyn yn tybio fod balansau arian parod a buddsoddiadau yn cael eu cadw ar o leiaf £21.5m ar ddiwedd pob blwyddyn.

*Tabl 7: Benthyca a'r Meincnod Ymrwymiad mewn £ miliynau*

| | Gwir 31.3.2024 £m | Amcan 31.3.2025 £m | Cyllideb 31.3.2026 £m | Cyllideb 31.3.2027 £m | Cyllideb 31.3.2028 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | 99.6 | 98.0 | 89.3 | 84.9 | 83.9 |
| Meincnod Ymrwymiad | -19.0 | 79.6 | 105.1 | 107.1 | 104.8 |

18. Mae'r tabl yn dangos fod y Cyngor yn disgwyl i'w fenthyciadau fod yn uwch na'i feincnod ymrwymiad hyd at 2025. Mae hyn oherwydd bod gan y Cyngor reserfau, ac mae allbynnau arian parod wedi bod yn is na'r disgwyl pan fenthycwyd yr arian.

19. **Terfyn Benthyg Fforddiadwy:** Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn dynesu at y terfyn.

*Tabl 8: Dangosyddion Darbodus: Y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol ar gyfer Dyledion Allanol mewn £m*

| | Terfyn 2024/25 £m | Terfyn 2025/26 £m | Terfyn 2026/27 £m | Terfyn 2027/28 £m |
|---|---|---|---|---|
| Terfyn Awdurdodedig - Cyfanswm Dyledion Allanol | 200 | 200 | 200 | 200 |
| Ffin Gweithredol - Cyfanswm Dyledion Allanol | 190 | 190 | 190 | 190 |

*Mae'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £5m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau*

- Mae manylion pellach ar fenthyciadau ar gael yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.

20. **Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys:** Mae buddsoddiadau'r trysorlys yn digwydd drwy dderbyn arian parod cyn iddo gael ei dalu allan eto. Fel arfer, ni ystyrir fod buddsoddiadau a wneir am resymau gwasanaeth neu er elw ariannol yn unig yn rhan o reolaeth y trysorlys.

21. Polisi'r Cyngor ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch; sef, canolbwyntio ar leihau risg yn hytrach nac uchafu

enillion. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y dyfodol agos yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, er enghraifft gyda'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill, neu fanciau ansawdd uchel penodedig, er mwyn lleihau'r perygl o golled. Bydd arian a gedwir yn hwy yn cael ei fuddsoddi'n ehangach, gan gynnwys mewn bondiau, cyfranddaliadau ac eiddo, er mwyn cydbwyso'r perygl o golled gyda'r perygl o gael enillion sy'n is na chwyddiant. Gellir cadw buddsoddiadau dyfodol agos a thymor hwy mewn cronfeydd wedi'u pwlio, lle mae rheolwr cronfa allanol yn penderfynu pa fuddsoddiadau penodol i'w prynu ac fe all y Cyngor ofyn am ei bres yn ôl ar fyr rybudd.

*Tabl 9: Buddsoddiadau Rheolaeth y Trysorlys mewn £ miliynau*

| | **Gwir 31.3.2024 £m** | **Amcan 31.3.2025 £m** | **Cyllideb 31.3.2026 £m** | **Cyllideb 31.3.2027 £m** | **Cyllideb 31.3.2028 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau'r Dyfodol Agos | 129.9 | 65.0 | 55.0 | 45.0 | 35.0 |
| Buddsoddiadau'r Tymor Hwy | 11.6 | 13.0 | 13.0 | 13.0 | 13.0 |
| **CYFANSWM** | **141.5** | **78.0** | **68.0** | **58.0** | **48.0** |

- Ceir manylion pellach ar fuddsoddiadau'r trysorlys yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.

22. **Rheolaeth Risg:** Mae rheoli a rheoli risg yn effeithiol yn brif amcan gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor. Felly mae'r strategaeth rheolaeth trysorlys yn nodi amryw o ddangosyddion a therfynau i gyfyngu ar y risg o golledion annisgwyl ac yn manylu i ba raddau y gellir defnyddio deilliadau ariannol i reoli risgiau trysorlys.

- Mae'r dangosyddion darbodus rheolaeth trysorlys ar dudalennau 6 a 16 i 18 o Strategaeth Rheolaeth Trysorlys yn **Atodiad C.**

23. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddi a benthyg yn ddyddiol; felly, fe'u dirprwyir i Bennaeth a staff yr Adran Gyllid, sy'n gweithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn. Cyflwynir adroddiadau chwarterol ar weithgaredd rheolaeth trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am graffu penderfyniadau rheolaeth trysorlys. Mae aelodau y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Cyngor llawn yn derbyn cyflwyniad mewn seminar blynyddol gan Arlingclose, ein ymgynghorwyr ariannol, gafodd ei gynnal ar y 4ydd o Chwefror a 4ydd o Fawrth 2025 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26.

**BUDDSODDIADAU ER DIBENION GWASANAETH**

24. Gall y Cyngor wneud buddsoddiadau i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys gwneud benthyciadau i fusnesau bychain er mwyn hyrwyddo twf economaidd a chefnogi'r strategaeth dai. Yn sgil yr amcan gwasanaeth cyhoeddus, mae'r Cyngor yn fodlon cymryd mwy o risg na gyda buddsoddiadau'r trysorlys. Fodd bynnag, mae'n dal i gynllunio na fydd buddsoddiadau o'r fath yn gwneud colled hyd yn oed ar ôl talu'r holl gostau.

25. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddiadau gan y Pennaeth Gwasanaeth priodol mewn ymgynghoriaeth â Phennaeth yr Adran Gyllid. Mae mwyafrif y benthyciadau'n rhai gwariant cyfalaf a byddant hefyd yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod diwydrwydd dyladwy yn cael ei gwblhau cyn bod buddsoddiad yn cael ei wneud.

**YMRWYMIADAU**

26. Yn ogystal â'r ddyled y manylir arno uchod, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i wneud taliadau yn y dyfodol i unioni'r diffyg yn ei gronfa bensiwn fel mae'n codi (gwerth o £0m ar hyn o bryd). Mae hefyd wedi clustnodi £8m er mwyn cyflenwi risgiau'r darpariaethau, sy'n ymwneud â Safleoedd Gwastraff. Mae perygl hefyd y gall y Cyngor orfod talu ymrwymiadau dibynnol yn ymwneud â chapio a gofynion ôl-ofal ar gyfer Safleoedd Tirlenwi'r Cyngor, a hefyd ymrwymiadau yswiriant potensial sy'n ymwneud â threfniadau yswiriant yr awdurdodau a'i rhagflaenodd, a chau Cronfa Yswiriant Municipal Mutual (MMI). Yn unol â'r gofynion cyfrifeg, ni chlustnodwyd unrhyw arian ar gyfer ymrwymiadau dibynnol o'r fath.

27. **Llywodraethu:** Penaethiaid Gwasanaethau sy'n gwneud penderfyniadau newydd ar ymrwymiadau dewisol mewn ymgynghoriaeth â'r Pennaeth Cyllid. Mae'r Adran Gyllid yn monitro'r perygl y bydd ymrwymiadau'n dod yn wir ac y bydd angen taliad. Adroddir ar ymrwymiadau materol newydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

- Ceir manylion pellach yr ymrwymiadau ar dudalen 11 Datganiad o'r Cyfrifon 2023/24

  https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cyllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-cyfrifon/Datganiad-o-Gyfrifon-Cyngor-Gwynedd.aspx

**GOBLYGIADAU CYLLIDEB REFENIW**

28. Er nad yw’r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a DLlR yn gost ar refeniw, a'i osod yn erbyn unrhyw incwm buddsoddi a dderbynnir. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

*Tabl 10: Dangosydd Darbodus: Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net*

| | **Gwir 2023/24** | **Amcan 2024/25** | **Cyllideb 2025/26** | **Cyllideb 2026/27** | **Cyllideb 2027/28** |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Ariannu * (£m) | £7.1m | £9.1m | £10.6m | £11.0m | £11.1m |
| Cyfran y Llif Refeniw Net (%) | 2.2% | 2.7% | 3.0% | 3.0% | 3.0% |

** Mae’r Costau Ariannu am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £0.7m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

- Caiff manylion pellach goblygiadau refeniw gwariant cyfalaf eu cynnwys yng Nghyllideb 2025/26:

  https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistmeetings.aspx?cid=136&year=0&

29. **Cynaliadwyedd:** Oherwydd natur hirdymor gwariant ac ariannu cyfalaf, bydd goblygiadau cyllideb refeniw'r gwariant a wneir yn y blynyddoedd nesaf yn ymestyn 50 mlynedd a mwy i'r dyfodol. Mae'r Pennaeth Cyllid yn fodlon fod y rhaglen gyfalaf a gynigir yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

**GWYBODAETH A SGILIAU**

30. Mae'r Cyngor yn cyflogi staff profiadol mewn swyddi uwch a chanddynt gymwysterau proffesiynol; mae ganddynt gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau gwariant cyfalaf, benthyca, a buddsoddi. Er enghraifft, mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifydd cymwysiedig gyda blynyddoedd o brofiad, ac mae Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo yn syrfëwr siartredig ac yn aelod o Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig. Mae'r Cyngor efo staff cymwysedig ac yn talu i staff i astudio tuag at gymwysterau proffesiynol perthnasol megis CIPFA, ACCA ac AAT.

31. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn talu cwmni Arlingclose i fod yn ymgynghorwyr rheolaeth y trysorlys. Mae'r ffordd hon yn un fwy cost effeithiol na chyflogi staff

o'r fath yn uniongyrchol, ac mae'n sicrhau bod gan y Cyngor fynediad at wybodaeth a sgiliau sy'n gymesur â'i awch am risg.

32. Mae staff perthnasol yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant CIPFA ac Arlingclose er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf, a bod gwybodaeth a sgiliau yn gyfredol.

**ARGYMHELLIAD**

33. Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2025/26.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**ATODIAD A**

## CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

2. Gosodir isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

| RHAGLEN GYFALAF | | | |
|---|---|---|---|
| | **2025/26 £'000** | **2026/27 £'000** | **2027/28 £'000** |
| **Cynlluniau'r Cyngor :** | | | |
| Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 12,443 | 2,795 | 1,005 |
| Unedau Diwydiannol | 2,652 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro | 10,974 | 1,975 | 0 |
| Cartrefi/ Canolfannau Oedolion | 4,505 | 0 | 0 |
| Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol | 1,203 | 2,077 | 1,301 |
| Atal Llifogydd Arfordirol | 1,060 | 308 | 2,998 |
| Cynlluniau/Strategaeth Tai | 7,475 | 6,730 | 3,860 |
| Cynlluniau Eiddo | 3,854 | 100 | 194 |
| Cerbydau Adrannol | 6,899 | 3,854 | 244 |
| Cyfarpar Digidol | 606 | 609 | 1,248 |
| Cynlluniau Eraill | 1,565 | 437 | 1,872 |
| Bidiau Cyfalaf (Heb ddosrannu) | 500 | 500 | 500 |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN** | **53,736** | **19,385** | **13,222** |

3. Bydd y rhaglen yn cael ei ariannu fel a ganlyn:

| ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF | | | |
|---|---|---|---|
| | **2025/26 £'000** | **2026/27 £'000** | **2027/28 £'000** |
| Benthyca Gyda Chefnogaeth | 4,070 | 4,070 | 4,070 |
| Benthyca Arall | 4,740 | 4,481 | 362 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 24,960 | 6,498 | 2,540 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 0 | 0 | 0 |
| Cronfa Cyfalaf | 8,709 | 308 | 3,700 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 11,257 | 4,028 | 2,550 |
| **CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN** | **53,736** | **19,385** | **13,222** |

4. Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Ar 11 Gorffennaf 2024 fe sefydlwyd strategaeth wedi ei ddiweddaru gan y Cyngor llawn gyda'r cyfnod wedi ei ymestyn hyd at 2033/34. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.

5. Sefydlwyd proffiliau i'r Cynlluniau gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaethiaid Adrannau ac yn ddibynnol ar ofynion y cynlluniau a'r adnoddau ar gael.

6. Mae’r tabl uchod felly yn adlewyrchu’n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â’r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2025/26 i 2027/28, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2024/25 hyd 2033/34.

7. Mae’r ffigwr Benthyca Gyda Chefnogaeth a’r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn fwy yn 2025/26 na’r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu’r strategaeth asedau ac mae’r rhaglen wedi ei addasu i gydfynd.

8. Felly, gofynnir i’r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £53,736,190 ar gyfer 2025/26, i’w ariannu o’r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.

## DATGANIAD DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW BLYNYDDOL 2025/26

1. Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR neu MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru *Canllaw ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw* (Canllaw LlC) a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2018.

2. Nod cyffredinol Canllaw LlC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

3. Mae Canllaw LlC yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLlR yn flynyddol, ac yn darparu nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLlR, ond nid yw'n atal defnyddio ddulliau eraill addas. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.

4. Mae DLlR yn cael ei gyfrifo trwy gyfeirio at y gofyniad cyllido cyfalaf (GCC), sef cyfanswm gwariant cyfalaf y gorffennol sydd eto i'w ariannu'n barhaol. Nodir bod yn rhaid ad-dalu dyled ac felly ffurf ariannu dros dro yn unig ydyw. Cyfrifir y GCC o fantolen y Cyngor yn unol â Chôd Darbodus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Gwariant Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol, rhifyn 2021.

   - Ar gyfer gwariant cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff y DLlR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl gwneud y gwariant cyfalaf. Mesur darbodus o oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ystod amrywiol o asedau yw 50 mlynedd ac yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008, yn ymgorffori "Addasiad A" o £1.9m.

   - Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff y DLlR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff DLlR ar dir rhydd-

ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff DLlR ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.

- Ar gyfer asedau a geir trwy brydlesau cyllidol neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod y DLlR yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu yn erbyn yr ymrwymiad ar y fantolen.
- Ble rhoddir asedau, a oedd yn arfer bod yn brydlesau gweithredol, ar y fantolen oherwydd mabwysiadu SAARh 16, Safon Cyfrifeg Prydlesau, a ble mae gwerth yr asedau hyn wedi eu haddasu i ystyried croniadau, taliadau o flaen llaw, premiwm a/neu gymhelliant, yna addasir y gost DLlR fel bod y tâl ar gyfer DLlR dros oes y brydles yn adlewyrchu gwerth yr ased hawl-ddefnydd a gydnabyddir ar drosglwyddiad yn hytrach na'r ymrwymiad.
- Ar gyfer benthyciadau gwariant cyfalaf i drydydd parti, sy'n cael eu had-dalu mewn rhandaliadau blynyddol neu amlach, ni fydd y Cyngor yn gwneud DLlR. Yn hytrach bydd yn rhoi derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o'r ad-daliadau prifswm o'r neilltu i leihau y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC).

5. Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn 2025/26 yn destun ffi DLlR hyd nes 2026/27 neu'n ddiweddarach.

6. Yn seiliedig ar amcangyfrif diweddaraf y Cyngor o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2025, mae'r gyllideb ar gyfer DLlR wedi ei bennu fel a ganlyn:

| | **31.03.2025 Amcan GCC £m** | **2025/26 Amcan DLlR £m** |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf cyn 01.04.2008 a gwariant cyfalaf gyda chefnogaeth wedi 31.03.2008 | 133.0 | 2.7 |
| Gwariant cyfalaf heb gefnogaeth wedi 31.03.2008 | 50.5 | 2.6 |
| Prydlesau a Menter Cyllid Preifat * | 5.7 | 1.0 |
| **Cyfanswm Cronfa Gyffredinol** | **189.2** | **6.3** |

** Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf agoriadol a'r DLlR am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys cynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

7. Derbyniadau Cyfalaf – Mae enillion o werthu asedau cyfalaf yn cael eu dynodi fel derbyniadau cyfalaf, ac yn cael eu defnyddio fel arfer i ariannu gwariant cyfalaf newydd. Yn lle hynny, pan fydd y Cyngor yn penderfynu defnyddio'r derbyniadau cyfalaf i ad-dalu dyled a thrwy hynny lleihau'r GCC, bydd y cyfrifiad DLlR yn cael ei addasu fel a ganlyn:

- Bydd derbyniadau cyfalaf sy'n codi o dderbyn ad-daliadau prifswm ar fenthyciadau cyfalaf i drydydd parti yn cael eu defnyddio i ostwng y tâl DLlR ar yr un benthyciadau yn y flwyddyn y'u derbynnir, os o gwbl.
- Bydd derbyniadau cyfalaf sy'n codi o dderbyn ad-daliadau prifswm ar brydlesau cyllidol sy'n dderbyniadwy yn cael eu defnyddio i ostwng tâl DLlR ar y swm caffael yr ased wedi ei brydlesu yn y flwyddyn y'u derbynnir, os o gwbl.
- Bydd derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o asedau eraill a adnabyddir fel rhan o gyfrifiad DLlR y Cyngor yn cael eu defnyddio i leihau'r tâl DLlR mewn perthynas â'r un asedau dros gyfnod hyd at oes ddefnyddiol sy'n weddill, gan ddechrau yn y flwyddyn ar ôl cymhwyso'r dderbynneb.
- Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf eraill a gymhwysir i ad-dalu dyled yn cael eu defnyddio i leihau DLlR mewn hyd at 10 rhandaliad cyfartal gan ddedchrau yn y flwyddyn ar ôl cymhwyso'r dderbynneb.

**ATODIAD C**

## Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2025/26

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Rheolaeth trysorlys yw rheolaeth llif arian, benthyca a buddsoddiadau'r Cyngor a'r risgiau cysylltiol. Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli buddsoddiadau a'r effaith refeniw o'r newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae adnabod, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus felly yn ganolog i reolaeth ariannol bwyllog y Cyngor.

**1.2** Mae rheolaeth risg trysorlys yn y Cyngor yn rhan o fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2021* (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi canllaw diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sef y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyngor dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

**1.3** Yn unol ag Arweiniad LlC, gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys diwygiedig os yw'r tybiaethau sydd yn sail i'r adroddiad hwn yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, newid yn rhaglen gyfalaf y Cyngor neu yn lefel ei balans buddsoddi, neu golled sylweddol yng ngwerth teg buddsoddiad anariannol a nodwyd fel rhan o'r prosesau paratoi ac archwilio cyfrifon diwedd blwyddyn.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

### 2.1 Cefndir Economaidd

Bydd yr effaith ar y DU o Gyllideb Hydref y llywodraeth, toriadau cyfradd llog disgwyliedig arafach, hwb tymor byr i dwf economaidd llai ond cymedrol dros y tymor canolig, ynghyd ag effaith ail dymor yr Arlywydd Trump yn y swydd ac ansicrwydd ynghylch polisi domestig a thramor yr Unol Daleithiau, yn ddylanwadau mawr ar strategaeth rheoli trysorlys y Cyngor ar gyfer 2025/26.

Cynhaliodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (BoE) y Cyfradd Banc ar 4.75% yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024, ar ôl ei ostwng i'r lefel honno ym mis

Tachwedd ac yn dilyn toriad blaenorol o 25bp o'r uchafbwynt o 5.25% yng nghyfarfod MPC mis Awst. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, pleidleisiodd chwe aelod o'r Pwyllgor i gynnal Cyfradd y Banc ar 4.75%, tra bod yn well gan dri aelod ei ostwng i 4.50%.

Roedd Adroddiad Polisi Ariannol chwarterol mis Tachwedd (MPR) yn disgwyl twf Cynnyrch Domestig Gros (GDP) i godi hyd at oddeutu 1.75% (GDP pedwar chwarter) yng nghyfnod cynnar gorwel rhagolygon y BoE cyn cwympo yn ôl. Mae effaith y Gyllideb yn gwthio GDP yn uwch yn 2025 na'r disgwyl yn yr MPR blaenorol, cyn mynd yn wannach. Dangoswyd bod twf GMP cyfredol yn sero (0.0%) rhwng Gorffennaf a Medi 2024 a 0.4% rhwng Ebrill a Mehefin 2024, adolygiad pellach i lawr o'r gyfradd 0.5% a adroddwyd yn flaenorol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Nododd ffigurau'r ONS gyfradd chwyddiant flynyddol Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar 2.6% ym mis Tachwedd 2024, i fyny o 2.3% yn y mis blaenorol ac yn unol â'r disgwyliadau. Cododd CPI Craidd hefyd, ond erbyn mwy na'r disgwyl, i 3.6% yn erbyn rhagolwg o 3.5% a 3.3% yn y mis blaenorol. Dangosodd y rhagolwg ar gyfer chwyddiant CPI yn MPR mis Tachwedd ei fod yn codi uwchlaw targed 2% yr MPC o 2024 i 2025 a chyrraedd tua 2.75% erbyn canol calendr 2025. Mae hyn yn gynnydd cymedrik yn y tymor agos oherwydd yr effeithiau parhaus o gyfraddau llog uwch, Cyllideb yr Hydref, ac ymyl arfaethedig o slac economaidd. Dros y tymor canolig, unwaith y bydd y pwysau hyn yn llacio, disgwylir i chwyddiant sefydlogi o gwmpas y targed o 2%.

Mae'n ymddangos bod y farchnad lafur yn llacio'n araf, ond mae angen trin y data o hyd gyda rhywfaint o bwyll rybudd. Adroddodd y ffigurau diweddaraf fod y gyfradd ddiweithdra wedi codi i 4.3% yn y tri mis hyd at fis Hydref 2024 a gostyngodd anweithgarwch economaidd i 21.7%. Adroddwyd twf cyflog am yr un cyfnod ar 5.2% ar gyfer enillion rheolaidd (ac eithrio taliadau bonws) ac ar gyfer cyfanswm enillion. Wrth edrych ymlaen, dangosodd yr MPR BoE fod disgwyl i'r gyfradd ddiweithdra gynyddu'n gymedrol, gan godi i tua 4.5%, y gyfradd ddiweithdra ecwilibriwm tymor canolig tybiedig, erbyn diwedd y gorwel a ragwelir.

Mae Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau wedi parhau i dorri cyfraddau llog, gan ostwng y Gyfradd Cronfeydd Fed gan 0.25% yn ei gyfarfod polisi ariannol ym mis Rhagfyr 2024 i ystod o 4.25% -4.50%, yn nodi'r trydydd gostyngiad yn olynol. Disgwylir toriadau cyfraddau llog pellach, ond mae ansicrwydd ynghylch effaith chwyddiant posibl polisïau'r Arlywydd Trump sy'n dod i mewn yn gallu gwneud hi’n anodd amcanu maint a cyflymder gostyngiadau cyfradd pellach. Ymhellach, mae economi'r Unol Daleithiau yn parhau i ehangu ar gyflymder gweddus, gan godi ar raddfa (wedi'i ddiwygio i fyny) blynyddol o 3.1% yn nhrydydd chwarter 2024, ac mae chwyddiant yn parhau i fod yn uwch gan awgrymu y gallai fod

angen i bolisi ariannol barhau i fod yn fwy cyfyngol yn ystod y misoedd nesaf na'r hyn a ragwelwyd o'r blaen.

Cododd chwyddiant parth yr Ewro yn uwch na tharged Banc Canolog Ewrop (ECB) 2% ym mis Tachwedd 2024, gan daro 2.2% fel y disgwyliwyd yn eang a chynnydd pellach o 2% yn y mis blaenorol. Er gwaethaf y cynnydd, parhaodd yr ECB â'i gylch torri cyfraddau a lleihau ei dair cyfradd polisi allweddol 0.25% ym mis Rhagfyr. Disgwylir i chwyddiant godi ymhellach yn y tymor byr, ond yna disgyn yn ôl tuag at y targed o 2% yn ystod 2025, gyda'r ECB yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal cyfraddau ar lefelau sy'n gyson â tharged chwyddiant, ond heb awgrymu llwybr penodol.

## 2.2 Rhagolygon credyd

Mae prisiau Cyfnewid Diofyn Credyd (CDS) fel arfer wedi dilyn tuedd gyffredinol i lawr yn ystod 2024, sy’n adlewyrchu cyfnod ariannol cymharol fwy sefydlog o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae gwell amodau credyd yn 2024 hefyd wedi arwain at fwy o gydgyfeirio ym mhrisiau CDS rhwng endidau bancio wedi'u clustnodi (manwerthu) ac endidau bancio heb eu neilltuo (buddsoddi) eto.

Gall cyfraddau llog uwch arwain at ddirywiad yn ansawdd asedau banciau trwy ddiffygion benthyciad cynyddol ac anwadalrwydd yng ngwerth buddsoddiadau cyfalaf. Yn ffodus, nid oes codiad cyflym yn y gyfradd llog yn ystod y cylch tynhau ariannol hwn, tra’n roi rhywfaint o straen ar aelwydydd a benthycwyr corfforaethol, wedi achosi cynnydd mewn diffygdaliadau, ac mae banciau wedi gwneud yn well na'r disgwyl hyd yn hyn, wedi'u bwio gan safleoedd cyfalaf cryf. Mae diweithdra isel a thwf cyflog cadarn hefyd wedi cyfyngu ar nifer y benthyciadau problemus, sydd i gyd yn gadarnhaol o ran credyd.

Ar ben hynny, er y gallai llacio rheoliadau ariannol yr Unol Daleithiau o dan Arlywyddiaeth Donald Trump gynorthwyo cystadleurwydd eu banciau o'i gymharu â sefydliadau yn y DU a rhanbarthau eraill, mae'n annhebygol y bydd unrhyw effaith sylweddol ar gredyd sylfaenol y sefydliadau ar restr gwrthbartion a gynhelir gan Arlingclose, ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor.

Yn ei gyfanrwydd, mae'r sefydliadau ar ein rhestr o wrthbartion gan ein ymgynghorwyr Arlingclose's yn parhau i fod yn gyfalafol ac mae eu cyngor cyfatebol ar sefydliadau a argymhellir a'r hyd uchaf yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson a byddant yn parhau i adlewyrchu amodau economaidd a'r rhagolwg credyd.

## 2.3 Rhagolygon cyfraddau llog (Rhagfyr 2024)

Mae ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, Arlingclose, yn disgwyl y bydd MPC Banc Lloegr yn parhau i ostwng Cyfradd y Banc trwy 2025, gan fynd â hi i tua 3.75% erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025/26. Mae effaith Cyllideb yr Hydref ar dwf economaidd a chwyddiant wedi lleihau disgwyliadau blaenorol o ran cyflymder y toriadau mewn cyfraddau yn ogystal â gwthio'r gyfradd i fyny ar ddiwedd y cylch llacio.

Mae Arlingclose yn disgwyl i gynnyrch gilt hirdymor aros yn fras ar y lefelau cyfredol ar gyfartaledd (yng nghanol anwadalrwydd parhaus), ond i ddod â'r cyfnod a ragwelir yn gymedrol is o'i gymharu â nawr. Bydd cynnyrch yn parhau i aros yn gymharol uwch nag yn y gorffennol, oherwydd tynhau meintiol a chyflenwad bond sylweddol. Fel erioed, bydd anwadalrwydd tymor byr oherwydd ansicrwydd a digwyddiadau gwleidyddol economaidd a (geo).

Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan Arlingclose i'w weld yn **Atodiad 1**.

**2.4** Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd bod buddsoddiadau rheolaeth trysorlys newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 3.8% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd yn 2025/26.

## 3. Y Cyd-destun Lleol

**3.1** Ar 31 Rhagfyr 2024, roedd gan y Cyngor fenthyciadau o £97.4m a £161.9m o fuddsoddiadau. Ceir rhagor o fanylder yn **Atodiad 2**. Mae tabl 1 isod yn ddadansoddiad mantolen sy'n dangos y newidiadau a ragwelir i'r symiau hyn.

**Tabl 1: Crynodeb mantolen a'r rhagolwg**

| | **31.3.24 Gwir £m** | **31.3.25 Amcan £m** | **31.3.26 Rhagolwg £m** | **31.3.27 Rhagolwg £m** | **31.3.28 Rhagolwg £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **173.5** | **189.2** | **191.7** | **193.7** | **191.4** |
| Llai: Ymrwymiadau arall * | -1.6 | -0.7 | -4.7 | -3.8 | -2.8 |
| **Benthyca GCC** | **171.9** | **188.5** | **187.0** | **189.9** | **188.6** |
| Llai: Benthyca allanol ** | -99.6 | -98.0 | -89.3 | -84.9 | -83.9 |
| **Benthyca mewnol** | **72.3** | **90.5** | **97.7** | **105.0** | **104.7** |
| Llai: Adnoddau mantolen | -214.0 | -131.1 | -108.1 | -108.1 | -108.1 |
| **Buddsoddiadau Trysorlys (neu fenthyciadau newydd)** | **141.7** | **40.6** | **10.4** | **3.1** | **3.4** |

* ymrwymiadau PFI
**yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt heb gynnwys ail gyllido dewisol

**3.2** Caiff yr angen sylfaenol i fenthyca er dibenion cyfalaf ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mai'r adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol.

**3.3** Mae Tabl 1 yn dangos nad oes angen i'r Cyngor fenthyca yn y tymor hir yn ystod y tair blynedd nesaf. Os oes angen, bydd benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio er mwyn lleihau'r gyfradd llog.

**3.4** Mae'r *Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* gan CIPFA yn argymell y dylai cyfanswm dyledion y Cyngor fod yn is na'i GCC uchaf posib yn ôl y rhagolygon dros y tair blynedd nesaf. Dengys tabl 1 fod y Cyngor yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2025/26.

## 4. Meincnod Ymrwymiadau

**4.1** Er mwyn cymharu gwir fenthyciadau'r Cyngor yn erbyn strategaeth arall, mae meincnod ymrwymiadau wedi cael ei chyfrifo sy'n dangos lefel benthyca gyda risg isaf. Mae hyn yn tybio'r un rhagolygon a tabl 1 uchod, ond bod balansau arian a buddsoddiadau yn aros ar lefel isafswm o £21.5m ar ddiwedd bob blwyddyn er mwyn cynnal digon o hylifedd ond lleihau'r risg credyd.


Mae'r meincnod ymrwymiadau yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'r meincnod ymrwymiadau ei hun yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

**Tabl 2: Dangosydd Darbodus: Meincnod Ymrwymiadau**

| | 31.3.24 Gwir £m | 31.3.25 Amcan £m | 31.3.26 Rhagolwg £m | 31.3.27 Rhagolwg £m | 31.3.28 Rhagolwg £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **GCC** | **173.5** | **189.2** | **191.7** | **193.7** | **191.4** |
| Llai: Adnoddau mantolen | -214.0 | -131.1 | -108.1 | -108.1 | -108.1 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofynion benthyciadau net** | **-40.5** | **58.1** | **83.6** | **85.6** | **83.3** |
| Ychwanegu: Lwfans hylifedd | 21.5 | 21.5 | 21.5 | 21.5 | 21.5 |
| **Meincnod Ymrwymiadau** | **-19.0** | **79.6** | **105.1** | **107.1** | **104.8** |

**4.2** Gan ddilyn o'r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 2 uchod, mae'r meincnod tymor hir yn rhagdybio dim gwariant cyfalaf pellach wedi'i ariannu gan fenthyciadau, lleiafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar ddull llinell syth dros 50 mlynedd. Dangosir hyn yn y siart canlynol gyda benthyciadau cyfredol y Cyngor:




Mae'r siart yn dangos na fydd angen benthyca yn y tymor hir yn seiliedig ar rhagamcanion cyfredol, ond efallai y bydd gofyn tymor byr ar draws diwedd y flwyddyn.

## 5. Y Strategaeth Fenthyca

**5.1** Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn dal £97.4 miliwn o fenthyciadau, mae hyn fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd cynt. Mae rhagolygon y fantolen yn nhabl 1 yn dangos nad yw'r Cyngor angen benthyca arian tymor hir yn 2025/26 ond efallai y bydd angen benthyg tymor byr oherwydd

rhesymau llif arian. Yn y dyfodol, gall y Cyngor hefyd fenthyg symiau ychwanegol i ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod ymlaen llaw ar yr amod nad yw hyn yn uwch na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyca.

## 5.2 Amcanion

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca arian yw cael cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel ac ennill sicrwydd cost dros y cyfnod mae angen yr arian. Yn ail amcan i hyn yw'r hyblygrwydd i ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir y Cyngor yn newid.

## 5.3 Strategaeth

Yn wyneb y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, mae strategaeth benthyca'r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwy heb beryglu sefydlogrwydd tymor hir y portffolio dyledion. Mae cyfraddau llog tymor byr ar hyn o bryd ar eu huchaf nac y gorffennol agos, ond disgwylir iddynt ostwng yn y blynyddoedd i ddod ac felly mae'n debygol o fod yn fwy cost effeithiol dros y tymor canolig naill ai i ddefnyddio adnoddau mewnol, neu i fenthyg benthyciadau tymor byr yn lle hynny. Bydd risgiau'r dull hwn yn cael eu rheoli drwy gadw amlygiad cyfradd llog y Cyngor o fewn y terfyn a bennir yn y dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys, gweler isod.

Drwy wneud hyn, gall y Cyngor leihau costau benthyca net (er yn hepgor yr incwm o fuddsoddiadau) a lleihau'r risg trysorlys cyffredinol. Bydd y buddion o fenthyca mewnol a/neu dymor byr yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthyca tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi yn gymedrol. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw. Gall yr allbwn o hwn bennu p'un a fydd y Cyngor yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2025/26 gyda'r bwriad o gadw costau llog y dyfodol yn isel, hyd yn oed os bydd hyn yn creu cost ychwanegol yn y tymor byr.

Yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi codi'r mwyafrif o'i fenthyca tymor hir o'r PWLB ond bydd yn ystyried benthyciadau tymor hir o ffynonellau eraill gan gynnwys banciau, pensiynau ac awdurdodau lleol, a bydd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno bondiau ac offerynnau tebyg, er mwyn gostwng costau llog a lleihau gorddibyniaeth ar un ffynhonnell cyllid yn unol â Chod CIPFA. Nid yw benthyciadau PWLB bellach ar gael i awdurdodau lleol sy'n bwriadu prynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch; mae'r Cyngor yn bwriadu osgoi'r gweithgaredd hwn er mwyn cadw ei fynediad at fenthyciadau PWLB.

Fel arall, gall y Cyngor drefnu benthyciadau sy'n cychwyn yn ei flaen, gyda'r cyfradd llog wedi ei sefydlu ymlaen llaw, ond bod yr arian yn cael ei dderbyn mewn blynyddoedd i ddod. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd cost heb ddioddef y gost cario yn y cyfamser.

Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y bydd y Cyngor yn benthyca benthyciadau tymor byr i gwrdd â diffygion annisgwyl yn y llif arian.

**5.4 Ffynonellau benthyca**

Dyma'r ffynonellau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer benthyciadau tymor byr a thymor hir:

- Cyfleuster Benthyca PWLB Trysorlys EM (Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus gynt)
- National Wealth Fund Ltd (UK Infrastructure Bank Ltd gynt)
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladau arall sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff cyhoeddus yn y DU
- cronfeydd pensiwn cyhoeddus a preifat yn y DU (eithrio Cronfa Bensiwn Gwynedd)
- Buddsoddwyr bondiau marchnad cyfalaf
- Buddsoddwyr manwerthu trwy lwyfan '*peer-to-peer'* wedi'i reoleiddio
- UK Municipal Bonds Agency plc a chwmnïau eraill i bwrpas arbennig a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau awdurdodau lleol.

**5.5 Ffynonellau eraill arian dyled**

Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol sydd ddim yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel ymrwymiadau dyledion eraill:

- Prydlesau
- Hur-bwrcasu
- Menter Cyllid Preifat
- Gwerthu ac adlesu
- Cyllid tebyg yn seiliedig ar asedau

**5.6 Y Municipal Bonds Agency**

Sefydlwyd yr UK Municipal Bonds Agency plc yn 2014 gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol fel dewis amgen i'r PWLB. Mae'n cyflwyno bondiau ar y marchnadoedd cyfalaf a rhoi benthyg yr enillion i awdurdodau lleol. Mae hyn yn ffynhonnell gyllid mwy cymhleth na'r PWLB am ddau reswm: bydd gofyn i

awdurdodau sy'n benthyca ddarparu gwarant i'r buddsoddwyr bond i ad-dalu eu buddsoddiad petai'r asiantaeth yn methu â gwneud hynny am ba bynnag reswm; a bydd yna gyfnod arweiniol o sawl mis rhwng ymrwymo i fenthyca a chael gwybod beth fydd y gyfradd llog sy'n daladwy. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca gan yr Asiantaeth felly'n destun adroddiad ar wahân i'r Cyngor llawn.

**5.7 Benthyciadau tymor byr a chyfradd newidiol**

Mae'r benthyciadau yma yn gadael y Cyngor yn agored i'r risg o gynnydd tymor byr yn y gyfradd llog, ac felly yn agored i derfynau amlygiadau cyfradd llog y dangosyddion rheolaeth trysorlys isod. Gellir defnyddio deilliadau ariannol i rheoli y risg cyfradd llog (gweler yr adran isod).

**5.8 Aildrefnu dyledion**

Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu, ac un ai talu premiwm neu dderbyn disgownt yn unol â fformiwla a osodwyd yn seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Hwyrach y bydd rhai benthycwyr yn barod i drafod telerau ad-dalu cynnar. Gall y Cyngor gymryd mantais o hyn ac amnewid rhai benthyciadau am fenthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb eu hamnewid, lle y disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbediad cyffredinol neu leihad cyffredinol mewn risg. Mae'r cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu y dylai cyfleoedd mwy ffafriol i aildrefnu dyled godi nag yn y blynyddoedd blaenorol.

## 6. Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys

**6.1** Mae'r Cyngor wedi buddsoddi arian sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn ei wario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir ar gyfer y Cyngor, Cronfa Bensiwn Gwynedd, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a grant UKSPF. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Cyngor wedi amrywio rhwng £106.8 a £235.8 miliwn, a disgwylir i'r lefelau fod yn is dros y flwyddyn nesaf oherwydd bod Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn trosglwyddo i'r Cyd- bwyllgor Corfforedig sydd yn endid ar wahân.

Fel arfer, nid yw benthyciadau i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a phrynu eiddo fel buddsoddiad yn cael eu hystyried yn fuddsoddiadau trysorlys, ac felly rydym yn delio â'r rhain ar wahân yn **Atodiad 3.**

## 6.2 Amcanion

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion drwy buddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Pan ddisgwylir i falansau cael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, bydd y Cyngor yn anelu i dderbyn dychweliad cyfan sydd yn gyfartal neu'n uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant, er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddir. Nod y Cyngor yw bod yn fuddsoddwr cyfrifol a bydd yn ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) wrth fuddsoddi.

## 6.3 Strategaeth

Fel y dangosir gan y meincnod ymrwymiadau uchod, mae'r Cyngor yn disgwyl bod yn fuddsoddwr hirdymor ac felly bydd buddsoddiadau trysorlys yn cynnwys offerynnau risg isel tymor byr i reoli llif arian o ddydd i ddydd ac offerynnau tymor hwy lle derbynnir risg ychwanegol gyfyngedig am incwm buddsoddi uwch i gefnogi gwsanaethau cyhoeddus lleol.

## 6.4 Ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG)

Mae ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) yn gynyddol yn ffactor ym mhenderfyniadau buddsoddwyr byd-eang, ac mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymiedig i fod yn fuddsoddwr cyfrifol. Bydd y Cyngor yn mynd ati i geisio buddsoddi mewn sefydliadau sy'n lleihau eu heffaith ar y byd wrth ystyried ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu pan yn buddsoddi gyda gwrthbarti presennol neu newydd. Wrth fuddsoddi mewn banciau a chronfeydd, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu banciau sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig a chronfeydd a weithredir gan reolwyr sydd wedi llofnodi Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig, y Gynghrair Rheolwyr Asedau Sero Net a/neu Cod Stiwardiaeth y DU.

## 6.5 Modelau busnes

O dan y safon IFRS 9 newydd mae'r gyfrifeg ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar "model busnes" y Cyngor i'w rheoli. Mae'r Cyngor yn anelu i ennill gwerth gan ei fuddsoddiadau trysorlys sydd yn cael eu rheoli'n fewnol gyda model busnes o gasglu llif arian cytundebol ac felly, ble mae'r meini prawf yn cael ei cwrdd, mae'r buddsoddiadau yn dal i gael eu cyfrifo ar gost wedi ei amorteiddio.

## 6.6 Gwrthbartïon cymeradwy

Gall y Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gyda unrhyw o'r gwrthbartïon yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau arian (fesul gwrthbarti) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

**Tabl 3: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo a'r terfynau**

| Sector | Terfyn amser | Terfyn gwrthbarti | Terfyn sector |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | 50 mlynedd | Diderfyn | d/b |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | 25 mlynedd | £8m | Diderfyn |
| Buddsoddiadau â sicrwydd * | 25 mlynedd | £8m | Diderfyn |
| Banciau (ansicredig) * | 13 mis | £4m | Diderfyn |
| Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) * | 13 mis | £4m | £8m |
| Darparwyr cofrestredig (ansicredig) * | 5 mlynedd | £4m | £20m |
| Cronfeydd marchnad arian * | d/b | £8m | Diderfyn |
| Cronfeydd cyfun strategol | d/b | £8m | £40m |
| Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real | d/b | £8m | £20m |
| Buddsoddiadau eraill * | 5 mlynedd | £4m | £8m |

Rhaid darllen y tabl hwn mewn cysylltiad â'r nodiadau canlynol.

## 6.7 Isafswm Statws Credyd

Dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor cyhoeddedig isaf yn is nag A- y gwneir buddsoddiadau'r Trysorlys yn y sectorau a nodir â *. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbarti. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, mae'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

**6.8 Llywodraeth DU**

Mae buddsoddiadau sterling sydd wedi eu gwarantu gan Llywodraeth y DU gan gynnwys y Swyddfa Rheoli Dyledion, biliau a giltiau'r trysorlys. Ystyrir bod y rhain yn risg credyd sero oherwydd gallu'r llywodraeth i greu arian ychwanegol ac felly gellir buddsoddi gyda nhw mewn symiau ddiderfyn am hyd at 50 mlynedd.

**6.9 Awdurdodau lleol a sefydliadau eraill y llywodraeth**

Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan lywodraethau cenedlaethol eraill, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygol amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau yma yn destun *'bail-in'*, ac yn gyffredinol bychan iawn yw'r risg o ansolfedd, er nad ydynt yn ddi-risg.

**6.10 Buddsoddiadau â Sicrwydd**

Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r benthyciwr, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad. Bydd maint ac ansawdd y diogelwch yn ffactor allweddol yn y penderfyniad buddsoddi. Mae bondiau gorchuddiedig, adneuon wedi'i diogelu a chytundebau adbrynu o chwith gyda banciau a chymdeithasau adeiladu wedi'u heithrio rhag '*bail-in'.* Lle nad oes statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, ond bod gan y cyfochrog y sicrheir y buddsoddiad arno statws credyd, defnyddir yr uchaf o'r statws credyd cyfochrog a statws credyd y gwrthbarti. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

**6.11 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (ansicredig)**

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in'* petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

**6.12 Darparwyr cofrestredig (ansicredig)**

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, a elwid gynt yn gymdeithasau tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio gan yr Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheoleiddiwr Tai yn yr Alban, Llywodraeth Cymru ac yr Adran ar gyfer y Gymuned (yn Gogledd Iwerddon). Fel darparwyr

gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

**6.13 Cronfeydd Marchnad Arian**

Cronfeydd cyfun sy'n cynnig hylifedd yr un diwrnod neu fyr rybudd ac anweddolrwydd prisiau isel iawn neu ddim o gwbl trwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddyn nhw'r fantais dros gyfrifon banc o ddarparu gwasgariad ehangach o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa broffesiynol am ffi fach. Er nad oes unrhyw derfyn sector yn berthnasol i gronfeydd marchnad arian, bydd y Cyngor yn cymryd gofal i arallgyfeirio ei fuddsoddiadau hylif dros amrywiaeth o ddarparwyr i sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

**6.14 Cronfeydd Cyfun Strategol**

Cronfeydd bondiau, ecwiti ac eiddo, yn cynnwys cyfnewid arian a fasnachwyd, sy'n cynnig enillion gwell dros y tymor hir ond sy'n fwy anwadal yn y tymor byr. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Cyngor ehangu i ddosbarthiadau o asedau ar wahân i arian parod heb yr angen i fod yn berchen ar y buddsoddiadau gwaelodol a'u rheoli. Gan nad oes dyddiad aeddfedu pendant ar gyfer y cronfeydd hyn, ond gellir ei dynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd neu ei werthu ar gyfnewidfa, a'u bod ar gael i'w tynnu allan ar ôl cyfnod o rybudd, bydd eu perfformiad a'u haddasrwydd i barhau i gwrdd ag amcanion buddsoddi'r Cyngor yn cael eu monitro'n gyson.

**6.15 Ymddiriedolaethau Buddsoddi Ystâd Real**

Cyfranddaliadau mewn cwmnïau sy'n buddsoddi'n bennaf mewn ystâd real ac sy'n talu'r mwyafrif o'u hincwm rhent i fuddsoddwyr mewn modd tebyg i gronfeydd eiddo cyfun. Yn yr un modd â chronfeydd eiddo, mae ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real yn cynnig enillion gwell dros y tymor hir, ond maent yn fwy anwadal yn enwedig gan fod pris y cyfranddaliadau yn adlewyrchu'r galw newidiol am y cyfranddaliadau ynghyd â newidiadau yng ngwerth yr eiddo sylfaenol.

**6.16 Buddsoddiadau eraill**

Mae'r categori yma yn cynnwys buddsoddiadau trysorlys nad ydynt wedi'u rhestru uchod, er enghraifft bondiau corfforaethol ansicredig a benthyciadau cwmni. Nid yw cwmnïau heblaw banciau yn destun *'bail-in'* ond gallent fynd yn fethdalwr gan roi buddsoddiad y Cyngor mewn perygl.

**6.17 Cyfrifon banc gweithredol**

Gall y Cyngor ddelio gydag unrhyw fanc yn y DU gyda statws credyd dim is na BBB - a chydag asedau mwy na £25 biliwn, a hynny, er enghraifft, drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr. Nid yw'r rhain yn cael eu cyfrif fel buddsoddiadau, ond maent yn parhau yn agored i risgiau '*bail-in'*, ac felly bydd y balansau yn cael eu cadw'n is na £900,000 fesul banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan petai yna fethiant, y byddai banciau gydag asedau sy'n fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o fod yn destun *'bail-in'* na chael eu gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r Cyngor yn gallu parhau i weithredu.

**6.18 Asesu Risg a Statws Credyd**

Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor yn derbyn ac yn monitro'r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y statws wrth iddynt ddigwydd. Mae'r asiantaethau statws credyd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd wedi'u rhestru yn nogfen Arferion Rheolaeth Trysorlys. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "*rating watch negative*" neu "*credit watch negative*") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

**6.19 Agweddau ar enw da**

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gallai buddsoddi gyda gwrthbartïon penodol, er ei fod yn cael ei ystyried yn ddiogel o safbwynt ariannol yn unig, ei adael yn agored i feirniadaeth, yn ddilys neu fel arall, a allai effeithio ar ei enw da cyhoeddus, ac felly bydd y risg hon yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

## 6.20 Gwybodaeth arall ar ddiogelwch buddsoddiadau

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008, 2020 a 2022, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei adlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Cyngor yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian y Cyngor, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill.  Bydd hyn yn achosi i'r enillion ar fuddsoddiadau ostwng, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

## 6.21 Cyfyngiadau Buddsoddi

Rhagwelir bydd gan y Cyngor £98 miliwn mewn cronfeydd refeniw ar 31 Mawrth 2025 fydd ar gael i dalu am unrhyw golledion buddsoddi. Er mwyn sicrhau nad yw mwy na 8.2% o'r cronfeydd hyn mewn perygl oherwydd diffygdalu unigol, yr uchafswm gellir ei fenthyca i unrhyw un sefydliad (heblaw Llywodraeth y DU) yw £8 miliwn. O ran y cyfyngiad yma bydd grŵp o endidau o dan yr un perchnogaeth yn cael eu trin fel sefydliad unigol.

Mae datguddiadau risg credyd sy'n deillio o fuddsoddiadau ar wahân i'r trysorlys, deilliadau ariannol a balansau sy'n fwy na £500,000 mewn cyfrifon banc gweithredol yn cyfrif yn erbyn y terfynau buddsoddi perthnasol.

Gosodir terfynau hefyd ar reolwyr cronfeydd, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebai broceriaid a gwledydd tramor fel y nodir isod. Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfun a banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y terfyn ar gyfer unrhyw wlad dramor unigol, gan fod y risg yn amrywio dros lawer o wledydd.

**Tabl 4:  Terfynau ychwanegol**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolaeth | £20m fesul rheolwr |
| Buddsoddiadau mewn cyfrif enwebedig brocer | £20m fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £8m fesul gwlad |

**6.22 Rheoli hylifedd**

Mae'r Cyngor yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Caiff y rhagolygon eu llunio ar y sail bod benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu ei ymrwymiadau ariannol os oes angen. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau tymor hir yn cael eu gosod ar sail cynllun ariannol tymor canolig a rhagolwg llif arian y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn lledaenu ei arian parod hylifol dros o leiaf bedwar darparwr (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian), ble bydd o leiaf dau wedi ei leoli yn y DU, i sicrhau bod mynediad at arian parod yn cael ei gynnal os bydd anawsterau gweithredol mewn unrhyw un darparwr.

## 7. Dangosyddion Darbodus Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

**7.1 Diogelwch**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwysoli o ran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg ganfyddedig.

| **Dangosydd risg credyd** | **Targed** |
|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 6.0 |

**7.2 Hylifedd**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl mewn cyfnod penodol, heb fenthyca ychwanegol.

| **Dangosydd risg hylifedd** | **Targed** |
|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £10m |

### 7.3 Datguddiad Cyfraddau Llog

Nod y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw dros flwyddyn yn dilyn codiad neu gwymp o 1% ar gyfraddau llog fyddai:

| Dangosydd risg cyfradd llog | Cyfyngiad |
|---|---|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda chodiad o 1% yng nghyfraddau llog | £1,324,700 |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda chwymp o 1% yng nghyfraddau llog | £1,324,700 |

Caiff effaith newid mewn cyfraddau llog ei gyfrifo ar y dybiaeth y bydd benthyciadau a buddsoddiadau sy'n aeddfedu yn cael eu hamnewid ar y cyfraddau marchnad newydd.

### 7.4 Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau fel a ganlyn:

| Dangosydd risg cyfradd ail gyllido | Cyfyngiad Uchaf | Cyfyngiad Isaf |
|---|---|---|
| Dan 12 mis | 25% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 0% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

### 7.5 Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwy na flwyddyn

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Y terfynau darbodus ar fuddsoddiadau rheolaeth trysorlys hirdymor fydd:

| Dangosydd risg pris | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | Dim dyddiad penodol |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £40m | £20m | £20m | £20m |

Mae buddsoddiadau hirdymor heb ddyddiad aeddfedu penodol yn cynnwys cronfeydd cyfun strategol ac ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real ond nid ydynt yn cynnwys cronfeydd marchnad arian a chyfrifon banc heb ddyddiad aeddfedu penodol gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn rhai tymor byr.

## 8. Materion Cysylltiedig

**8.1** Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA.

### 8.2 Cytundebau Deilliadau

Gallai awdurdodau lleol fod wedi defnyddio deilliadau ariannol yn y gorffennol wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau i leihau risg cyfraddau llog (e.e. coleri cyfradd llog a blaendaliadau) ac i leihau costau neu gynyddu incwm ar draul mwy o risg (e.e. benthyciadau LOBO ac adneuon y gellir eu galw). Mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn dileu llawer o'r ansicrwydd ynghylch defnydd awdurdodau lleol o ddeilliadau ariannol annibynnol (h.y. y rhai nad ydynt wedi'u hymgorffori mewn benthyciad neu fuddsoddiad).

Bydd y Cyngor ond yn defnyddio deilliadau ariannol annibynnol (fel cyfnewidiadau, blaensymiau, dyfodol ac opsiynau) lle gellir dangos yn glir eu bod yn lleihau lefel gyffredinol y risgiau ariannol y mae'r Cyngor yn agored iddynt. Bydd risgiau ychwanegol a gyflwynir, megis amlygiad credyd i wrthbartïon deilliadol, yn cael eu hystyried wrth bennu lefel gyffredinol y risg. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ddeilliadau mewnosodedig, gan gynnwys y rhai sy'n bresennol mewn cronfeydd cyfun a thrafodion sy'n cychwyn ymlaen llaw, er y bydd y risgiau a gyflwynir ganddynt yn cael eu rheoli yn unol â strategaeth gyffredinol rheoli risg y trysorlys.

Gellir trefnu trafodion deilliadol ariannol gydag unrhyw sefydliad sy'n bodloni'r meini prawf buddsoddi cymeradwy, a asesir gan ddefnyddio'r statws credyd priodol ar gyfer datguddiadau deilliadol. Bydd lwfans ar gyfer risg credyd a gyfrifir gan ddefnyddio'r fethodoleg yn y ddogfen Arferion Rheoli'r Trysorlys yn cyfrif yn erbyn y terfyn credyd gwrthbarti a'r terfyn gwlad dramor perthnasol.

Yn unol â Chod CIPFA, bydd y Cyngor yn ceisio cyngor allanol ac yn ystyried y cyngor hwnnw cyn ymrwymo i ddeilliadau ariannol i sicrhau ei fod yn deall y goblygiadau yn llawn.

**8.3 Cronfeydd Allanol**

Yn gynwysedig ym malansau'r Cyngor mae balansau ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, GwE, Cronfa'r Degwm a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (nes 31.03.25). Dyrennir yr incwm llog i bob sefydliad yn seiliedig ar falansau dyddiol.

**8.4 Cyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol**

Mae'r Cyngor wedi dewis cael statws cleient proffesiynol gyda'i darparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr buddsoddi, er mwyn caniatáu mynediad at amrediad mwy o wasanaethau ond heb y diogelwch rheoleiddio uwch sydd ar gael i unigolion a chwmnïau bychan. Oherwydd maint ac ystod gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu mai hwn yw'r statws priodol gorau.

**9. Arweiniad Llywodraeth Cymru**

Mae materion pellach sy'n ofynnol gan ganllawiau Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn **Atodiad 3**.

**10. Goblygiadau Ariannol**

**10.1** Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi yn 2025/26 yw £1.0 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio buddsoddi o £26.8 miliwn ar gyfradd llog o 3.8% ar gyfer adneuon a £13 miliwn o gronfeydd cyfun ar enillion o 3.7%. Y gyllideb ar gyfer y llog ar ddyledion yn 2025/26 yw £5 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio dyledion o £92 miliwn ar gyfradd llog cyfartalog o 5.4%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r benthyciadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

**11. Ystyried Opsiynau Eraill**

**11.1** Nid yw Cod CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli trysorlys penodol i awdurdodau lleol ei fabwysiadu. Ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu fod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-effeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau ariannol a rheoli risgiau.

| Dewis Arall | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risgiau |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn amrediad mwy cyfyng o wrthbartïon ac/neu am gyfnodau byrrach | Bydd incwm llog yn is | Llai o berygl o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu’n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn fwy |
| Buddsoddi mewn amrediad ehangach o wrthbartïon ac/neu am gyfnodau hirach | Bydd incwm llog yn uwch | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu’n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn llai |
| Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog hirdymor | Bydd costau llog dyledion yn codi; mae’n annhebygol y gellid gwrthbwyso hyn drwy incwm buddsoddi uwch | Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai’r costau llog hirdymor yn fwy sicr |
| Cymryd benthyciadau byrdymor newidiol yn hytrach na chyfraddau sefydlog hirdymor | Bydd costau llog dyledion yn is i gychwyn | Bydd y cynnydd yn y costau llog ar ddyledion yn cael eu gwrthbwyso i raddau helaeth gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond bydd mwy o ansicrwydd am y costau hirdymor |
| Lleihau lefel y benthyciadau | Mae’r arbediad ar log y ddyled yn debygol o fod yn fwy na’r incwm buddsoddi a gollir | Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai’r costau llog hirdymor yn llai sicr |

**Atodiad 1 – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Rhagfyr 2024**

**Tybiaethau sylfaenol:**

• Yn ôl y disgwyl, gadawodd y Pwyllgor Polisi Ariannol y cyfradd banc ar 4.75% ym mis Rhagfyr, er gyda rhaniad pleidleisio o 6-3 a phryderon amlwg am dwf economaidd, cyflwynodd safbwynt llawer mwy datblygedig nag a ddisgwyliedig o ystyried data chwyddiant diweddar.

• Mae mesurau'r Gyllideb yn parhau i fod yn bryder i lunwyr polisi, ar gyfer twf a chwyddiant. Bydd gwariant ychwanegol gan y llywodraeth yn cynyddu'r galw mewn amodau cyflenwi cyfyngedig, tra'n cynyddu costau uniongyrchol i gyflogwyr. Bydd yr effeithiau chwyddiant tymor byr i ganolig yn hyrwyddo pwyll ymhlith llunwyr polisi.

• Fe wnaeth Cynnyrch Mewnol Crynswth (CMC) y DU wella yn dda yn hanner cyntaf 2024 o ddirwasgiad technegol, ond mae’r twf sylfaenol wedi gwaethygu wrth i’r flwyddyn fynd yn ei blaen. Er y dylai gwariant y llywodraeth hybu twf CMC yn 2025, mae’n ymddangos bod gweithgaredd y sector breifat yn gwaethygu, yn rhannol oherwydd mesurau Cyllideb.

• Mae twf cyflog sector preifat a chwyddiant gwasanaethau yn parhau i fod yn uwch; gyda cyflog yn cynyddu’n gyflym yn yr Hydref. Gallai'r cynnydd mewn YG cyflogwyr, lefelau isafswm cyflog y sector cyhoeddus a'r sector cyhoeddus gael effeithiau eang ar y galw a chostau cyflogaeth yn y sector preifat, ond bydd yr effaith yn y tymor agos yn debygol o fod yn debyg i chwyddiant wrth i'r costau ychwanegol hyn gael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr.

• Mae cyfraddau chwyddiant CPI wedi codi oherwydd prisiau ynni uwch ac effeithiau sylfaenol llai ffafriol. Gall y cyfradd CPI cyfredol o 2.6% gynyddu ymhellach yn Chw1 2025. Mae Bank Lloegr wedi amcanu bydd cyfradd CPI yn 2.7% erbyn diwedd 2025 ac yn aros yn uwch na’r targed yn 2026.

• Ail-bwysleisiodd yr MPC y bydd polisi ariannol yn cael ei leddfu'n raddol. Er bod data diweddar sy'n gysylltiedig â chwyddiant yn symud i fyny neu'n syndod i'r wyneb i waered, roedd y cofnodion yn awgrymu bod lleiafrif sylweddol o lunwyr polisi o leiaf yr un mor bryderus am economi'r DU sy'n gostwng.

• Mae cynnyrch bond llywodraeth yr Unol Daleithiau wedi codi yn dilyn data cryf yr Unol Daleithiau ac ansicrwydd ynghylch effeithiau polisïau Donald Trump ar economi'r UD, yn enwedig o ran chwyddiant a pholisi ariannol. Mae’r Gronfa Ffederal wedi tynnu nol ei ddisgwyliadau ar gyfer toriadau yng ngoleuni’r materion hyn. Mae cynnyrch uwch yr Unol Daleithiau hefyd yn cynyddu cynnyrch gilt y DU, perthynas a fydd yn cael ei chynnal oni bai bod polisi ariannol yn y DU a'r UDA yn dargyfeirio.

**Rhagolwg:**

• Yn unol â'n rhagolygon, cynhaliwyd Cyfradd y Banc ar 4.75% ym mis Rhagfyr.

• Bydd yr MPC yn lleihau cyfradd y banc mewn modd graddol. Gwelwn doriad yn y gyfradd ym mis Chwefror 2025, ac yna toriad ochr yn ochr â phob cyhoeddiad Adroddiad Polisi Ariannol, i isafswm o 3.75%.

• Mae cynnyrch gilt hirdymor wedi codi i adlewyrchu disgwyliadau polisi economaidd, ariannol a chyllidol y DU a'r Unol Daleithiau, a chynnydd yn y cyflenwad bond. Bydd anwadalrwydd yn parhau i fod yn uchel wrth i'r farchnad dreulio data sy'n dod i mewn ar gyfer cliwiau ynghylch effaith newidiadau polisi.

• Efallai y bydd yr ansicrwydd hwn hefyd yn golygu bod angen newidiadau amlach i'n rhagolygon nag a fu'n digwydd yn ddiweddar.

• Mae'r risgiau o amgylch y rhagolygon i'w gweld wyneb yn wyneb dros y 12 mis nesaf ond maent yn cael eu cydbwyso'n gyffredinol yn y tymor canolig.

| | Current | Mar-25 | Jun-25 | Sep-25 | Dec-25 | Mar-26 | Jun-26 | Sep-26 | Dec-26 | Mar-27 | Jun-27 | Sep-27 | Dec-27 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 |
| Central Case | 4.75 | 4.50 | 4.25 | 4.00 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 |
| Downside risk | 0.00 | -0.25 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.75 | -0.75 | -0.75 | -0.75 | -0.75 | -0.75 | -0.75 | -0.75 |
| 3-month money market rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 |
| Central Case | 4.90 | 4.60 | 4.35 | 4.10 | 3.90 | 3.85 | 3.85 | 3.85 | 3.85 | 3.85 | 3.85 | 3.85 | 3.85 |
| Downside risk | 0.00 | -0.25 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.75 | -0.75 | -0.75 | -0.75 | -0.75 | -0.75 | -0.75 | -0.75 |
| 5yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.70 | 0.80 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 |
| Central Case | 4.34 | 4.30 | 4.20 | 4.10 | 4.00 | 3.90 | 3.90 | 3.95 | 4.00 | 4.05 | 4.05 | 4.05 | 4.05 |
| Downside risk | 0.00 | -0.50 | -0.60 | -0.65 | -0.65 | -0.70 | -0.70 | -0.75 | -0.75 | -0.80 | -0.80 | -0.80 | -0.80 |
| 10yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.70 | 0.80 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 |
| Central Case | 4.56 | 4.55 | 4.45 | 4.30 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.25 | 4.25 | 4.25 | 4.25 | 4.25 |
| Downside risk | 0.00 | -0.50 | -0.60 | -0.65 | -0.65 | -0.70 | -0.70 | -0.75 | -0.75 | -0.80 | -0.80 | -0.80 | -0.80 |
| 20yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.70 | 0.80 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 |
| Central Case | 5.05 | 5.00 | 4.90 | 4.80 | 4.70 | 4.65 | 4.65 | 4.65 | 4.65 | 4.65 | 4.65 | 4.65 | 4.65 |
| Downside risk | 0.00 | -0.50 | -0.60 | -0.65 | -0.65 | -0.70 | -0.70 | -0.75 | -0.75 | -0.80 | -0.80 | -0.80 | -0.80 |
| 50yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.70 | 0.80 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 | 0.90 |
| Central Case | 4.52 | 4.70 | 4.60 | 4.50 | 4.40 | 4.35 | 4.35 | 4.35 | 4.35 | 4.35 | 4.35 | 4.35 | 4.35 |
| Downside risk | 0.00 | -0.50 | -0.60 | -0.65 | -0.65 | -0.70 | -0.70 | -0.75 | -0.75 | -0.80 | -0.80 | -0.80 | -0.80 |

PWLB Standard Rate = Gilt yield + 1.00%
PWLB Certainty Rate = Gilt yield + 0.80%
PWLB HRA Rate = Gilt yield + 0.40%
National Wealth Fund (NWF) Rate = Gilt yield + 0.40%

**Atodiad 2- Sefyllfa Portffolio Buddsoddi a Dyled Bresennol**

| | 31.12.2024 Gwir Bortffolio £m | 31.12.2025 Cyfradd Cyfartalog % |
|---|---|---|
| **Benthyca Allanol:** | | |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) | 81.2 | 5.60 |
| Benthyciadau eraill | 16.2 | 4.22 |
| **Cyfanswm benthyca allanol** | **97.4** | **5.37** |
| **Ymrwymiadau tymor hir arall:** | | |
| Prydlesau | 1.6 | 0.00 |
| **Cyfanswm ymrwymiadau tymor hir arall** | **1.6** | **0.00** |
| **Cyfanswm dyled gros allanol** | **99.0** | **5.37** |
| **Buddsoddiadau trysorlys:** | | |
| Banciau a Chymdeithasau adeiladu (ansicredig) | 12.4 | 4.67 |
| Llywodraeth DU | 10.9 | 4.71 |
| Awdurdodau Lleol | 88.0 | 5.04 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 37.6 | 4.76 |
| Cronfeydd wedi'u pŵlio | 13.0 | 5.85 |
| **Cyfanswm buddsoddiadau trysorlys** | **161.9** | **4.98** |
| **Buddsoddiadau Net** | **-62.9** | |

**Atodiad 3- Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) Ganllaw Buddsoddi diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sy'n gosod gofynion adrodd ychwanegol ar awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan annatod o brosesau rheoli trysorlys y Cyngor hwn. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys buddsoddiadau nad ydyn nhw'n rhan o reoli trysorlys, er enghraifft eiddo buddsoddi a benthyciadau i sefydliadau lleol.

**Cyfraniad:** Mae buddsoddiadau'r Cyngor yn cyfrannu at ei amcanion darparu gwasanaeth a / neu i hyrwyddo lles fel a ganlyn:

- mae buddsoddiadau rheoli trysorlys yn cefnogi gweithgareddau rheoli trysorlys effeithiol,
- mae benthyciadau i sefydliadau lleol yn darparu cymorth ariannol i'r sefydliadau hynny i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a fyddai fel arall yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan y Cyngor, a
- mae eiddo buddsoddi yn darparu gwarged ariannol net sy'n cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol.

**Newid yn yr hinsawdd:** Mae penderfyniadau buddsoddi'r Cyngor yn ystyried risgiau hinsawdd tymor hir i gefnogi economi carbon isel i'r graddau, os oes buddsoddiad carbon isel cyfwerth ar gael gyda'r un enillion, yna byddai'n well gan y Cyngor y buddsoddiad carbon isel.

**Buddsoddiadau penodedig**: Mae Canllawiau LlC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel y rheini:

- wedi'i enwi mewn punt sterling,
- i fod i gael ei ad-dalu cyn pen 12 mis ar ôl y trefniant oni bai bod y gwrthbarti yn awdurdod lleol,
- heb ei ddiffinio fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, a
- buddsoddi gydag un o:
    - Llywodraeth y DU,
    - Awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymunedol yn y DU, neu
    - Corff neu gynllun buddsoddi o “ansawdd credyd uchel”.

Mae'r Cyngor yn diffinio sefydliadau a gwarantau “ansawdd credyd uchel” fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch sy'n hanu o'r DU neu wlad dramor sydd â sgôr sofran o AA + neu'n uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfun eraill, diffinnir “ansawdd credyd uchel” fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch.

**Benthyciadau**: Mae Canllawiau LlC yn diffinio benthyciad fel cytundeb ysgrifenedig neu lafar lle mae'r Cyngor yn trosglwyddo arian dros dro i drydydd parti, menter ar y

cyd, is-gwmni neu aelod cyswllt sy'n cytuno ar enillion yn ôl telerau ac amodau derbyn y benthyciad, ac eithrio pan fydd y trydydd parti yn awdurdod lleol arall.

Gall y Cyngor ddangos bod ei amlygiad ariannol i fenthyciadau i fentrau lleol, elusennau lleol, cwmnïau dan berchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd yn gymesur trwy osod y terfynau yn nhabl 3a. Mae'r rhain yn sicrhau nad yw cyfanswm yr amlygiad yn fwy na 20% o gronfeydd wrth gefn y Cyngor y gellir eu defnyddio. Ar hyn o bryd mae llyfr benthyciadau’r Cyngor o fewn y terfynau hunanasesedig hyn.

*Tabl 3a: Terfynau Benthyg*

| **Benthyciwr** | **Terfyn arian** |
|---|---|
| Mentrau lleol ac elusennau lleol | £3m |
| Cwmnïau dan berchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd | £3m |
| Benthyciadau ceir a beics i weithwyr | £3m |
| Buddsoddiadau rheolaeth trysorlys sy’n cwrdd â’r diffiniad o fenthyciad | Diderfyn |

Mae’r Cyngor yn defnyddio model ‘colled credyd disgwyliedig’ a ganiateir ar gyfer benthyciadau a symiau derbyniadwy fel y nodir yn Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9: Offerynnau Ariannol fel y’i mabwysiadwyd gan arferion priodol i fesur risg credyd ei bortffolio benthyciadau. Rhoddir ystyriaeth briodol i reolau cymorth gwladwriaethol a chyfraith cystadleuaeth. Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli credyd priodol i adennill ad-daliadau hwyr.

**Buddsoddiadau amhenodol:** Mae unrhyw fuddsoddiad ariannol nad yw'n cwrdd â'r diffiniad o fuddsoddiad neu fenthyciad penodol yn cael ei ddosbarthu fel un amhenodol. O ystyried y diffiniad eang o fenthyciad, mae'r categori hwn yn berthnasol i unedau mewn cronfeydd cyfun a chyfranddaliadau mewn cwmnïau yn unig. Dangosir cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodol yn nhabl 3b; mae'r Cyngor yn cadarnhau bod ei fuddsoddiadau amhenodol cyfredol yn aros o fewn y terfynau hyn.

*Tabl 3b: Terfynau buddsoddiadau amhenodol*

| | **Terfyn arian** |
|---|---|
| Unedau mewn cronfeydd cyfun heb statws credyd neu wedi'u graddio islaw A- | £20m |
| Cyfranddaliadau mewn ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real | £10m |
| Cyfanswm buddsoddiadau amhenodol | £30m |

**Buddsoddiadau anariannol:** Mae'r categori hwn yn cynnwys asedau anariannol a ddelir yn bennaf neu'n rhannol i gynhyrchu elw, eiddo buddsoddi yn bennaf. Penderfynir ar ddiogelwch trwy gymharu pris prynu pob ased â’i werth teg gan ddefnyddio’r model yn Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 40: Eiddo Buddsoddi fel y’i haddaswyd gan arferion

priodol. Ar asesiad ar 31 Mawrth 2024, mae'r Cyngor o'r farn nad yw graddfa ei fuddsoddiadau anariannol yn sylweddol.

**Hylifedd**: Ar gyfer buddsoddiadau ariannol nad ydynt yn fuddsoddiadau neu fenthyciadau rheoli trysorlys, mae gan y Cyngor weithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod y cronfeydd yn cael eu hymrwymo'n ddarbodus am y cyfnod hiraf o amser.

**Ymgynghorwyr Buddsoddi:** Mae'r Cyngor wedi penodi Arlingclose fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac yn derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyled a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

**Benthyg cyn yr angen:** Canllawiau Llywodraeth Cymru yw na ddylai awdurdodau lleol fenthyca mwy na blaen eu hanghenion er mwyn elwa o fuddsoddiad y symiau ychwanegol a fenthycwyd. Mae'r Cyngor, ar ôl ystyried y canllawiau, wedi penderfynu gwyro oddi wrth ddarpariaeth benodol.

**Trefniant masnachol:** Os bydd trefniant masnachol, mae'r unigolion sy'n gwneud y fargen yn ymwybodol o egwyddorion craidd y fframwaith darbodus a'r drefn reoleiddio y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddi.

**Capasiti, sgiliau a llywodraethu corfforaethol:** Gwahoddwyd aelodau etholedig a swyddogion i gyflwyniad gan Arlingclose ym mis Chwefror a Mawrth 2025. Mae'r wybodaeth a'r drafodaeth yn y cyflwyniad yn sicrhau bod gan yr aelodau'r sgiliau a'r wybodaeth briodol i'w galluogi i:

- Wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylid ymrwymo i fuddsoddiad penodol.
- Asesu asesiadau unigol yng nghyd-destun amcanion strategol a phroffil risg y Cyngor.
- Deall sut mae cwantwm y penderfyniadau hyn wedi newid amlygiad risg cyffredinol yr awdurdod lleol.

Mae swyddogion hefyd yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Anogir staff perthnasol hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA, ACA a sefydliadau priodol eraill.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **6 Mawrth 2025** |
| **PENNAWD** | **Sefydlu Cyd-Bwyllgor Trosolwg A Chraffu Cyd-Bwyllgor Corfforedig Y Gogledd** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |
| **PWRPAS** | **1. Sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gyda'r Cylch Gorchwyl sydd yn Atodiad 1.**<br>**2. Cytuno bod pwerau Pwyllgorau Craffu lleol y darperir ar eu cyfer o dan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 yn cael eu cadw**<br>**3. Cytuno y bydd cydbwysedd gwleidyddol enwebeion Cyngor Gwynedd i'r pwyllgor trosolwg a chraffu ar y cyd (CBTcH) yn adlewyrchu aelodaeth Cyngor Gwynedd yn hytrach nag chyfanswm aelodaeth holl gynghorau Gogledd Cymru .**<br>**4. Cytuno y bydd yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei ddarparu gan y CBC yn unol â'r Cylch Gorchwyl** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Nia Jeffreys , Arweinydd y Cyngor.** |

**Rhesymau dros y Penderfyniad**

Darparu ar gyfer trefniadau craffu ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (y “CBC” )

Mae canllawiau statudol ac arfer presennol yn arwain tuag at y chwe chyngor yn sefydlu model craffu trosolwg ar y cyd fel bod un corff penodol sy'n cael ei drochi yng ngwaith y CJC. Ni fydd y corff hwn yn dadleoli gallu craffu lleol ar y CJC fel corff partner.

**Cefndir**

1. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 1 Ebrill 2021 ac wedi hynny derbyniodd ei swyddogaethau ym mis Mehefin 2022. Ar hyn o bryd y swyddogaethau hyn yw:
    - paratoi, monitro, adolygu a diwygio Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol;

- datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gyda pholisïau ar gyfer trafnidiaeth ranbarthol;
- y pŵer i wneud unrhyw beth sy'n debygol o hyrwyddo lles economaidd

2. Mae'n gorff awdurdod lleol ar wahân gyda'i swyddogaethau a'i aelodaeth ei hun sy'n dod yn bennaf o 6 Cyngor Gogledd Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'n ofyniad statudol iddo, i bob pwrpas, fabwysiadu'r rhan fwyaf o drefniadau llywodraethu sy'n perthyn i Brif Awdurdod, gan gynnwys Cyfansoddiad, Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Is-bwyllgor Safonau a gofynion cyfreithiol eraill gan gynnwys Adolygiadau Perfformiad, Polisïau Cydraddoldeb a Bioamrywiaeth a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

3. Mae'r angen am graffu'r CBC wedi'i ymgorffori yn y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol. Mae elfen o "graffu" eisoes wedi'i chynnwys ar ffurf yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er enghraifft, ond mae gan hwn broses a rôl perfformio benodol ac nid yw'n Bwyllgor "Trosolwg a Chraffu." Mae disgwyliad y bydd y CBC yn cael ei Graffu.

**Trosolwg a Chraffu**

4. Mae'r gofyniad i sefydlu Pwyllgorau Craffu yn rhan gynhenid o'r system Weithredol. Fodd bynnag, nid oes gofyniad statudol cyfatebol i CBC sefydlu ei Is-bwyllgorau Craffu ei hun i arfer swyddogaethau o'r fath. Yn wir, mae'r canllawiau statudol cyfredol ("y Canllawiau") ar CBC yn rhagweld y bydd hyn yn seiliedig ar graffu gan yr awdurdodau cyfansoddol:

> ***34. Trefniadau trosolwg a chraffu***
>
> *34.1 Cynigir rheoliadau ar drosolwg a chraffu ar gyfer gwanwyn 2022. Rhagwelir y bydd hyn yn seiliedig ar graffu gan awdurdodau cyfansoddol y CBC ac nid y CBC yn craffu ei waith ei hun. Bydd hyn yn rhan bwysig o atebolrwydd democrataidd y CBC. Fel rhan o ddull cyffredinol y cynghorau ar gyfer craffu, dylid ymgymryd ag unrhyw drefniadau craffu yn unol ag unrhyw ganllawiau cyhoeddedig ar graffu a'r Llawlyfr Democratiaeth (pan gaiff ei gyhoeddi).*
>
> *34.2 Wrth ystyried y dull mwyaf effeithiol ac effeithlon ar gyfer craffu, dylai cynghorau cyfansoddol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig roi ystyriaeth i fuddion cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu sy'n cynnwys y cynghorau cyfansoddol. Fodd bynnag, rhaid i'r nod a'r uchelgais glir gynnwys creu, hwyluso ac annog cyswllt democrataidd clir yn ôl i'r cynghorau cyfansoddol.*
>
> *34.3 Fel rhan o'r rheoliadau a drafodwyd yn 34.1, cynigir y bydd dyletswydd gan aelodau a staff CBC i ddarparu gwybodaeth i'r pwyllgor craffu; mynychu cyfarfodydd pwyllgor os oes gofyn gwneud hynny; ac ystyried unrhyw adroddiad neu argymhellion a wneir gan bwyllgor o fewn y trefniadau y cytunwyd arnynt ac sy'n berthnasol i'r CBC*
>
> ***(Cyd-bwyllgorau Corfforedig: Canllawiau Statudol - LlC 2022)***

5. Mae **Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022** yn gosod dyletswydd ar y CBC i gydweithredu gyda Phwyllgor Craffu "perthnasol" ac i ymateb i unrhyw adroddiadau ac argymhellion a gaiff eu paratoi gan y Pwyllgor Craffu. Gall "Pwyllgor Craffu Perthnasol" fod yn Bwyllgor o'r Awdurdodau Cyfansoddol, neu'n Gyd-bwyllgor Craffu a benodir gan yr awdurdodau hynny. Golyga hyn pan fydd pwyllgor craffu yn arfer ei bwerau i lunio adroddiad i'r awdurdod neu ei weithrediaeth "ar faterion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu breswylwyr yr ardal honno" a'i fod yn ymwneud â swyddogaethau'r CBC, bydd gofynion penodol yn deillio o hyn:

Mae'n rhaid i'r CBC gydweithredu â'r Pwyllgor Craffu Perthnasol a rhoi cymorth rhesymol o'r fath iddo yn ôl ei ofyn yn cynnwys:

- trefnu i aelod o'r CBC fynychu i ateb cwestiynau
- trefnu i aelod o staff y CBC fynychu i ateb cwestiynau
- darparu gwybodaeth
- darparu dogfennau (gyda darpariaeth ar gyfer gwybodaeth eithriedig)
- ystyried yr adroddiad neu'r argymhelliad, ac
- os yw'r Pwyllgor Craffu yn cyhoeddi adroddiad yn ffurfiol, mae'n rhaid i'r CBC gyhoeddi datganiad yn nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r adroddiad neu'r argymhelliad wrth arfer ei swyddogaethau o fewn deufis

Fydd yr hawl yma ddim yn cael ei ddisodli drwy sefydlu CBTCh.

**Craffu Cyd-bwyllgorau Corfforedig Presennol – Cymru.**

6. Ar hyn o bryd mewn perthynas â'r tri Cyd-bwyllgor Corfforedig arall yng Nghymru, rhoddwyd trefniadau cydgraffu mewn lle. Mae'r trefniadau hyn naill ai'n CBTCh a grëwyd ac a gytunwyd gyda'r Cynghorau cyfansoddol neu a sefydlwyd gan CBC fel rhan o'i drefniadau llywodraethu. Mae rhai ohonynt yn dyddio'n ôl cyn Rheoliadau 2022.

**Amlinelliad o rolau craffu CBTCh y CBC:**

7. (a) Adolygu neu graffu’r penderfyniadau neu gamau gweithredu eraill a wneir mewn perthynas â chyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb y CBC (nid "galw i mewn");

(b) Llunio adroddiadau neu argymhellion i'r CBC mewn perthynas â chyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb y CBC;

(c) Llunio adroddiadau neu argymhellion i'r CBC ar faterion sy'n effeithio ar y CBC.

Byddai angen cytuno ar ei gylch cyfarfodydd yn ogystal â'r gefnogaeth angenrheidiol a'r rhaglenni gwaith ac ati.

**Aelodaeth**

8. Cynigir y byddai gan y CBTCh 12 aelod na fyddai'n aelodau gweithredol o'r Cynghorau Cyfansoddol. Mae hyn yn deillio o ofyniad sylfaenol bod nifer cyfartal o aelodau o bob un o'r Cynghorau. Yn ogystal, penodir aelodau gan bob Cyngor i'r graddau y bo'n ymarferol ar sail eu cydbwysedd gwleidyddol unigol, yn hytrach na chyfansoddiad

gwleidyddol cyffredinol Gogledd Cymru o'r aelodaeth. Felly byddai penodiadau o Gonwy e.e. yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol Conwy a byddai penodiadau o Sir y Fflint yn seiliedig ar eu cydbwysedd gwleidyddol hwy ac ati.

**Adnoddau**

9. Nid yw'r naill opsiwn (sefydlu trefn lleol neu ranbarthol) yn drefniant niwtral o ran adnoddau. Bydd angen amser a chapasiti swyddogion i gefnogi'r ddau opsiwn. Gellir rhagweld y byddai'r CBTCh yn cyfarfod tua thair gwaith y flwyddyn. Byddai'n rhaid cael cyswllt rhwng staff y CBC a'r Timau Craffu i sefydlu eitemau ar yr agenda a fyddai'n golygu cynllunio gwaith craffu ymlaen llaw. Byddai hyn yr un fath ar gyfer pob model os ydym am osgoi dull diweddaru cyffredinol wrth graffu. Gellir rhagweld bod lefel yr adnodd sydd ei angen i fynychu'r holl gyfarfodydd craffu, ymchwilio i eitemau'r agenda a chynllunio gwaith ar gyfer pob un yn sylweddol. Mae cyfarfod Cyd-bwyllgor Craffu rhithiol yn annhebygol o greu materion ychwanegol yn ymwneud â thâl aelodau.

**Y Cynllun Twf**

10. Ar 17 Rhagfyr 2021, fe wnaeth Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam (y "Cynghorau Cyfansoddol"); ynghyd â Phrifysgolion Bangor a Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai gytuno i Gytundeb Cydweithio ("GA2") a sefydlodd Gyd-bwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydlynu bod y Cynghorau yn arfer eu dyletswyddau yng nghyswllt Cynllun Twf Gogledd Cymru ac am gyflawni Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru.

11. Fodd bynnag, ac fe ragwelwyd hyn yn GA2 y gallai'r Cynllun Twf o bosib gael ei drosglwyddo i'r CBC, sy'n fater wedi'i gadw'n benodol i'r Cynghorau. Fe benderfynodd y Cynghorau Cyfansoddol yn eu penderfyniadau mewn egwyddor yn 21/22 i drosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC. Roedd y rheswm strategol cyffredinol i drosglwyddo yn deillio o'r gydberthynas mewn aelodaeth rhwng y Bwrdd Uchelgais a'r CBC ac aelodaeth y CBC, y dymuniad i osgoi gormodedd o gyrff rhanbarthol sydd â swyddogaethau tebyg, a'r amrywiol fanteision ac effeithlonrwydd cyfreithiol a gweithredol o gael y CBC yn gweithredu fel ei endid corfforedig ei hun.

12. Fel rhan o GA2 mabwysiadwyd Protocol Craffu a oedd yn darparu fframwaith ar gyfer craffu gwaith y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau'n cael eu darparu'n rheolaidd a swyddogion y BUE yn mynychu cyfarfodydd craffu. Oherwydd, yn wahanol i'r CBC y gallai penderfyniadau'r BUE gael eu "galw i mewn", cytunwyd ar broses hefyd i reoli'r posibilrwydd o benderfyniadau niferus yn cael eu galw i mewn. Mewn gwirionedd, nid yw'r un o benderfyniadau'r BUE wedi cael eu galw i mewn. Roedd y trefniant hwn yn bosibl oherwydd cwmpas cul swyddogaethau'r BUE a oedd wedi'u cyfyngu i les a datblygiad economaidd ac yn ymarferol yn cynnwys un pwyllgor craffu o bob Cyngor. Mae angen ystyried y gwaith o graffu'r CBC, gyda'i ystod o swyddogaethau sy'n datblygu, mewn cyd-destun gwahanol. Byddai'r model arfaethedig o CBTCh mewn gwirionedd yn galluogi dull craffu mwy rhagweithiol a pherthynas agosach rhwng y swyddogaeth graffu a'r CBC

Dylid pwysleisio hefyd nad yw'r model arfaethedig yn dileu pwerau statudol pwyllgorau craffu unigol y Cynghorau cyfansoddol, lle bo hynny'n briodol, i alw ar y CBC i gyfrannu at ac ymateb i adroddiad neu argymhellion ffurfiol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y Rheolau Sefydlog.

**Rheolau Sefydlog**

13. Paratowyd set arfaethedig o Reolau Sefydlog o fewn y Cylch Gorchwyl ar gyfer y CBTCh a'r rhain fyddai'n ffurfio'r cytundeb i sefydlu'r CBTCh.

**Crynodeb**

14. Mae angen cydnabod bod creu'r CBC yn golygu newid o ran partneru rhanbarthol o drefniadau'r Cyd-bwyllgor presennol. Gellir hefyd tybio y bydd ei rôl yn gweld amlygrwydd cynyddol ac mae'n debyg y bydd ei swyddogaethau neu dasgau yn ehangu. Bydd hefyd yn datblygu ei drefniadau llywodraethu a rheoli ei hun ar wahân. Felly, mae risgiau ynghlwm wrth dybio y gellir trawsblannu trefniadau presennol y Bwrdd Uchelgais Economaidd neu GwE i'r amgylchedd newydd hwn a chyflawni lefel briodol o her a chraffu. Mae craffu yno i roi sicrwydd i'r Awdurdodau Cyfansoddol a'r CBC ei hun ei fod yn arfer ei swyddogaethau'n gywir. Pa bynnag gorff neu gyrff sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon, bydd angen iddynt gael lefel o ddealltwriaeth a gwybodaeth am y sefydliad y maent yn ei graffu, ei waith, risgiau a'r rhyngberthynas gyda'u Cynghorau eu hunain.

15. Mae angen cofio am y canllaw statudol hefyd a'r model CBTCh sy'n cael ei argymell. Er bod rhanbarthau eraill hefyd wedi dilyn y trywydd CBTCh, er bod modelau gwahanol, y duedd yw rhagdybiaeth o blaid y CBTCh.

16. Byddai angen i CBTCh gynnal perthynas â'i Gynghorau a'i awdurdodau cyfansoddol. Byddai'n gweithredu fel eu corff cynrychioliadol ac ni ddylai fod yn gweithredu fel endid cwbl annibynnol. Byddai'n cael ei ystyried yn rhan o'i gylch gorchwyl fel un sydd â rôl cadw porth rhanbarthol yn natblygiad y CBC a'i swyddogaethau yn y dyfodol. Byddai hyn yn cael ei ymgorffori yn ei gylch gorchwyl. Ar faterion lleol penodol byddai pwyllgorau craffu "cartref" yn dal i fod â'r gallu i graffu'r CBC. Fodd bynnag, mae'n faes allweddol fel mae'r Canllawiau yn awgrymu ar gyfer cynnal y berthynas ddemocrataidd gyda'r awdurdodau cartref. Fodd bynnag, mae risg bod hyn hefyd yn anwybyddu'r pwynt fod y CBC, yn wahanol i Gyd-bwyllgorau traddodiadol, yn gorfforaeth ar wahân y mae angen iddi ddatblygu a chynnal perthynas gyda'i Chynghorau a sefydliadau partner mewn ffordd wahanol. Mae craffu yn elfen allweddol o'r trefniant hwnnw a bydd y CBC yn gweithio'n agos gyda'i Gynghorau Cyfansoddol a phartneriaid eraill drwy sianeli eraill. Mae hynny ynddo'i hun yn tynnu sylw at yr angen i Graffu gael ei wneud o sefyllfa o wybodaeth a dealltwriaeth o'r sefydliad y mae ganddo drosolwg ohono.

**Sylwadau Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad

**Swyddog Cyllid**

"Fel mae'r adroddiad yn nodi, ni fydd gweithredu'r Penderfyniad a Geisir yn gost niwtral a bydd ymrwymiad ychwanegol o adnoddau yn creu peth cost ar yr awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae cyflwyno'r trefniadau hyn yn rhan greiddiol o gynnal strwythur llywodraethu'r Cydbwyllgor Corfforaethol ac er mwyn cynnal lefel briodol o Drosolwg a Chraffu bydd rhaid wynebu'r costau hyn.

**Penderfyniad a Geisir**

1. **Sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gyda'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad 1.**
2. **Cytuno bod pwerau Pwyllgorau Craffu lleol y darperir ar eu cyfer o dan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 yn cael eu cadw**
3. **Cytuno y bydd cydbwysedd gwleidyddol enwebeion Cyngor Gwynedd i'r pwyllgor trosolwg a chraffu ar y cyd (CBTcH) yn adlewyrchu aelodaeth Cyngor Gwynedd yn hytrach nag chyfanswm aelodaeth holl gynghorau Gogledd Cymru .**
4. **Cytuno y bydd yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei ddarparu gan y CBC yn unol â'r Cylch Gorchwyl**

**Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu**

## Cylch Gorchwyl DRAFFT

1. Darpariaethau Statudol
2. Enw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
3. Diben y Cyd-bwyllgor Craffu (CBTCh)
4. Canlyniad(au) arfaethedig y cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu
5. Aelodaeth Aelod Etholedig (Cynghorwyr)
6. Cworwm
7. Aelodau Cyfetholedig
8. Terfynu / atal aelodaeth
9. Hawliau pleidleisio
10. Is-bwyllgorau'r CBTCh
11. Cydbwysedd Gwleidyddol
12. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd
13. Mynediad i gyfarfodydd a dogfennau ac ati
14. Cyfarfodydd y CBTCh
15. Rhaglen waith (Blaengynllun)
16. Rheolau mynediad at wybodaeth
17. Rheolau Gweithdrefnau
18. Datganiadau o Fuddiant
19. Cyfrinachedd Gwybodaeth
20. Trefniadau gweinyddol
21. Gweithdrefnau cyfarfodydd CBTCh (gan gynnwys is-bwyllgorau)
22. Ymateb i argymhellion y CBTCh
23. Casglu Tystiolaeth
24. Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 - Rheoliadau 8 a 9
25. Gosod y rhaglen
26. Cyfeirio materion at gyd-bwyllgor trosolwg a chraffu, ac ati
27. Hyfforddiant a Datblygiad
28. Treuliau, Lwfansau a Chyflogau
29. Lleoliad / amser cyfarfodydd

# Cylch Gorchwyl

**1. <u>Darpariaethau Statudol.</u>**

a) Mae'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (CBTCh) wedi'i sefydlu yn unol â'r ddeddfwriaeth a ganlyn:-

- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (A 58 – Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu)
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Cyd) (Cymru) 2013.
- Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022

b) Bydd ymddygiad y CBTCh a'r trefniadau ar gyfer craffu ar y cyd yn ddarostyngedig i'r darpariaethau deddfwriaethol yn a) uchod, ynghyd ag unrhyw reoliadau neu ganllawiau a wneir yn unol â'r ddeddfwriaeth; ac yn achos unrhyw wrthdaro rhwng y Ddeddf a/neu'r Rheoliadau ac unrhyw drefniadau ar y cyd, gofynion y ddeddfwriaeth fydd yn gorbwyso.

**2. <u>Enw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu</u>**

(a) Yr Awdurdodau Penodi ("Awdurdodau Penodi") yw -

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Cyngor Sir Ddinbych;
- Cyngor Bwrdeistref Sir y Fflint;
- Cyngor Gwynedd;
- Cyngor Sir Ynys Môn;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;

(b) Teitl y CBTCh rhwng y chwe Awdurdod Penodi fydd "Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd" *(sef y CBTCh at ddiben y ddogfen hon).*

**3. <u>Diben y Cyd-bwyllgor Craffu (CBTCh)</u>**

(a) Amcan cyffredinol y CBTCh yw craffu ar effeithiolrwydd cyffredinol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (y CBC).

(b) Swyddogaethau craidd y CBTCh yw:-

- Adolygu neu graffu'r penderfyniadau neu gamau gweithredu eraill a wneir mewn perthynas â chyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb y CBC (nid "galw i mewn");
- Llunio adroddiadau neu argymhellion i'r CBC mewn perthynas â chyflawni neu cynnig i gyflawniunrhyw swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb y CBC, i gynnwys craffu cyn gwneud penderfyniad;
- Llunio adroddiadau neu argymhellion i'r CBC ar faterion sy'n effeithio ar y CBC.

- Byddai angen cytuno ar ei gylch cyfarfodydd yn ogystal â'r gefnogaeth angenrheidiol a'r rhaglenni gwaith ac ati.

(c) Mae cylch gorchwyl y CBTCh yn cynnwys dim ond gweithgareddau'r CBC fel partneriaeth, ac nid yw'n cynnwys craffu'r sefydliadau partner unigol (gweler hefyd baragraff 5).

**4. <u>Canlyniad(au) arfaethedig y cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu</u>**

a) Sicrhau bod y CBTCh yn cyflawni'r buddion a ganlyn:-

- **Herio effeithiol** i'r CBC a sicrhau ei fod yn cyflawni'r amcanion a ddymunir.
- **mae'r y ffocws ar ddeilliannau i bobl nid i sefydliadau** : newid y persbectif o fewnbynnau i gyflawni canlyniadau;
- **y CBTCh yn gweithio fel grym i uno**: cynorthwyo'r awdurdodau penodi i fynd i'r afael â gwneud penderfyniadau rhanbarthol ar draws gwahanol ffiniau gwleidyddol, sefydliadol a daearyddol;
- **Atebolrwydd**: darparu adolygiad amserol mewn perthynas â swyddogaethau'r CBC.
- **Effeithlonrwydd**: uchafu adnoddau;
- **Arloesedd**: adnabod mewnwelediad a datrysiadau newydd.

(b) Bydd y Cyd-bwyllgor Craffu yn paratoi adroddiad blynyddol ar gynnydd ei waith a'i allbynnau, i'w anfon at Bennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yr Awdurdodau Penodi ddim hwyrach na 31 Gorffennaf mewn unrhyw flwyddyn**.**

**5. <u>Aelodaeth Aelod Etholedig (Cynghorwyr)</u>**

a) Bydd nifer cyfartal o Aelodau Etholedig o bob awdurdod penodi a ni chaniateir i aelodau gweithredol fod yn aelodau o'r pwyllgor.

b) Bydd y CBTCh yn cynnwys 12 Aelod Etholedig; sef dau Aelod Etholedig an-weithredol o bob Cyngor Cyfansoddol.

c) Bydd bob awdurdod lleol yn penderfynu ac yn enwebu ei Aelodau Etholedig ar gyfer y Pwyllgor yn unol â'i drefniadau ei hun. Bydd tymor gwasanaeth yr Aelodau Etholedig a enwebir yn fater i bob awdurdod lleol sy'n enwebu, yn amodol ar leiafswm hyd tymor o un flwyddyn fwrdeistrefol.

d) Bydd gan bob Aelod Etholedig swyddogaeth allweddol i adrodd yn ôl i'r Awdurdod Penodi am y craffu a wnaed a'r allbynnau.

**6. <u>Cworwm</u>**

a) Bydd angen cworwm o draean yr Aelodau Etholedig y CBTCh er mwyn galluogi cyfarfod i fwrw ymlaen.

b) Bydd presenoldeb yn cynnwys presenoldeb drwy ddarpariaeth electroneg sydd yn caniatáu i'r aelod glywed a siarad yn y cyfarfod.

c) Ni fydd unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth dechnolegol (pa un ai yw hynny'n arwain at golli cysylltiad yn llwyr neu'n rhannol) yn annilysu unrhyw ran o'r trafodaethau nac yn amharu ar unrhyw bleidlais a gymerir. Caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod os yw o'r farn fod hynny'n briodol.

## 7. Aelodau Cyfetholedig

a) Gall y CBTCh wahodd aelodau ychwanegol i wasanaethu ar y CBTCh neu is-bwyllgor fel aelodau cyfetholedig yn amodol ar:-

- gymeradwyo'r penodiad gan fwyafrif aelodau'r CBTCh
- nid oes hawl gan yr unigolyn a gyfetholwyd i wasanaethu ar y CBTCh, neu ar is-bwyllgor, i bleidleisio mewn unrhyw gyfarfod o'r CBTCh neu is-bwyllgor ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu yn y cyfarfod hwnnw.
- nad yw'r unigolyn yn aelod etholedig o awdurdod lleol, p'un a yw'r awdurdod hwnnw yn un o'r awdurdodau penodi ai peidio.
- aelodaeth yr unigolyn a gyfetholwyd i wasanaethu ar y CBTCh, neu ar is-bwyllgor pwyllgor o'r fath, yn cael ei dynnu'n ôl gan bleidlais fwyafrifol ar unrhyw adeg gan y CBTCh neu'r is-bwyllgor.
- nad yw nifer yr aelodau cyfetholedig ar y CBTCh yn fwy na nifer yr aelodau etholedig sy'n eistedd ar y CBTCh.

## 8. Terfynu / atal aelodaeth

a) Os yw Aelod Etholedig a benodir i'r CBTCh yn peidio â bod yn aelod o'r Awdurdod Penodi, yna bydd yr unigolyn hwnnw hefyd yn peidio â bod yn aelod o'r CBTCh ar unwaith.

b) Os yw unigolyn a benodir yn aelod o CBTCh yn cael ei atal rhag bod yn aelod neu aelod cyfetholedig o un o'r Awdurdodau Penodi, ni chaiff y person hwnnw wasanaethu fel aelod o'r CBTCh am gyfnod yr ataliad.

c) Os yw aelod cyfetholedig a benodir i'r CBTCh yn peidio â bod yn gyflogai/aelod o'r sefydliad y penodwyd ohono, yna bydd yr unigolyn hwnnw yn peidio â bod yn aelod o'r CBTCh ar unwaith.

## 9. Hawliau pleidleisio

a) Gall pob Aelod Etholedig bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd wedi'i raglennu i'w benderfynu yn y cyfarfod hwnnw

b) Lle mae pleidlais gyfartal mewn cyfarfod o CBTCh neu is-bwyllgor, mae gan y cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

c) Nid oes gan berson a gyfetholwyd i wasanaethu ar y CBTCh neu ar unrhyw is-bwyllgor hawl i bleidleisio mewn unrhyw gyfarfod o'r CBTCh neu is-bwyllgor ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu yn y cyfarfod hwnnw (gweler yr Aelodau Cyfetholedig uchod).

## 10. Is-bwyllgorau'r CBTCh

a) Gall y CBTCh sefydlu is-bwyllgorau er mwyn gweithredu mewn modd symlach a may hyblyg i ymgymryd â'i swyddogaethau statudol.

b) Bydd unrhyw is-bwyllgorau a benodir gan y CBTCh yn cynnwys o leiaf bedwar Aelod Etholedig, ynghyd ag unrhyw aelodau cyfetholedig fel y cytunwyd wrth sefydlu'r is-bwyllgor. Ni ddylai nifer yr aelodau cyfetholedig ar yr is-bwyllgor fod yn fwy na nifer yr aelodau etholedig sy'n eistedd.

c) Bydd is-bwyllgor yn cynnwys nifer cyfartal o Aelodau Etholedig o bob un o'r awdurdodau sy'n penodi.



d) Mae unrhyw adroddiad neu argymhellion a wneir gan is-bwyllgor'r CBTCh yn amodol ar gymeradwyaeth drwy benderfyniad y CBTCh.

e) Dim ond y swyddogaethau a roddir iddo gan y CBTCh y gall is-bwyllgor eu harfer.

**11. Cydbwysedd Gwleidyddol**

a) Rhaid i bob Awdurdod Penodi sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bod aelodau'r CBTCh yn adlewyrchu cydbwysedd cyfredol y grwpiau gwleidyddol ymhlith aelodau'r Awdurdod Penodi.

**12. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

a) Rhaid i CBTCh benodi cadeirydd y pwyllgor o blith ei aelodaeth Aelodau Etholedig.

b) Caiff CBTCh benodi is-gadeirydd o blith ei aelodaeth Aelod Etholedig.

c) Bydd y Cadeirydd yn cael ei benodi o blith ei aelodaeth Aelodau Etholedig ar sail cylchdro blynyddol, a daw'r is-gadeirydd (os penodir un) o'r Awdurdod a drefnwyd i fod y nesaf i ddal swyddogaeth y Cadeirydd.

d) Rhaid i unrhyw is-bwyllgor benodi cadeirydd, a gall benodi is-gadeirydd, o blith ei aelodaeth Aelodau Etholedig.

**13. Mynediad i gyfarfodydd a dogfennau ac ati**

a) Caiff y CBTCh, neu is-bwyllgor, ei drin fel pwyllgor neu is-bwyllgor prif gyngor at ddibenion Rhan VA Deddf Llywodraeth Leol 1972 (mynediad i gyfarfodydd a dogfennau rhai awdurdodau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau).

**14. Cyfarfodydd y CBTCh**

a) Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter, gyda rhaglen o ddyddiadau cyfarfodydd i'w chylchredeg a chytuno arni ar ddechrau bob blwyddyn ariannol. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol os bydd 50% o'r Aelodau Etholedig yn admabod yr angen.

**15. Rhaglen waith (Blaengynllun)**

a) Mewn ymgynghoriad â'r CBC, dylai'r CBTCh gytuno ar flaengynllun i nodi pa faterion y mae'r CBTCh yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn.

b) Dylai'r blaengynllun nodi rhesymau clir dros ystyried pwnc penodol, a'r dulliau o'i ymchwilio.

c) Rhaid i'r CBTCh roi sylw i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r canllawiau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgysylltu â'r cyhoedd.

d) Rhaid i'r CBTCh ymgynghori â'r CBC ynghyd a’r awdurodau penodi ar y Blaengynllun arfaethedig

**16. Rheolau mynediad at wybodaeth**

a) Bydd cyfarfodydd y CBTCh yn ddarostyngedig i'r un rheolau mynediad at wybodaeth â chyfarfodydd cyhoeddus eraill y cynghorau.

b) Bydd y Cadeirydd yn cadw at reolau mynediad at wybodaeth yr Awdurdod y mae'n perthyn iddo.

**17. Rheolau Gweithdrefnau**

a) Rhaid i aelodau'r CBTCh a'r cyhoedd barchu'r Cadeirydd, sydd â'r awdurdod i benderfynu ar unrhyw reolau gweithdrefnol yn ystod cyfarfodydd y CBTCh.

b) Bydd y Cadeirydd yn cadw at reolau gweithdrefnol yr Awdurdod y mae'n perthyn iddo.

**18. Datganiadau o Fuddiant**

a) Rhaid i'r bob Aelod Etholedig gadw at y Cod Ymddygiad sydd mewn grym yn yrr Awdurdod y mae'n aelod ohono, a rhaid i aelodau cyfetholedig lynu at y Cod Ymddygiad sy'n weithredol adeg eu penodi yn Awdurdod Cadeirydd y CBTCh.

b) Rhaid i aelodau'r CBTCh ddatgan unrhyw fuddiant yn ystod cyfarfodydd y CBTCh (a gadael y cyfarfod os bydd angen) yn unol â'r paragraff uchod.

**19. Cyfrinachedd Gwybodaeth**

(a) Yn unol â Chod Ymddygiad yr Awdurdod sy'n berthnasol i'r Aelodau, rhaid i aelodau (Etholedig a Chyfetholedig) y CBTCh beidio â datgelu unrhyw wybodaeth yr ystyrir ei bod yn eithriedig yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

b) Y Swyddog Priodol ar gyfer y CBTCh fydd ??

**20. Trefniadau gweinyddol**

a) Bydd swyddogaeth yr ysgrifenyddiaeth yn cael ei ddarparu gan y CBC. Mae'r swyddogaeth yn cynnwys:

- Trefnu cyfarfodydd rheolaidd o'r CBTCh - cyfarfodydd i'w cynnal o fewn amserlen briodol yn dilyn cyfarfodydd y CBC a'i Is-bwyllgorau
- Paratoi rhaglenni a chomisiynu papurau ar gyfer cyfarfodydd - Paratoi rhaglenni a phapurau comisiynu a'u dosbarthu yn amserol.
- Gwahodd cyfranogwyr
- Rheoli presenoldeb
- Darparu lleoliadau cyfarfod
- Cymryd cofnodion

b) Darperir cefnogaeth broffesiynol ar gyfer y CBTCh gan yr awdrudodau penodi .

**21. Gweithdrefnau cyfarfodydd CBTCh (gan gynnwys is-bwyllgorau)**

a) Bydd prif eitemau'r rhaglen yn cael eu hadnabod yn y cyfarfod blaenorol yn unol â'r rhaglen waith y cytunwyd arni. Ar yr adeg hon, dylid rhoi ystyrieath i dystion posib a themâu cyffredinol.

b) Cyn y cyfarfod, dylai pob Aelod o'r CBTCh fod yn weithredol wrth godi a thrafod cwestiynau arfaethedig dros e-bost. Bydd Cadeirydd y CBTCh yn hwyluso'r broses hon.

c) Cynhelir cyfarfod ymlaen llaw ar gyfer holl Aelodau'r CBTCh am 30 munud yn union cyn pob cyfarfod CBTCh. Y pwrpas yw sicrhau bod aelodau yn gwbl barod ar gyfer cyfarfod y CBTCh a bod y strategaeth holi yn glir.

d) Yn ystod y cyfarfod, Cadeirydd y CBTCh fydd yn gyfrifol am sicrhau bod cwestiynu yn effeithiol a bod y CBTCh yn cyflawni ei amcan.

e) Ni ddisgwylir i'r rhai a wahoddir i fod yn bresennol ar gyfer eitem benodol ar y rhaglen aros drwy gydol y cyfarfod.

f) Ar ddiwedd y cyfarfod, gofynnir i dystion adael er mwyn caniatáu i Aelodau'r CBTCh drafod eu casgliadau ac unrhyw argymhellion sy'n codi o'r cyfarfod. ~~Bydd y casgliadau a'r argymhellion hyn yn cael eu hadrodd i'r BGC ac Aelod(au) Cabinet perthnasol ar ffurf Llythyr Cadeiryddion~~. Dylai'r rhan hon o'r cyfarfod adolygu effeithiolrwydd y cyfarfod a nodi ffyrdd o wella cyfarfodydd yn y dyfodol.

**22. Ymateb i argymhellion y CBTCh**

a) Bydd y CBTCh yn cytuno ar ddeilliannau ei gyfarfodydd ac yn manylu ar y casgliadau ac unrhyw argymhellion sy'n codi o gyfarfod CBTCh.

b) Pan fo mae argymhellion wedi'u gwneud i'r CBC byddai disgwyl ymateb ysgrifenedig o fewn dau fis, gan nodi a yw'r argymhelliad wedi'i dderbyn a pha gamau (os o gwbl) a gymerir mewn ymateb.

**23. Casglu Tystiolaeth**

a) Mae gan y CBTCh hawl i gasglu tystiolaeth mewn perthynas ag unrhyw adolygiad neu ymchwiliad y mae'n ymgymryd ag ef fel rhan o'r cynllun gwaith y cytunwyd arno.

b) Bydd y CBTCh yn mabwysiadu dulliau o gasglu tystiolaeth i gyfrannu at ei drafodaethau. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, grwpiau gorchwyl a gorffen, cynnal ymholiadau, ymweliadau safle, arolygon cyhoeddus, cyfarfodydd cyhoeddus, comisiynu ymchwil, clywed gan dystion a phenodi cynghorwyr ac aseswyr. Mae gwybodaeth yr Aelodau hefyd yn ffynhonnell dystiolaeth werthfawr a dylid ei hystyried fel rhan o bob ymchwiliad.

**24. Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 - Rheoliadau 8 a 9**

a) Heb ragfarnu hawl unrhyw Bwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol Awdurdod Penodi o dan Reoliad 8 y CBTCh pan fo'n bwriadu gwneud adroddiad neu argymhellion i Awdurdod(au) Penodi neu weithrediaeth Awdurdod(au) Penodi ar faterion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu drigolion yr ardal honno a lle bo'r adroddiad neu'r argymhellion yn ymwneud ag arfer swyddogaeth y CBC:

- Rhaid i'r CBC gydweithredu â'r CBTCh a darparu cymorth rhesymol iddo ar gais sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau.
- Gall cymorth a ddarperir o dan baragraff (2) gynnwys—

  - trefnu i aelod o'r CBC fynychu ac ateb cwestiynau mewn cyfarfod o'r pwyllgor;

  - trefnu i aelod o staff y CBC fynychu ac ateb cwestiynau mewn cyfarfod o'r pwyllgor;

  - darparu gwybodaeth.

  - darparu copïau o ddogfennau ym meddiant neu o dan reolaeth y CBC

b) Pan fo'r CBTCh yn cyhoeddi adroddiad neu argymhelliad yn ffurfiol yn unol ag Adran 21B(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 neu reoliad 13(2) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013 rhaid i'r CBC:



- ystyried yr adroddiad neu'r argymhelliad, a

- chyn diwedd cyfnod o 2 fis sy'n dechrau ar ddiwrnod cyhoeddi'r adroddiad gan y pwyllgor, gyhoeddi datganiad yn nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r adroddiad neu'r argymhelliad wrth arfer ei swyddogaethau.

**25. Gosod y rhaglen**

a) Bydd eitemau unigol ar y rhaglen, ac eithrio eitemau sefydlog, i'w penderfynu yn y lle cyntaf gan y Rhaglen Waith sydd i'w sefydlu a'i chytuno gan y CBTCh. Bydd y penderfyniad i ystyried eitemau ychwanegol neu ohirio eitemau sydd wedi'u cynllunio yn fater i ddisgresiwn y Cadeirydd.

b) Bydd unrhyw fater sy'n cael ei gyfeirio at y CBTCh neu is-bwyllgor gan unrhyw aelod o'r CBTCh neu is-bwyllgor yn cael ei gynnwys ar y rhaglen, a'i drafod mewn cyfarfod o'r CBTCh neu'r is-bwyllgor perthnasol. Gweler "Cyfeirio materion at gyd-bwyllgor trosolwg a chraffu, ac ati" isod

**26. Cyfeirio materion at gyd-bwyllgor trosolwg a chraffu, ac ati**

a) Gall unrhyw aelod o'r CBTCh gyfeirio unrhyw fater sy'n berthnasol i'w swyddogaethau at y pwyllgor.

b) Gall unrhyw aelod o is-bwyllgor y CBTCh gyfeirio unrhyw fater sy'n berthnasol i'w swyddogaethau at y pwyllgor.

c) Gall unrhyw aelod o unrhyw un o'r awdurdodau penodi gyfeirio i'r CBTCh unrhyw fater llywodraeth leol sy'n berthnasol i swyddogaethau'r CBTCh.

d) Bydd unrhyw gyfeiriad yn unol ag a) i c) uchod yn cael ei gynnwys ar y rhaglen, i'w drafod mewn cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

e) Pan fo'r CBTCh yn gwneud adroddiad neu argymhellion mewn perthynas â mater y cyfeirir ato gan aelod, rhaid darparu copi o'r adroddiad neu'r argymhellion i'r aelod dan sylw.

**27. Hyfforddiant a Datblygiad**

a) Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i aelodau'r CBTCh yn ôl yr angen / pan fo'n briodol.

**28. Treuliau, Lwfansau a Chyflogau**

a) Ni fydd y CBTCh yn gyfrifol am, nac yn talu unrhyw gostau neu lwfansau.

b) Mae cydnabyddiaeth ariannol Cadeirydd y CBTCh (neu Is-bwyllgor o'r CBTCh) yn fater i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a'r awdurdodau lleol cyfansoddol sy'n gyfrifol am benderfynu a fydd swydd o'r fath yn cael ei thalu.

c) Bydd angen i'r holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig wneud cais i'w Hawdurdod neu Sefydliad penodol am unrhyw daliad o dreuliau, ac ati.

**29. Lleoliad / amser cyfarfodydd**

a) Bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (JOSC) yn cynnal pob cyfarfod yn rhithiol.Bydd y pwyllgor yn defnyddio llwyfannau digidol diogel a dibynadwy sy'n galluogi cyfranogiad yn unol â Deddf 2021,

b) Bydd dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd yn cael eu cyfleu ymlaen llaw fel rhan o galendr cyfarfodydd blynyddol y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.. .

c) Darperir cymorth technegol ac arweiniad priodol i aelodau'r pwyllgor i gefnogi eu defnydd o lwyfannau cyfarfodydd rhithwir, gan gynnwys sesiynau briffio technegol cyn cyfarfod a chymorth ar alwad yn ystod cyfarfodydd, os oes angen.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **6 Mawrth 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Arolygon Cymunedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Fod y Cyngor yn cymeradwyo Cynigion Drafft dan adrannau 25 a 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013 er mwyn ymgynghori arnynt** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng Llio Elenid Owen** |
| **AWDUR** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |

**Cefndir**

1. Ar 7 Mawrth 2024 cymeradwyodd y Cyngor gynnal arolygon cymunedol o dan adrannau 25 a 31 Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013 ('y Ddeddf'). Adroddir yn ôl ar ganlyniad y cyfnod ymgynhori ac ymchwilio cychwynnol gan gyflwyno argymhellion drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus pellach.

**Beth yw Cymuned?**

2. At ddibenion yr adroddiad hwn, uned llywodraeth leol islaw lefel cyngor sir neu fwrdeistref sirol (y 'prif gyngor') yw 'cymuned'. Mae ardaloedd cymunedol yn gorchuddio Cymru gyfan. Mae ardal Gwynedd wedi ei rhannu'n 64 cymuned, gyda chyngor cymuned, tref neu ddinas etholedig yn gwasanaethu pob un. Yn y cyd-destun hwn yr un yw statws cyfreithiol y cynghorau beth bynnag y'i gelwir, h.y. maent i gyd yn cael eu hystyried yn 'gynghorau cymuned'. Gall cymunedau yn eu tro gael eu rhannu'n wardiau at ddibenion etholiadol ond nid yw hyn yn anorfod, ac nid yw pob cymuned yng Ngwynedd wedi eu rhannu'n wardiau.

**Beth yw Rôl y Cyngor?**

3. Fel prif gyngor mae dyletswydd statudol ar Gyngor Gwynedd, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i fonitro'r cymunedau o fewn y sir, a threfniadau etholiadol y cymunedau hynny. Rhaid iddo hefyd gynnal 'arolygon cymunedol' pan fo'r Ddeddf yn mynnu, neu pan fydd yn ystyried bod hynny'n briodol. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn rhaid i'r Cyngor o hyd geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

**Beth yw Arolwg Cymunedol?**

4. Mae hyn yn golygu fod y prif gyngor yn edrych ar ffiniau cymunedau a/neu'r trefniadau etholiadol fewn y cymunedau. Mae dau fath o arolwg cymunedol y dylai'r Cyngor ystyried eu cynnal felly:

a. **Arolwg o ffiniau cymunedau (o dan adran 25 o'r Ddeddf)**

Arolwg o ffiniau un neu fwy o gymunedau i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu hunaniaeth yr ardal dan sylw ac yn hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir argymell newidiadau i ffiniau cymunedau, sy'n cynnwys newidiadau i ffin cymuned bresennol, neu ddiddymu cymuned bresennol a chreu cymuned newydd. Cyflwynir yr argymhellion i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, sydd â'r hawl i wneud y gorchymyn fyddai'n dod a'r newidiadau i rym.

b. **Arolwg o'r trefniadau etholiadol (o dan adran 31 o'r Ddeddf)**

Mae hyn yn golygu edrych ar y trefniadau etholiadol o fewn cymuned benodol sef, yn gryno, y sefyllfa o safbwynt wardiau a nifer y cynghorwyr. Y Cyngor fyddai'n gwneud y gorchymyn i ddod â'r newidiadau yma i rym.

**Y Broses ac Amserlen**

5. Mae'r broses statudol y mae'n rhaid ei dilyn wrth gynnal arolwg cymunedol yr un fath, i raddau helaeth, ar gyfer y ddau fath o arolwg cymunedol. Dim ond o ran y canlyniad yr arolwg, a'i weithredu, y mae'n wahanol. Gan y Cyngor mae'r grym i wneud gorchymyn i weithredu newidiadau i drefniadau etholiadol cymunedau ond bydd rhaid cyflwyno argymhellion i'r Comisiwn, fel yr awdurdod gweithredu, i wneud unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned.

6. Mae’r Ddeddf yn gosod pedwar cam hanfodol i’r broses:

- Cyhoeddusrwydd cychwynnol
- Ymchwiliad ac ymgynghoriad cychwynnol - diben y cam hwn yw galluogi prif gyngor i gasglu’r wybodaeth y bydd arno ei hangen wrth ystyried a pharatoi unrhyw gynigion ar gyfer newid)
- Cynigion drafft (ac ymgynghoriad ar y cynigion hynny); ac
- Argymhellion Terfynol

7. Ar 7 Mawrth 2024 cymeradwyodd y Cyngor gynnal arolygon cymunedol o dan adrannau 25 a 31 y Ddeddf ynghyd â chylch gorchwyl ac amserlen. Oherwydd i Etholiad Cyffredinol y DU gael ei alw ar fyr rybudd ym mis Mehefin 2024 nid oedd modd bwrw mlaen gyda’r ymchwiliad a’r ymgynghoriad cychwynnol fel y bwriadwyd a bu raid addasu’r amserlen fel canlyniad . Mae’r amserlen ddiwygiedig isod.

**Amserlen Ddiwygiedig**

| Cam | Cam Gweithredu | Dyddiad |
|---|---|---|
| Cymeradwyo cynnal Arolwg | Y Cyngor yn cymeradwyo egwyddor yr Arolwg Cymunedol a'i Gylch Gorchwyl. | |
| Cyhoeddusrwydd Cychwynnol ac Ymgynghoriad 1 | Cynnal cyhoeddusrwydd cychwynnol a chyhoeddi cylch gwaith.<br>Dechrau Cyfnod ymgynghori o chwe wythnos ar y Cylch Gwaith yn dechrau gyda chyhoeddi Cylch Gorchwyl yr Adolygiad. | 11/11/24 |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus yn dod i ben | | 20/12/24 |
| Ystyried y sylwadau a pharatoi Cynigion Drafft | | Ionawr/Chwefror 2025 |
| Cymeradwyo Cynigion Drafft | Cynigion Drafft i’w hystyried gan y Cyngor a’u cymeradwyo ar gyfer ymgynghori pellach | Cyngor Llawn 6 Mawrth 2025 |
| Ymgynghoriad 2 | Cyhoeddi’r adroddiad yn unol â gofynion y Ddeddf a gwahodd sylwadau gan yr ymgynghorai gorfodol a budd-ddeiliad perthnasol eraill (8 wythnos) | Mawrth /Ebrill 2025 |

| | | |
|---|---|---|
| Ystyried y sylwadau a pharatoi adroddiad terfynol i'r Cyngor Llawn | Cyngor i benderfynu ar yr argymhellion terfynol | Cyngor Llawn Gorffennaf 2025 |
| Cyhoeddi argymhellion terfynol fel y cytunwyd | Cyhoeddi'r Adroddiad terfynol<br>(1) Gwneud y Gorchymyn ar gyfer yr Arolwg adran 31 (6 wythnos ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol)<br>(2) Cyflwyno argymhellion Arolwg adran 25 i'r Comisiwn | Gorffennaf/Awst 2025 |
| Gorchmynion yn dod i rym | Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf | Mai 2027 |

**Ymatebion i Ymgynghoriad 1**

8. Derbyniwyd 7 ymateb i'r ymgynghoriad cychwynnol a cheir manylion yn **Atodiad 1**

**<u>Arolwg o Drefniadau Etholiadol (adran 31)</u>**

9. Cymeradwywyd y bwriad i edrych yn benodol ar y cwestiwn a ddylid rhannu cymunedau i wardiau cymunedol at ddibenion etholiadau i'r cyngor cymuned. Gwnaed hyn gan ystyried, yn unol ag adran 33 o'r Ddeddf, a yw nifer neu ddosbarthiad etholwyr y gymuned yn golygu y byddai un etholiad o gynghorwyr cymuned yn anymarferol neu'n anghyfleus, ac a yw'n ddymunol i unrhyw ran o'r gymuned gael ei chynrychioli ar wahân ar y cyngor cymuned.

10. O safbwynt gweinyddiaeth etholiad mae goblygiadau i fodolaeth wardiau o fewn cymuned lle, mewn etholiad, ceir mwy o ymgeiswyr nag o seddi mewn un ward, tra nad oes digon o ymgeiswyr i lenwi pob sedd mewn ward arall. Golyga hyn fod rhaid cynnal etholiad ar gyfer un ward er y ffaith, wrth edrych ar y cyngor cymuned yn ei gyfanrwydd, nad oes digon o ymgeiswyr i lenwi pob sedd. Yn ogystal â'r gost i'r cyngor cymuned o gynnal etholiad, gall gymhlethu'r broses o enwebu i'r cynghorau a'r swyddogion etholiadol .

11. Ffactor arall sydd wedi ei hystyried yw sefyllfa wardiau mewn perthynas â'r wardiau sirol. Mewn sefyllfa lle bydd wardiau cymunedol o fewn yr un ward sirol bydd rhagdybiaeth y dylid eu diddymu i geisio sicrhau cysondeb yn y broses etholiadol, oni bai bod rheswm arall dros eu cadw.

12. Wedi dweud hyn, mae'r broses yn gofyn am bwyso'r ystyriaethau yma yn erbyn unrhyw resymau penodol pam y byddai'n addas i ran o'r gymuned gael ei chynrychioli ar wahân ar y cyngor cymuned a bod felly gyfiawnhad dros gadw wardiau. Mae'r ymgynghoriad yn gyfle i gyflwyno rhesymau o'r fath fel y gellir eu hystyried.

**Y Cynigion Drafft – Arolwg o Drefniadau Etholiadol**

13. Mae'r Cynigion Drafft yn cael eu cyflwyno yn **Atodiad 2**. Maent wedi eu paratoi ar sail yr ystyriaethau uchod ynghyd ag unrhyw ymatebion a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Gwelir hefyd bod dau gynnig drafft i newid ffiniau wardiau o fewn cymunedau i'w gweld ar ffurf mapiau yn **Atodiad 3**

**Adolygiad Ffiniau (adran 25)**

14. Cymeradwywyd cynnal arolwg o ffiniau cymunedau penodol lle amlygir rheswm posib dros newid. Yn aml bydd hyn yn briodol yn sgil newidiadau fel datblygiadau tai newydd neu anghysondebau fel strydoedd neu eiddo sydd wedi eu gwahanu oddi wrth weddill eu cymuned naturiol. Y materion penodol oedd y canlynol.

- Llanllechid - ar hyn o bryd mae ffin y gymuned yn rhannu stad tai Llwyn Bedw gan olygu bod rhai tai yng nghymuned Bethesda. (Cyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Llanllechid).

- Y Felinheli – ar hyn o bryd mae nifer o eiddo sydd ar hyd Ffordd Heulyn ac o fewn pentref y Felinheli yng nghymuned Pentir yn hytrach na chymuned Y Felinheli. (Cyflwynwyd gan Gyngor Cymuned y Felinheli)

- Llanegryn - mae unigolyn preifat wedi cyflwyno cais i addasu ffin cymuned Llanegryn fel bod holl dir Fferm Rhydygarnedd yn dod o fewn y gymuned honno gan fod rhan wedi ei symud i gymuned Tywyn yn 1987.

- Llanelltyd a Ganllwyd - y byddai'n gwneud synnwyr i uno'r ddau gyngor gan greu un cyngor yn Nyffryn y Mawddach yn cwmpasu'r ardal o'r Ganllwyd i Bontddu. Nodwyd bod y ddwy ardal yn debyg iawn o bod yr un materion yn cael eu trafod. (Cyflwynywyd gan gynghorau cymuned Llanelltyd a Ganllwyd)

15. Ni chyflwynwyd mater ychwanegol sydd angen sylw o dan y broses hon mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

**Cynigion Drafft – Adolygiad Ffiniau**

16. Mae'r Cynigion Drafft wedi eu rhestri isod ac i'w gweld ar y mapiau sydd wedi eu cynnwys yn **Atodiad 3.**

- Trosglwyddo eiddo sydd ar hyd Ffordd Heulyn ac o fewn pentref y Felinheli o gymuned Pentir i gymuned y Felinheli

- Trosglwyddo y rhan hynny ystâd tai Llwyn Bedw sydd yng nghymuned Llanllechid i gymuned Bethesda fel bod y stad gyfan yng nghymuned Bethesda.

- Trosglwyddo tir o fferm Rhydygarnedd o gymuned Tywyn i gymuned Llanegryn fel bod yr holl eiddo o fewn cymuned Llanegryn

- Cyfuno cymunedau Llanelltyd a Ganllwyd i sefydlu cymuned newydd. Byddai'r cymunedau presennol yn cael eu diddymu gan sefydlu ardal gymuned a chyngor cymuned newydd. Fel canlyniad bydd angen ystyried os dylid rhannu'r gymuned newydd yn wardiau, nifer yr aelodau ac enw'r gymuned newydd.

  Mae canllawiau'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - 'Arweiniad i Brif Gynghorau ar Gynnal Arolygon Cymunedol' yn awgrymu, yng nghyd-destun cyfuno cymunedau - *"Oni bai bod ystyriaethau penodol yn awgrymu dull gwahanol, fe allai fod yn fwyaf priodol i wardiau'r gymuned newydd adlewyrchu ffiniau'r cymunedau blaenorol sydd wedi cael eu cyfuno."*

  Cynigir felly creu cymuned '*Dyffryn Mawddach'* yn cynnwys dwy ward sef wardiau '*Ganllwyd'* a *'Llanelltyd'* i gyd-fynd gydag ardaloedd daearyddol a nifer aelodau presennol y cymunedau fyddai'n cael eu cyfuno.

**Camau Nesaf**

17. Os bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r Cynigion Drafft, cyhoeddir Adroddiad Cynigion Drafft yn unol â gofynion y Ddeddf a rhoddir cyhoeddusrwydd i'r ffaith y gellir cyflwyno cynrychioliadau i'r awdurdod yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Fe'i hanfonir at yr ymgyngoreion a ragnodir yn y Ddeddf, sy'n cynnwys pawb a ymatebodd ar y cam rhagarweiniol. Yn ogystal â'r ymgyngoreon gorfodol byddwn yn ei anfon at y canlynol

- Y Cynghorau Cymuned
- Y Cynghorwyr Sir
- Aelodau o'r Senedd
- Aelodau Seneddol
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg

18. Bwriedir cynnal cyfnod ymgynghori o wyth wythnos (gall fod am gyfnod o rhwng 6-12 wythnos o dan y Ddeddf).

**Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

19. Nid welir fod unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Mae'r awdurdod yn cynnal adolygiad statudol penodol ar wahân o ardaloedd a gorsafoedd pleidleisio, sy'n cynnwys ystyriaethau hygyrchedd a mynediad. Fel rhan o'r broses honno mae'n rhaid i'r awdurdod, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol, ddynodi mannau sy'n hawdd i etholwyr sydd ag anableddau eu cyrraedd.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

20. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau lesiant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Bydd y Gwaith yn cael ei gynnal gan ddal sylw at y gofynion yma ac unol a'r 5 ffordd o weithio

**Yr Iaith Gymraeg**

21. Bydd unrhyw gynigion terfynol sydd â goblygiadau i enwau cymunedau neu wardiau yn cael eu ffurfio gan gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau neu gyngor a dderbynnir wrth Wasanaeth Democratiaeth ac Iaith y Cyngor a Chomisiynydd y Gymraeg.

**Argymhelliad**

22. Cymeradwyo'r Cynigon Drafft o dan adrannau 25 a 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus o dan adran 35(3) o'r Ddeddf.

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Mae'r prosiect yma wedi ei arwain gan y Gwasanaethau Cyfreithiol ac rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.

**Prif Swyddog Cyllid**

Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

## Atodiad 1

# Arolwg Cymuned 2024

Crynodeb o Ymatebion i Ymgynghoriad 1

**Cyngor Cymuned Llanddeiniolen**

Trigolion Fferm Pant y Buarth, Brynrefail, LL55 3PA eisiau pleidleisio yn ward Brynrefail yn hytrach na Deiniolen. Trigolion Caer Bythod, Clwt y bont, LL55 3DE eisiau pleidleisio yn Ward Deiniolen yn hytrach na Brynrefail.

**Cyngor Tref Abermaw**

Dim angen newidiadau.

**Cyngor Tref Caernarfon**

Nad yw'n gwneud synnwyr i uno cynghorau gan fod Caernarfon yn ardal drefol ac yn uned naturiol.

Byddai'n gall i gadw'r wardiau fel y maen nhw gan eu bod yn cyd-fynd a wardiau'r Cygor Sir. Os byddai trefn wardiau'r Cyngor Sir yn newid dyna fyddai'r adeg i ystyried wardiau'r Cyngor Tref.

Pwysleisio'r costau etholiadol ychwanegol all godi i'r Cyngor Tref petai ei wardiau ddim yng nghyd fynd gyda wardiau'r Cyngor Sir Ei bod hi'n bwysicach denu pobl i ymwneud a'r drefn democratiaeth yn lle ffidlan gyda ffiniau.

**Cyngor Cymuned Dolbenmaen:**

Byddai wedi bod yn fanteisiol i Gwynedd ofyn yn benodol set o gwestiynau i gynghorau cymuned ateb. Hefyd maent yn diffinio be olygir wrth gymuned ond ddim yn gwneud yr un peth ar gyfer wardiau.

Mae'n debygol os nad oes mater yn codi o ran ffiniau lleol yna ni fydd cynnig i wneud addasiad? Byddai cael safbwynt y cyngor wedi bod yn fuddiol i ysgogi trafodaeth? Hyd yn oed os mai'r bwriad yw cadw pob dim yr un peth. O ran nifer cynghorwyr yna eto oes ganddynt gynnig penodol i ni ystyried - byddai hynny wedi bod yn fuddiol."

**Gyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Talybont**

Yn dilyn cyfarfod diweddar o Gyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Thalybont trafodwyd yr arolwg uchod gan yr Aelodau a cytunwyd gofyn a fyddai modd gwaredu y ddwy ward sef ward Llanenddwyn a Llanddwywe a gwneud un ward a fyddai yn cael ei adnabod fel ward Dyffryn Ardudwy a Thalybont.

Y rheswm am hyn oedd bod yr Aelodau yn gweld bod rhai o Aelodau y Cyngor sydd yn cynrychioli ward Llanenddwyn yn byw yn ward Llanddwywe a ffordd arall rownd ag felly ddim yn gweld llawer o reswm i gael dwy ward erbyn hyn.

**Cyngor Tref Criccieth**

Mae Cyngor Tref Criccieth yn cadarnhau bod y Cyngor Tref yn hapus gyda'r ffin a'r drefn etholiadol yn y dref, i gynnwys nifer Cynghorwyr.

**Cyngor Cymuned Y Felinheli**

Cadarnhau bod y Cyngor yn awyddus i gynnwys y cyfeiriadau sydd ar hyn o bryd yng Nghymuned Pentir ond gyda Cod Post Y Felinheli I fod yng Nghymuned y Felinheli hefyd.

**Aelod Lleol Morfa Nefyn a Thudweiliog**

Addasu ffiniau y wardiau cymunedol mewn perthynas â Stad Maes Terfyn.

| ARFON | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CYMUNEDAU COMMUNITIES | WARDIAU WARDS | NIFER CYNGHORWYR NO.OF COUNCILLORS | ETHOLWYR ELECTORS | DOSBARTHIADAU PLEIDLEISIO POLLING DISTRICTS | Cynigion Drafft/ Draft Proposals |
| ABER | ABERGWYNGREGYN | 7 | 182 | P1A | Dim Newid/ No Change |
| BANGOR | DEWI | 3 | 1397 | T1G | Dim Newid/ No Change |
| | GARTH | 1 | 521 | T1B | |
| | GLYDER | 3 | 1294 | T1H | |
| | HENDRE | 3 | 1567 | T1D, T1CA | |
| | HIRAEL | 3 | 1360 | T1F, T1CB | |
| | MARCHOG | 4 | 1576 | T1E | |
| | MENAI | 3 | 1244 | T1A | |
| BETHESDA | GERLAN | 5 | 1171 | R1C, R1AC | Dim Newid/ No Change |
| | OGWEN | 4 | 1240 | R1AB | |
| | RACHUB | 4 | 1097 | R1B, R1AA | |
| BETWS GARMON | BETWS GARMON | 8 | 177 | H6A<br>H6B | Cyfuno wardiau Betws Garmon a Rhyd Ddu, y ddwy ward o fewn ward Waunfawr Cyngor Gwynedd/ Combine Betws Garmon and Rhyd ddu wards, both wards in Waunfawr Cyngor Gwynedd ward |
| BONTNEWYDD | BONTNEWYDD | 11 | 871 | G6A<br>G6B | Cyfuno wardiau Castellmai a Llanfaglan, y ddwy ward yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Bontnewydd/ Combine Castellmai a Llanfaglan wards, both wards part of Cyngor Gwynedd Bontnewydd ward |
| CAERNARFON | DEHEUOL (PEBLIG) | 4 | 1787 | E1E, E1EC | Dim Newid/ No Change |
| | DWYRAIN (CADNANT) | 3 | 1335 | E1EA, E1ED | |
| | GOGLEDD (MENAI) | 4 | 1774 | E1A, E1BA, E1BB, E1EB | |
| | HENDRE | 3 | 1420 | E1DB | |
| | GORLLEWIN (CANOL TREF) | 3 | 879 | E1C, E1DA | |
| LLANBERIS | LLANBERIS | 13 | 1555 | B1B<br>B1A | Cyfuno wardiau Llanberis a Nant Peris, dim angen wardiau yn y Gymuned/ Combine Llanberis and Nant Peris Wards, no need for wards in Communtiy |
| LLANDDEINIOLEN | BETHEL | 4 | 1035 | A1E | Dim Newid/ No Change |
| | BRYNREFAIL | 1 | 244 | A1D | Dim Newid/ No Change |
| | DEINIOLEN | 6 | 1425 | A1A D0A<br>A1B<br>A1C | Cyfuno wardiau Deiniolen, Clwt y Bont a Dinorwic gan fod y dair ward yn ward Deiniolen Cyngor Gwynedd/Combine Clwt y Bont and Dinorwic because the three are in the Cyngor gwynedd Deiniolen ward. |
| | PENISARWAUN A RHIWLAS | 4 | 1140 | A1F<br>A1G | Cyfuno wardiau Penisarwaun a Rhiwlas oherwydd y ddwy yn ward Cyngor Gwynedd Penisarwaun/ Combine Penisarwaun a Rhiwlas because both in Penisarwaun Cyngor Gwynedd ward |
| LLANDWROG | CARMEL A CESAREA | 5 | 663 | J6C<br>J6B | Cyfuno wardiau Carmel a Cesarea oherwydd y ddwy yn ward Cyngor Gwynedd Tryfan / Combine Carmel and Cesarea because both are in the Tryfan Cyngor Gwynedd ward. |
| | DINAS A GROESLON | 9 | 1417 | J6E<br>J6D | Cyfuno wardiau Dians a Groeslon ohwrwydd y ddwy yn ward Cyngor Gwynedd Llanwnda/ Combine Dinas and Groeslon because both in Cyngor Gwynedd Llanwnda ward |
| LLANDYGAI | LLANDYGAI | 14 | 1974 | S1A<br>S1C<br>S1B | Cyfuno wardiau Llandygai, St Anns a Tregarth, dim angen wardiau, y dair yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Tregarth/ Combine Llandygai, St Anns and Tregarth wards, no wards needed in the Community, all part of Tregarth Cyngor Gwynedd ward. |
| LLANLLECHID | LLANLLECHID | 10 | 677 | Q1B<br>Q1A | Cyfuno wardiau Isaf a Uchaf, dim angen wardiau yn y Gymuned/ Combine Isaf and Uchaf wards, no need for ward in the Community |
| LLANLLYFNI | LLANLLYFNI, NANTLLE A TALYSARN | 8 | 1463 | K1C<br>J7A<br>K1A | Cyfuno wardiau Llanllyfni, Nantlle a Talysarn oherwydd y dair yn ward Cyngor Gwynedd Llanllyfni/ Combine Llanllyfni, Nantlle and Talysarn, the three wards parts of Llanllyfni Cyngor Gwynedd ward |
| | NEBO | 1 | 254 | K1E | Dim Newid/ No Change |
| | PENYGROES | 6 | 1365 | K1B | Dim Newid/ No Change |
| LLANRUG | CEUNANT A CWM Y GLO | 6 | 768 | C6D<br>C6B | Cyfuno wardiau Ceunant a Cwm y Glo oherwydd y ddwy yn ward Cyngor Gwynedd Cwm y Glo/ Combine Ceuant and Cwm y glo because both in Cwm y Glo Cyngor Gwynedd ward |
| | LLANRUG | 8 | 1435 | C1A | Dim Newid/ No Change |
| LLANWNDA | DIANS A RHOSTRYFAN | 8 | 1106 | I6D<br>I6B | Uno wardiau Dinas A Rhostryfan oherwydd y ddwy yn ward Llanwnda Cyngor Gwynedd/ Combine Dinas and Rhostryfan because both in Llanwnda Cyngor Gwynedd ward |
| | RHOSGADFAN | 4 | 496 | I6A | Dim Newid/ No Change |
| PENTIR | FAENOL/VAYNOL | 8 | 1759 | U1A | Dim Newid/ No Change |
| | GLASINFRYN | 4 | 517 | U1B U1C | |
| WAUNFAWR | CAEATHRO | 2 | 229 | F6B | Dim Newid/ No Change |
| | WAUNFAWR | 9 | 894 | F6A | |
| Y FELINHELI | Y FELINHELI | 13 | 1787 | D1A D2A | Dim Newid/ No Change |
| | | **219** | **43095** | | |

## DWYFOR

| CYMUNEDAU COMMUNITIES | WARDIAU WARDS | NIFER CYNGHORWYR NO.OF COUNCILLORS | ETHOLWYR ELECTORS | DOSBARTHIADAU PLEIDLEISIO POLLING DISTRICTS | Cynigion Drafft/ Draft Proposals |
|---|---|---|---|---|---|
| **ABERDARON** | ABERDARON | 12 | 739 | PD6 PC6 PA6 PB6 | Cyfuno wardiau Dwyrain, Gogledd a De, y dair ward yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Pen Draw Llyn/ Combine East,North and South ward, the three wards are part of Pen Draw Llyn Cyngor Gwynedd ward. |
| **BEDDGELERT** | BEDDGELERT | 9 | 385 | BA6 | Dim newid/ No change |
| **BOTWNNOG** | BOTWNNOG | 11 | 783 | OA6 0B6 OC6 OD6 | Cyfuno wardiau Bryncroes, Sarn a Botwnnog, y dair ward yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Pen Draw Llyn/ Combine Bryncroes, Sarn and Botwnnog, the three ward are part of Pen Draw Llyn Cyngor Gwynedd ward. |
| **BUAN** | BUAN | 11 | 386 | LA6 LB6 LC6 | Cyfuno wardiau Bachellaeth, Ceidio a Buan, y dair ward yn ward Cyngor Gwynedd Buan/ Efailnewydd/ Combine Bachellaeth, Ceidio and Buan, the three wards part of Efailnewydd/ Buan Cyngor Gwynedd ward |
| **CLYNNOG** | CLYNNOG | 13 | 794 | AB6 AC6 AA6 | Cyfuno wardiau Beuno, Derwin a Lleuar, y dair ward yn ward Cyngor Gwynedd Clynnog/ Combine Beuno, Derwin and Lleuar ward, the three wards part of Clynnog Cyngor Gwynedd ward |
| **CRICCIETH** | CRICCIETH | 12 | 1334 | EA1 | Dim newid/ No change |
| **DOLBENMAEN** | DOLBENMAEN | 14 | 920 | CB6 CA6 CC6 CE6 CF6 | Uno Golan, Penmorfa, Treflys, Bryncir a Dolbenmaen oherwydd fod y bedair yn ward Cyngor Gwynedd Dolbenmaen/ Combine Golan, Penmorfa, Treflys, Bryncir and Dolbenmaen as all four are in the Cynngor Gwynedd Dolbenmaen ward |
| | PRENTEG | 2 | 92 | CD6 | Dim newid, Prenteg yn ward Cyngor Gwynedd Glaslyn/ No change, Prenteg in Glaslyn Cyngor Gwynedd ward |
| **TREFOR A LLANAELHAEARN** | TREFOR A LLANAELHAEARN | 12 | 802 | GB6 GA6 | Cyfuno wardiau Trefor a Llanaelhaearn, y ddwy ward yn ward Cyngor Gwynedd Yr Eifl/ Combine Trefor and Llanaelhearn wards, both wards in the Cyngor Gwynedd Yr Eifl ward |
| **LLANBEDROG** | LLANBEDROG | 11 | 690 | KA6 | Dim newid/ No change |
| **LLANENGAN** | LLANENGAN | 13 | 1430 | RA1 QB6 QC6 | Cyfuno wardiau Llanengan ac Abersoch, y ddwy ward yn ward Cyngor Gwynedd / Combine Llanengan, both ward in Llanengan Cyngor Gwynedd ward. |
| **LLANNOR** | ABERERCH A Y FFOR | 8 | 845 | ID6 IA6 | Cyfuno wardiau Abererch a Y Ffor oherwydd y ddwy yn ward Cyngor Gwynedd Abererch/ Combine Abererch and Y Ffor ward because both in Cyngor Gwynedd Abererch ward |
| | EFAILNEWYDD A PENTREUCHAF | 6 | 832 | IB6 IC6 | Cyfuno wardiau Efailnewydd a Pentreuchaf oherwydd mae'r ddwy yn ward Cyngor Gwynedd Efailnewydd/ Buan/ Combine Efailnewydd and Pentreuchaf ward because both in Efailnewydd/Buan Cyngor Gwynedd Ward |
| **LLANYSTUMDWY** | LLANYSTUMDWY | 15 | 1587 | FC6 FD6 FA6 FB6 | Cyfuno wardiau Llanarmon, Llangybi, Llanystumdwy a Rhoslan, y bedair ward yn ward Cyngor Gwynedd Llanystumdwy/ Combine Llanarmon, Llangybi, Llansystumdwy and Rhoslan wards, four wards part of Llanystumdwy Cyngor Gwynedd ward |
| **NEFYN** | MORFA NEFYN A EDERN | 8 | 972 | MC6 MB6 | Uno wardiau Morfa Nefyn a Edern oherwydd y ddwy yn ward Cyngor Gwynedd Morfa Nefyn a Thudweiliog/ Combine Morfa Nefyn and Edern ward, both in Morfa Nefyn a Thydweiliog Cyngor Gwynedd Ward |
| | NEFYN | 7 | 981 | MA6 | Dim newid/ No change |
| **PISTYLL** | PISTYLL | 10 | 420 | HC6 HA6 HB6 | Cyfuno wardiau Llithfaen, Pistyll a Carnguwch, y dair ward yn rhan o ward Cyngor Gwynedd yr Eifl/ Combine Llithfaen, Pistyll and Carnguwch/ Combine Llithfaen, Pistyll and Carnguwch wards, the three wards part of Yr Eifl Cyngor Gwynedd ward. |
| **PORTHMADOG** | DWYRAIN/EAST | 4 | 758 | DD6 | Dim newid / No change |
| | GEST | 2 | 278 | DA6 | |
| | MORFA BYCHAN | 1 | 473 | DC6 | |
| | TREMADOG | 3 | 455 | DE6 | |
| | GORLLEWIN/WEST | 3 | 576 | DB1 | |
| | YNYS GALCH | 3 | 450 | DF6 | |
| **PWLLHELI** | GOGLEDD/NORTH | 7 | 1573 | JA1 | Dim newid/ No change |
| | DE/SOUTH | 8 | 1339 | JB1 | |
| **TUDWEILIOG** | DINAS | 5 | 328 | NB6 | Cyfuno wardiau Dinas, Llangwnnadl a Tudweiliog, y dair ward yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Morfa Nefyn a Thudweiliog/ Combine Dinas, Llangwnnadl and Tudweiliog, the three wards are part of the Cyngor Gwynedd Morfa Nefyn and Thudweiliog ward |
| | LLANGWNNADL | 2 | 122 | NC6 | |
| | TUDWEILIOG | 5 | 264 | NA6 | |
| | | 217 | 20608 | | |

## MEIRIONNYDD

| CYMUNEDAU COMMUNITIES | WARDIAU WARDS | NIFER CYNGHORWYR NO.OF COUNCILLORS | ETHOLWYR ELECTORS | DOSBARTHIADAU PLEIDLEISIO POLLING DISTRICTS | Cynigion Drafft/ Draft Proposals |
|---|---|---|---|---|---|
| **ABERDYFI** | ABERDYFI | 11 | 710 | B2 B1 | Cyfuno wardiau Dyfi ac Abertafol, y ddwy yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Aberdyfi/ Combine Dyfi a Abertafol wards, both part of Cyngor Gwynedd Aberdyfi ward |
| **ABERMAW** | ABERMAW | 13 | 1650 | AG2 E1 E3 E4 | Dim newid/ No change |
| **ARTHOG** | ARTHOG | 10 | 824 | AB2 AR1 AB1 I5 | Cyfuno wardiau Friog ac Islaw'r Dre, y ddwy ward yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Arthog a Llangelynnin/ Combine Friog and Islaw'r Dre ward, both part of the Arthog and Llangelynnin Cyngor Gwynedd ward. |
| **BALA** | BALA | 12 | 1423 | D1 | Dim newid/ No change |
| **BRITHDIR A LLANFACHRETH** | BRITHDIR A LLANFACHRETH | 12 | 627 | AM2 AQ1 AM1 R1 | Cyfuno wardiau Machreth a Brithdir, y ddwy ward yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Brithdir a Llanfachreth/ Ganllwyd/Llanelltyd/ Combine Machreth and Brithdir wards, both part of Brithdir a Llanfachreth/ Ganllwyd/Llanelltyd Cyngor Gwynedd ward |
| **BRYNCRUG** | BRYNCRUG | 9 | 500 | AP1 | Dim newid/ No change |
| **CORRIS** | CORRIS | 9 | 532 | A2 | Dim newid/ No change |
| **DOLGELLAU** | GOGLEDDOL/NORTHERN | 7 | 1079 | I3A, I3B | Dim newid/ No change |
| | DEHEUOL/SOUTHERN | 7 | 979 | I4 | |
| **DYFFRYN ARDUDWY** | DYFFRYN ARDUDWY | 12 | 1227 | E5 J1 J2 | Cyfuno wardiau Llanddwywe a Llaneddwyn, y ddwy yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Dyffryn Ardudwy / Combine Llanddwywe and Llaneddwyn, both part of the Cyngor Gwynedd Dyffryn Ardudwy ward |
| **FFESTINIOG** | BOWYDD A TANYGRISIAU | 6 | 1300 | M1 Y1 | Cyfuno wardiau Bowydd a Tangrisiau, y ddwy ward yn Ward Cyngor Gwynedd Bowydd/ Combine Bowydd and Tanygrisiau wards, both in Cyngor Gwynedd Bowydd ward. |
| | TEIGL A CONGLYWAL | 5 | 1373 | F1A, F1B K1 | Cyfuno wardiau Teigl a Conglywal, y ddwy ward yn Ward Cyngor Gwynedd Teigl/ Combine Teigl and Conglywal wards, both in Cyngor Gwynedd Teigl ward. |
| | DIFFWYS/MAENOFFEREN | 5 | 763 | L1 | Dim newid/ No change |
| **GANLLWYD A LLANELLTYD** | GANLLWYD A LLANELLTYD | 16 | 526 | AA2 AJ1 R2 AG1 AJ2 | Cyfuno Cynghorau Cymuned Ganllwyd a Llanelltyd/ Combine Ganllwyd and Llanelltyd Community Council dwy ward newydd Llanelltyd a Ganllwyd / two new wards Llanelltyd a Ganllwyd |
| **HARLECH** | HARLECH | 12 | 1139 | N1 | Dim newid/ No change |
| **LLANBEDR** | LLANBEDR | 9 | 449 | AE1 | Dim newid/ No change |
| **LLANDDERFEL** | LLANDDERFEL | 13 | 841 | AK1 O1 AN1 D2 | Cyfuno wardiau Llan y Betws a Llanfor, y ddwy yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Llandderfel/ Combine Llan y Betws and Llanfor wards, both part of Cyngor Gwynedd Llandderfel wards |
| **LLANEGRYN** | LLANEGRYN | 7 | 253 | Q1 | Dim newid/ No change |
| **LLANFAIR** | LLANFAIR | 8 | 347 | AU1 N2 | Dim newid/ No change |
| **LLANFIHANGEL Y PENNANT** | LLANFIHANGEL Y PENNANT | 8 | 280 | A1 AP2 C1 | Dim newid/ No change |
| **LLANFROTHEN** | LLANFROTHEN | 8 | 342 | S1 | Dim newid/ No change |
| **LLANGELYNIN** | LLANGELYNIN | 10 | 562 | AV1 V1 | Dim newid/ No change |
| **LLANGYWER** | LLANGYWER | 7 | 210 | D4 U1 D3 | Cyfuno wardiau Cwm y Glyn a Gwalia, y ddwy yn rhan o ward Llandderfel Cyngor Gwynedd/ Combine Cwm y Glyn and Gwalia wards, both part of Llandderfel Cyngor Gwynedd ward |
| **LLANUWCHLLYN** | LLANUWCHLLYN | 11 | 468 | U2 | Dim newid/ No change |
| **LLANYCIL** | LLANYCIL | 9 | 333 | D5 | Dim newid/ No change |
| **MAENTWROG** | MAENTWROG | 9 | 461 | AD1 AO1 Y2 | Dim newid/ No change |
| **MAWDDWY** | MAWDDWY | 11 | 511 | AT1 H2 AS1 H1 | Cyfuno wardiau Aberangell, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy, y dair yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Corris/Mawddwy/ Combine Aberangell, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy, the three part of the Cyngor Gwynedd Corris/Mawddwy ward |
| **PENNAL** | PENNAL | 7 | 287 | W1 | Dim newid/ No change |
| **PENRHYNDEUDRAETH** | PENRHYNDEUDRAETH | 12 | 1545 | X1 | Dim newid/ No change |
| **TALSARNAU** | TALSARNAU | 10 | 452 | AF1 | Dim newid/ No change |
| **TRAWSFYNYDD** | TRAWSFYNYDD | 12 | 669 | AA1 | Dim newid/ No change |
| **TYWYN** | DWYRAIN GORLLEWIN/ EAST WEST | 7 | 1161 | Z3 Z2 | Cyfuno wardiau Gorllewin a Dwyrain, y ddwy yn Ward Gorllewin Cyngor Gwynedd/ Combine Gorllewin and Dwyrain ward, both in Cyngor Gwynedd Gorllewin ward |
| | MORFA | 6 | 1395 | Z1 | Dim newid/ No change |
| | | 304 | 23823 | | |


## Mapiau Newid Ffiniau Cymunedol/ Community Boundary Changes Maps

### Ffordd Heulyn Y Felinheli – Map Cyfredol o'r Ffin / Current Map of Boundary – Section 25




### Cynnig Newid i'r Ffin/ Proposed Change to Boundary

Cynnig i newid y ffin rhwng Cyngor Cymuned Y Felinheli a Pentir. Y newid yn sicerhau fod trigolion Ffordd Heulyn i gyd yn pleidleisio yn Y Felinheli. Ar hyn o bryd, rhan o'r stryd yn pleidleisio yn Penrhosgarnedd / Proposal to change the boundary between Y Felinheli Community Council and Pentir Community Council. The ammendment enables electors from Ffordd Heulyn to all vote in Y Felinheli. Currently, part of the street votes in Penrhosgarnedd.



**Llwyn Bedw Rachub/Llanllechid – Map y Ffin cyfredol/ Current boundary map – Section 25**





**Cynnig Newid i'r Ffin/ Proposed change to Boundary**

Cynnig i addasu y ffin rhwng Cyngor Cymuned Llanllechid a Bethesda fel bod trigolion Llwyn Bedw i gyd yn rhan o Gymuned Bethesda. Ar hyn o bryd rhan or stad yn pleidleisio yn Llanllechid/ Ppproposal to adjust the boundary between Llanllechid Community and Bethesda so that the residents of Llwyn Bedw are all part of the Bethesda Community. Currently part of an estate vote in Llanllechid.




**Fferm Rhyd Y Garnedd, Llanegryn, LL36 9LG – Map Ffin cyfredol /Current Boudary Map – Section 25**




**Cynnig Newid i'r Ffin/ Proposed Change to Boundary**

Cynnig newid ffin rhwng Cymuned Llanegryn a Cymuned Tywyn fel bod tir sydd yn berchen i Fferm Rhyd y Garnedd i gyd yn rhan o Gymuned Llanegryn. / Proposal to change the boundary between the Community of Llanegryn and the Community of Tywyn so that the land belonging to Rhyd y Garnedd Farm is all part of the Community of Llanegryn.




**Fferm Pant y Buarth Brynrefail – Map o'r ffin cyfredol/ Map of current boundary - Section 31**




**Cynnig newid i'r ffin/ Proposed changes to Boundary**

Cynnig i addasu y ffin rhwng Brynrefail a Clwt-y-bont fel bod etholwyr Fferm Pant y Buarth yn medru pleidleisio yn Brynrefail. / A proposal to adjust the boundary between Brynrefail and Clwt-y-bont allowing the electors of Pant y Buarth Farm to vote in Brynrefail.



**Maes Terfyn Edern – Map y Ffin Cyfredol/ Current map of Boundary – Section 31**




**Cynnig Newid i'r ffin/ Proposed Boundary Change**

Cynnig i symud y ffin rhwng wardiau Edern a Morfa Nefyn ar Gyngor Tref Nefyn. Y newid yn galluogi i drigolion Maes Terfyn i gyd bleidleisio yn Forfa Nefyn. Ar hyn o bryd hanner y stad yn gorfod mynd i Edern i bleidleisio. Proposal to move the border between Edern and Morfa Nefyn wards on Nefyn Town Council. The change enables all residents of Maes Terfyn to vote in Morfa Nefyn. Currently half of the estate has to go to Edern to vote.



| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **6 Mawrth 2025** |
| **PENNAWD** | **Addasu y Cyfansoddiad – Portffolios Cabinet** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |
| **PWRPAS** | **I adrodd ar addasiadau i'r cyfansoddiad .** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Nia Jeffreys , Arweinydd y Cyngor.** |

**1. Cyflwyniad**

Yn unol â Rhan 5 o'r Cyfansoddiad mae Arweinydd y Cyngor wedi gweithredu i ail drefnu Portffolios Aelodau'r Cabinet. Mae'n ofynnol i mi adrodd yn ffurfiol i'r Cyngor fod y newid yma wedi ei weithredu.

**2. Portffolios**

Mae'r portffolios newydd wedi eu gosod yn Atodlen 1

**Argymhelliad**

**Fod y Cyngor yn derbyn yr adroddiad**

**Swyddog Monitro**

Awdur yr Adroddiad

**Swyddog Cyllid**

**Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.**

Atodiad 1

| 1. Enw | 2.Portffolio | 3.Prif Feysydd Swyddogaethol |
|---|---|---|
| Cynghorydd Nia Jeffreys | **Arweinydd** Arweiniad Strategol; | Arweiniad Strategol (+ Prif Rhaglenni Trawsadrannol) |
| Cynghorydd Menna Trenholme | **Dirprwy Arweinydd** Plant a Phobl Ifanc | Plant a Phobl Ifanc |
| Cynghorydd Medwyn Hughes | Materion Economi | Materion Strategol Economaidd, Cefnogi Busnes, Twristiaeth, Adfywio Cymunedol , Prosiectau Strategol, Morwrol, Hamdden a Llyfrgelloedd, Celfyddydau ac Amgueddfeydd. |
| Cynghorydd Dewi Jones | Addysg | Addysg ac Ysgolion , Gwasanaeth Ieuenctid |
| Cynghorydd Craig Ap Iago | Amgylchedd | Amgylchedd |
| Cynghorydd Llio Elenid Owen | Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol | Cefnogaeth Gorfforaethol, Llywodraethu Corfforaethol a Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Cynghorydd Dilwyn Morgan | Oedolion Iechyd a Llesiant | Oedolion Iechyd a Llesiant , Perthynas gyda Gwasanaeth Iechyd, Rhaglen Cefnogi Pobl y Cyngor |
| Cynghorydd Huw Wyn Jones | Cyllid | Cyllid, Technoleg Gwybodaeth |
| Cynghorydd June Jones | Priffyrdd ac Ymghynghoriaeth | Priffyrdd ac , Ymgynghoriaeth Gwynedd, Asiantaeth Cefnffyrdd |
| Cynghorydd Paul Rowlinson | Tai ac Eiddo | Tai ac Eiddo. |

Nodyn – Mae ardaloedd cyfrifoldebau y Portffolios yn cyd-fynd a meysydd gwaith yr Adran neu Wasanaeth a nodir yng Ngholofn 2 yn ddarostyngedig i unrhyw ychwanegiadau neu addasiadau a nodi'r yng Ngholofn 3.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **6 Mawrth 2025** |
| **TEITL** | **Newidiadau Cyfansoddiad – Rheolau Gweithdrefn Contract Newydd (Adran 17)** |
| **PWRPAS** | **Gofynnir i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Rheolau Gweithdrefn Contract newydd (Adran 17) a ddangosir yn Atodiad 1.** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng Llio Elenid Owen** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Iwan Evans (Swyddog Monitro)<br>Arwel Evans (Rheolwr Caffael)** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

**Gofynnir i'r Cyngor Llawn yn newid y Cyfansoddiad drwy fabwysiadau'r Rheolau Gweithdrefn Contract newydd (Adran 17) a ddangosir yn Atodiad 1.**

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Mae'r Ddeddf Caffael 2023 a ddaeth i rym 24 Chwefror 2025 yn golygu bod rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio ein rheolau caffael mewnol sydd wedi eu cynnwys o fewn y Rheolau Gweithdrefn Contract i adlewyrchu y newid yn y ddeddfwriaeth ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

**3. CEFNDIR**

Ers i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r Llywodraeth (DU) wedi adnabod hyn fel cyfle i adolygu deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chaffael yn y sector gyhoeddus. Maent wedi pasio y Ddeddf Caffael 2023 ac yn wreiddiol mi oedd y Ddeddf i fod i ddod i rym ar 28 Hydref 2024 ond gafodd ei wthio yn nôl, a phellach wedi dod i rym ar 24 Chwefror 2025. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi pasio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a mae hyn yn rhoi mwy o gyfrifoldebau a dyletswyddau ar sefydliadau sector gyhoeddus yng Nghymru sydd hefyd yn gysylltiedig â chaffael.

Yn sgil y ddeddfwriaeth newydd, mae'r adran Gaffael wedi bod yn paratoi y Cyngor ar gyfer y newid mewn deddfwriaeth sydd wedi digwydd. Fel rhan o wneud hyn mae'r adran Gyfreithiol, mewn ymgynghoriad â'r adran Gaffael, wedi bod yn adolygu trefniadau caffael mewnol y Cyngor. Yn ychwanegol, mae'r adran Gyfreithiol wedi derbyn cyngor gan gwmni allanol sydd wedi bod yn gweithio gyda cynghorau ar draws Gogledd Cymru a rydyn ni wedi ymgorffori rhai o'u pwyntiau drafftio nhw.

Pwrpas y Rheolau Gweithdrefn Contract ydi nodi'r broses dylai'r Cyngor ddilyn wrth gynnal ymarfer caffael ac yn benodol ymarfer caffael sydd ddim yn disgyn o dan y Ddeddf neu Rheoliadau Caffael 2024. Mae'r Rheolau yn nodi'r dulliau gwahanol a phryd dylid eu defnyddio. Yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth mae'r adolygiad hefyd wedi rhoi cyfle i sicrhau bod y Rheolau yn ddigon hyblyg i ganiatáu swyddogion i gynnal ymarfer caffael yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol. Yn holl bwysig, mae'n sicrhau bod yna reolaeth i unrhyw ymarfer caffael ac yn sicrhau gwerth am arian i'r Cyngor. Mae'r rheolwr caffael wedi bod yn gyrru cyfres o negeseuon i reolwyr dros yr wythnosau diwethaf i baratoi at y Rheoliadau Caffael Cenedlaethol newydd a'u diweddaru o'r newidiadau.

Y prif bwyntiau i amlygu yw:

- Trothwyon yn aros yr un fath £5k= 1 dyfynbris, £5k-£50k= 3 dyfynbris, tendr agored ar gyfer cytundeb dros £50k
- Y gweithdrefnau newydd wedi eu cynnwys ar gyfer tendrau o dan y trothwy sef: agored, hyblyg gystadleuol a penodi'n uniongyrchol
- Cyfeiriad at gynnwys gwerthusiad gwerth cymdeithasol ond heb gynnwys swm penodol
- Newid i'r drefn gyrru llythyrau (standstill) a creu hysbysebion (contract details notice) ar gyfer penodiadau dros £30k
- O leiaf 2 berson gydag arbenigedd perthnasol i fod yn rhan o dîm gwerthuso tendr
- Dewis dyfarnu contract cyhoeddus ar sail y tendr mwyaf manteisiol (Most Advantageous Tender) – symud i ffwrdd o'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd (Most Economically Advantageous Tender)
- Newid y terminoleg i beth sydd yn y Ddeddf

Yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2025, penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i dderbyn y Rheolau Gweithdrefn Contract er mwyn eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn yma heddiw a nid oedd unrhyw sylw neu gwestiwn wedi codi.

**4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Mi fuasai peidio adolygu a diwygio y Rheolau yn codi risg sylweddol i'r Cyngor a buasai'r Cyngor yn:

i. agored i her gyfreithiol am fethu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth;
ii. debygol o gael beirniadaeth gan archwilwyr a rheoleiddwyr.

**Y Swyddog Monitro:**

Argymhelliad y Swyddog Monitro

**Pennaeth Cyllid:**

Mae diweddaru'r Rheolau Gweithdrefn Contractau er mwyn adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol diweddaraf yn weithred angenrheidiol. Rwyf yn cefnogi'r Penderfyniad a Geisir o safbwynt iawn weinyddiad ariannol y Cyngor.

## ADRAN 17

## 17. RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT

### 17.1 CYFLWYNIAD

17.1.1 Caffael yw'r broses lle mae'r Cyngor yn rheoli'r Gwaith o gaffael ei holl Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith. Ar ôl adnabod angen, mae'n cynnwys ystyried opsiynau, y broses gaffael ei hun a'r dasg dilynol o reoli ac adolygu'r contractau.

17.1.2 Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn ("CPRs") yn ymdrin â gweithgareddau caffael y Cyngor nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan Ddeddf Caffael 2023 ("Deddf") a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024/782 ("Rheoliadau"). Mae cydymffurfio â'r Ddeddf a'r Rheoliadau yn ofyniad cyfreithiol llym ar y Cyngor, ac nid yw'n agored i'r Cyngor hepgor cydymffurfiaeth â'r rhain ar gyfer caffael.

17.1.3 Mae'r CPRs hyn yn berthnasol i weithgareddau caffael sydd yn cychwyn ar neu ar ôl 24 Chwefror 2025. Bydd unrhyw gontractau a roddwyd o dan ddeddfwriaeth flaenorol yn parhau i gael eu rheoli o dan y ddeddfwriaeth honno hyd nes y bydd y contract yn peidio â bodoli.

17.1.4 Mae caffael gan y Cyngor yn cael ei lywodraethu gan y Ddeddf a'r Rheoliadau. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i holl gaffael a chontractio'r cyngor gael eu cynnal yn dryloyw, yn deg ac mewn modd dim gwahaniaethu. Os bydd gofynion statudol neu gyfreithiol eraill yn uwch na'r gofynion a gynhwysir yn y CPRs hyn, yna bydd statud yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth o fewn y CPRs hyn.

17.1.5 Mae'r Ddeddf yn nodi'r amcanion canlynol ar gyfer caffael contractau: sicrhau gwerth am arian, sicrhau'r budd mwyaf i'r cyhoedd, rhannu gwybodaeth at ddiben caniatáu i gyflenwyr ac eraill ddeall polisïau a phenderfyniadau caffael yr awdurdod, a gweithredu a chael eu gweld i weithredu, yn onest, yr ("Amcanion Caffael").

17.1.6 Yn ogystal, bydd y Cyngor yn ystyried rhwystrau cyfranogiad penodol a allai wynebu mentrau maint bach a chanolig ac yn ystyried a ellir dileu neu leihau rhwystrau o'r fath.

17.1.7 Yn ei <u>holl</u> weithgareddau caffael, rhaid i'r Cyngor gydymffurfio ag egwyddorion sylfaenol o ddim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal, tryloywder, cyd-gydnabyddiaeth a chyfranoldeb, ac mae'r rheolau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau cydymffurfiad â hynny.

### 17.2 DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU

17.2.1 Mae'r diffiniadau a ganlyn yn berthnasol yn y Rheolau hyn:

- Mae **Swyddogion Awdurdodedig** yn golygu deiliad unrhyw swydd a enwir yn y Cynllun Dirprwyo fel rhywun sydd â phwerau a dyletswyddau dirprwyedig o ran yr ymarferiad caffael dan sylw.
- **Prif Swyddog** yn golygu unrhyw swyddog yn y categorïau canlynol o swyddog, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth Adran.
- Mae **Contract** yn golygu unrhyw ffurf o gytundeb (gan gynnwys, yn ddi-gyfyngiad, archebion prynu swyddogol) ar gyfer cyflenwi Nwyddau, darparu Gwasanaethau neu wneud Gwaith.

- Mae **Contractwr** yn golygu unrhyw gontractwr, cyflenwr neu ddarparwr y mae'r Cyngor yn rhwymo i Gontract ag ef er dibenion gwneud gwaith, darparu gwasanaethau neu gyflenwi nwyddau.
- Mae **Cofrestr Contract Corfforaethol** yn golygu rhestr o gontractau a roddir gan y Cyngor.
- Mae **Fframweithiau** yn golygu cytundeb ag un neu fwy o Gontractwyr, er diben sefydlu'r telerau (yn enwedig o ran pris a swm), sy'n llywodraethu contract neu gontractau i'w gwobrwyo yn ystod y cyfnod y mae'r cytundeb fframwaith yn berthnasol iddo.
- Mae **Nwyddau** yn golygu'r holl nwyddau, cyflenwadau, sylweddau a deunyddiau y mae'r Cyngor yn eu prynu, eu llogi neu yn eu cael mewn unrhyw ffordd arall.
- **Grant a Grantiau** swm o arian a delir neu sydd i'w dalu gan y Cyngor i drydydd parti, a lle nad yw'r Cyngor angen i'r sawl sy'n darparu'r grant i ddarparu unrhyw wasanaethau, nwyddau neu wneud unrhyw waith i'r Cyngor er budd uniongyrchol y Cyngor. Gall y Grant fod yn amodol (h.y. rheidrwydd i wario'r Grant mewn dull penodol, i gyfrif am y gwariant ac i ad-dalu'r Grant os yw amodau'r Grant yn cael eu torri).
- **Mae ITT** yn golygu gwahoddiad i gyflwyno tendr.

- Mae **Contract Cyffyrddiad Ysgafn** yn golygu contract arfaethedig ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau penodol eraill a restrir yn Atodlen 1 y Rheoliadau.
- Mae **Caffael** yn golygu'r broses y mae'r Cyngor yn ei defnyddio i reoli'r gwaith o gaffael ei holl nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae'n cynnwys adnabod yr angen, ystyried yr opsiynau, y broses gaffael ei hun a'r dasg ddilynol o reoli ac adolygu'r contractau.
- Mae **Rheolwr Caffael** yn golygu Rheolwr Caffael y Cyngor neu unrhyw swyddogion o dan ei oruchwyliaeth neu reolaeth sy'n cael pwerau dirprwyedig i gwblhau unrhyw rwymedigaethau, dyletswyddau neu weithgareddau sydd angen iddynt eu perfformio dan y Rheolau hyn neu i weithredu yn eu habsenoldeb.
- Mae **Proses Caffael** yn golygu'r broses gaffael sy'n rhedeg dros y cyfnod cyfan, o adnabod yr anghenion, arfarnu'r opsiynau, dewis cyflenwyr, dyfarnu a rheoli contractau drwodd i ddiwedd y contract neu ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased, neu warediad yr ased.
- Mae **Rheolau** hyn yn golygu'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn.

- Mae **Gwasanaethau** yn cynnwys yr holl wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu prynu neu yn eu cael fel arall, gan gynnwys cyngor, gwaith ymgynghorol arbenigol, asiantaeth, staff, ac ati.
- Mae **Rheoliadau** yn golygu Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 ac unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad ohono.
- **Tendrwr / Tendrwyr** - Unigolyn, unigolion, partneriaethau, cwmnïau neu gyrff eraill a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbrisiau/tendrau, prisiau am ddarparu gwasanaethau i'r Cyngor, cyflenwi nwyddau neu wneud gwaith.
- Mae **Amrywiad ac Amrywiadau** yn golygu unrhyw newidiadau i gontract, gan gynnwys ychwanegiadau, hepgoriadau, amnewidion, amrywiadau neu newidiadau o unrhyw natur arall.
- Mae **Gwaith** yn cynnwys gwaith adeiladu a thrwsio newydd mewn perthynas ag asedau ffisegol (adeiladau, ffyrdd, ac ati), gan gynnwys yr holl weithgareddau hynny sy'n cynnwys gwaith er dibenion y Rheoliadau.
- Mae **Ysgrifenedig** yn golygu mewn ysgrifen neu ar ffurf electronig "ysgrifenedig".

17.2.2 Mae'r holl werthoedd y cyfeirir atynt yn y Rheolau hyn yn cynnwys V. A. T.

17.2.3 Bydd unrhyw anghydfod ynghylch dehongliad y Rheolau hyn yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Monitro am ddatrysiad.

17.2.4 Bydd y Rheolau hyn yn cael eu darllen ar y cyd â Chyfansoddiad y Cyngor yn ei gyfanrwydd ac yn benodol Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw.

17.2.5 Bydd y Rheolwr Caffael yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r Rheolau hyn o leiaf bob dwy flynedd a rhoi gwybod i'r Adran Gyfreithiol am unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

17.2.6 Bydd diwygiadau i Drothwyon Statudol yn cael eu hymgorffori yn y Rheolau hyn fel mater o achos.

**17.3 <u>CYDYMFFURFIO Â'R RHEOLAU HYN</u>**

17.3.1 Rhaid dilyn y Rheolau hyn wrth ymdrin ag unrhyw Gaffael Cyngor ac eithrio'r Caffaeliadau hynny a materion eraill y cyfeirir atynt yn Rheol 17.4.

17.3.2 Rhaid i bob ymarferiad Caffael y mae'r Cyngor yn ei wneud neu unrhyw barti arall ar ei ran gydymffurfio â

(a) yr holl ddarpariaethau statudol perthnasol;

(b) lle'n berthnasol, y Rheoliadau;

(c) Cyfansoddiad y Cyngor;

(d) amcanion a pholisïau strategol y Cyngor, gan gynnwys y Strategaeth Caffael Corfforaethol.

(e) Polisi Caffael Cynaliadwy'r Cyngor; ac

(f) y canllawiau ar Safle Mewnrwyd yr Uned Gaffael.

17.3.3. Gall y Rheolwr Caffael o bryd i'w gilydd gyflwyno canllawiau caffael. Rhaid i Brif Swyddogion sicrhau bod gweithwyr yn eu Gwasanaeth yn ymwybodol o ganllawiau o'r fath ac fe ddylent sicrhau cydymffurfiaeth.

17.3.4 Gall unrhyw fethiant gan swyddog i gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth o'r Rheolau hyn arwain at gamau disgyblu.

**17.4 <u>CONTRACTAU EITHRIEDIG</u>**

17.4.1 Eithriadau yw lle mae'r CPRs yn cael eu hatal yn llwyr. Mae'r contractau canlynol wedi'u heithrio o ofynion y CPRs hyn:

i. Prynu mewnol neu ddarpariaeth gwasanaeth;
ii. Trefniadau fertigol, h.y. contract cyhoeddus a ddyfernir gan Gyngor i berson cyfreithiol a reolir gan y Cyngor ac sy'n cyflawni o leiaf 80% o'i weithgareddau ar gyfer y Cyngor;
iii. trefniadau llorweddol, lle mae dau neu fwy o awdurdodau contractio wir yn cydweithredu â'i gilydd i fodloni rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus y mae pob un yn ymddiriedwyd i'w cyflawni;
iv. contractau cyfleustodau rhwng cyfleustodau a menter ar y cyd perthnasol y mae'r cyfleustodau hwnnw'n barti iddi, lle ffurfiwyd y fenter ar y cyd er mwyn cyflawni'r gweithgaredd cyfleustodau

hwnnw am o leiaf dair blynedd ac mae'r partïon i'r fenter ar y cyd wedi'u hymrwymo, trwy gytundeb ysgrifenedig i barhau i fod yn bartïon i'r fenter ar y cyd am gyfnod o dair blynedd ar ôl dyddiad y cytundeb hwnnw;

v. Contractau sy'n ymwneud yn unig â chaffael tir, adeiladau neu unrhyw waith cyflawn arall yn unig (h.y. strwythur gweithredol sy'n deillio o gyflawni gwaith), neu o ddiddordeb mewn neu dros unrhyw un ohonynt (ac eithrio cytundebau datblygu);

vi. Contractau ar gyfer caffael, datblygu, cynhyrchu neu gydgynhyrchu deunydd a fwriedir i'w ddarlledu (mewn unrhyw fodd) gan awdurdod contractio i'r cyhoedd;

vii. Contractau i hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaeth cyfathrebu electronig i'r cyhoedd (o fewn ystyr a.32 o Ddeddf Cyfathrebu 2003);

viii. contractau ar gyfer darparu i awdurdod contractio cyflafareddu, cyfryngu neu gymodi neu wasanaethau tebyg eraill;

ix. contractau ar gyfer darparu Gwasanaethau Cyfreithiol Eithriedig;

x. gwasanaethau ariannol – contractau ar gyfer benthyca arian mewn unrhyw arian i awdurdod contractio;

xi. contractau cyflogaeth neu gontractau'r gweithiwr;

xii. contractau ar gyfer darparu gwasanaethau ymchwil a datblygu;

xiii. cytundebau a sefydliadau rhyngwladol;

xiv. ni ddylai unrhyw gontractau y mae awdurdod contractio yn eu dyfarnu, er budd diogelwch cenedlaethol, fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf hon;

xv. dyfarnu Grantiau (Nid yw grantiau'n cael eu rheoleiddio gan gyfraith caffael cyhoeddus gan nad ydynt yn gontractau cyhoeddus. Fodd bynnag, maent yn cael eu rheoleiddio gan y rheolau ar gymorth gwladwriaethol a rheolaethau cyfraith gyhoeddus gyffredinol sy'n ymwneud â dyletswydd ymddiriedol a gwario arian cyhoeddus yn briodol yn ogystal ag amodau penodol a allai gynnwys gofynion caffael);

xvi. gorchmynion unigol a roddir dan gontractau sy'n darparu bod gorchmynion yn cael eu gosod yn erbyn amserlenni cyfraddau'n cytuno, neu o dan gontract cyfnod mesuredig neu o dan Fframwaith, ar yr amod bod y Cyngor wedi gosod contractau neu Fframwaith o'r fath yn unol â'r Rheolau hyn;

xvii. gorchmynion unigol a roddir dan Wasanaeth Masnachol y Goron a Llywodraeth Cymru yn gosod Fframwaith neu Fframwaith sector cyhoeddus arall lle caniateir i'r Cyngor osod gorchmynion o dan gytundebau o'r fath;

xviii. contractau ar gyfer gwasanaethau yr ymrwymir iddynt yn unol â phwerau o dan Ddeddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 a Deddf Plant 1989 er budd unigolyn;

xix. cyfarwyddiadau a sesiynau briffio a gyhoeddwyd gan neu ar ran y Swyddog Monitro i Gwnsela. Bydd y Swyddfeydd Monitro yn gwneud trefniadau i sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o'r holl gyfarwyddiadau neu friffiau o'r fath ynghyd â chofnod o ffi'r Cwnsler

xx. Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith a gaffaelwyd gan gorff cyhoeddus arall ar ran neu er budd y Cyngor a phartïon eraill (h.y. cytundeb caffael cydweithredol megis contractau a ddyfarnwyd drwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol etc.) ac ar yr amod bod rheolau/contract y corff cyhoeddus arall mewn achos o'r fath, holl ofynion cyfraith caffael y DU, a chydymffurfiwyd â'r Amcanion Caffael. Rhaid ceisio cyngor y Rheolwr Caffael cyn dibynnu ar unrhyw drefniant o'r fath;

xxi. Contractau unigol "De-minimus" o fewn cyllideb cymorth trafnidiaeth gyhoeddus y Cyngor hyd at uchafswm o 40% o'r gyllideb honno.

17.4.2 Pan fo'r Cyngor yn caffael gwasanaethau gofal iechyd fel y disgrifir ac y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 1 Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Trefn Dewis Darparwyr) (Cymru) 2024 (**"PSR"**), bydd y cyfryw gaffaeliadau yn cael eu gwneud yn unol â'r PSR ac nid y Ddeddf neu'r Rheoliadau.

**17.5 <u>TREFNIADAU FFRAMWAITH A MARCHNADOEDD DYNAMIG LEDLED Y CYNGOR</u>**

17.5.1 Lle bo modd, rhaid defnyddio trefniadau Fframwaith neu marchnad dynamig a phrynu corfforaethol presennol y Cyngor a osodir yn unol â'r Rheolau hyn, heblaw bod y Rheolwr Caffael wedi cytuno fel arall mewn amgylchiadau eithriadol. Mae'r Uned Caffael Corfforaethol yn cadw cofrestr o gytundebau o'r fath ac fe all roi cyngor ar eu defnydd.

**17.6 <u>AMCANGYFRIF GWERTH Y CONTRACT</u>**

17.6.1 Mae'r rheol gyffredinol ar gyfer amcangyfrif gwerth contract yn cynnwys cyfrifiad sy'n ystyried:

- Gwerth unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu waith a ddarperir gan yr awdurdod contractio o dan y contract ac eithrio ar gyfer talu;
- symiau sy'n daladwy os arferwyd opsiwn i ymestyn neu adnewyddu telerau'r contract;
- symiau sy'n cynrychioli premiymau, ffioedd, comisiynau neu log a allai fod yn daladwy; a
- symiau sy'n cynrychioli gwobrau neu daliadau a allai fod yn daladwy i gyfranogwyr mewn caffael; a
- yn cynnwys TAW.

17.6.2 Ni ellir rhannu unrhyw waith na gofynion ar gyfer nwyddau neu wasanaethau yn artiffisial er mwyn osgoi cydymffurfio â chyfraith gaffael y DU neu'r Rheolau hyn.

17.6.3 Wrth bennu gwerth cyfanswm yr ystyriaeth lawn, y mae'r Cyngor yn disgwyl ei dalu, bydd y Cyngor, lle bo'n berthnasol, yn ystyried:

(a) Unrhyw fath o opsiwn

(b) tymor/cyfnod y contract arfaethedig

(c) unrhyw hawliau i adnewyddu'r contract/ymestyn cyfnod y contract

(d) unrhyw bris, taliad, premiwm, ffioedd, comisiwn, budd neu unrhyw fath o gydnabyddiaeth arall sy'n daladwy dan y Contract arfaethedig neu mewn perthynas â'r ymarferiad caffael arfaethedig.

17.6.4 Wrth bennu gwerth unrhyw Gontract am logi Nwyddau, os yw tymor y Contract yn amhenodol neu'n ansicr ar yr adeg pan ymrwymir i'r Contract, yna ystyrir bod y gwerth gyfystyr â gwerth yr ystyriaeth fisol wedi'i luosi â 48.

17.6.5 Wrth bennu gwerth unrhyw Gontract am ddarparu Gwasanaethau neu wneud Gwaith, os yw tymor y Contract yn amhenodol neu'n ansicr ar yr adeg pan ymrwymir i'r Contract, yna ystyrir bod y gwerth gyfystyr â gwerth yr ystyriaeth fisol wedi'i luosi â 48.

17.6.6 Lle bo gan y Cyngor ofynion dros gyfnod o amser am Nwyddau a Gwasanaethau lle mae gan y contractau nodweddion tebyg ac mae'r Nwyddau a'r Gwasanaethau o'r un math, ac yn ymrwymo i gyfres o gontractau neu gontract sy'n adnewyddadwy, yna bydd yr amcan werth yn

cael ei gyfrifo drwy gyfanswm y gwariant ar faterion o'r fath dros y 12 mis diwethaf neu'r amcan wariant a ragwelir ar gyfer y 12 mis nesaf, p'un bynnag yw'r mwyaf. Wrth amcangyfrif y gwerth hwn, rhaid cael cyngor gan y Rheolwr Caffael.

17.6.7 Ar gyfer Fframweithiau, neu debyg, heb wariant blynyddol hysbys, ond â hyd sy'n fwy na blwyddyn, bydd hyd nifer y blynyddoedd yn cael ei luosi â'r gwariant blynyddol tebygol ac mae'n rhaid ei bennu mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael. Yr uchafswm cyfnod a ganiateir bellach o dan Reolau Caffael y DU ar gyfer Fframweithiau yw 4 blynedd, oni bai bod cyfiawnhad clir dros hyn, y mae'n rhaid ei nodi yn yr Hysbysiad Tendro neu'r Hysbysiad Tryloywder sy'n ymwneud â'r Fframwaith.

17.6.8 Rhaid rhoi gwerth i Fframweithiau Agored drwy gynnwys gwerth yr holl Fframweithiau y gellid eu dyfarnu o dan y Fframwaith Agored ac felly, gwerth yr holl gontractau y gellid eu dyfarnu o dan bob un o'r Fframweithiau yn y cynllun.

17.6.9 Mae contractau consesiwn i gael gwerth yn wahanol. Dylid gwerthfawrogi contractau consesiwn trwy amcangyfrif yr uchafswm y gallai'r cyflenwr ddisgwyl ei dderbyn, gan ystyried rhestr debyg nad yw'n gynhwysfawr o newidynnau yn y rheol gyffredinol, gyda rhai addasiadau yn fwy perthnasol i gontractau consesiwn, megis symiau a dderbynnir wrth werthu asedau a ddelir gan y cyflenwr o dan y contract consesiwn.

17.6.10 Os nad oes modd amcangyfrif gwerth contract, yna ystyrir bod y contract yn cael ei brisio fel y uwchben y trothwy.

**17.7 <u>CONTRACTAU O DAN £50,000 (Dyfyniadau)</u>**

17.7.1 Lle bo modd, rhaid cael nwyddau, gwasanaethau a gwaith drwy Gytundebau Fframwaith, rhestrau sefydlog neu drefniadau consortia corfforaethol presennol.

17.7.2 Lle nad oes trefniadau cymeradwy presennol, rhaid ceisio'r nifer ganlynol o ddyfynbrisiau a rhoi tystiolaeth o hynny yn unol â Rheolau 17.7.3 neu 17.7.4.

(a) Dim ond un dyfynbris sydd ei angen ar hyd at £5,000;

(b) Mae angen tri dyfynbris rhwng £5,000 a £50,000.

17.7.3 Am ymarferiadau Caffael o hyd at £5,000, rhaid i'r dyfynbris a geir fod yn ysgrifenedig er mwyn arddangos gwerth gorau a chyfanrwydd y broses. Rhaid i'r Gwasanaeth gadw'r wybodaeth hon.

17.7.4 O ran ymarferiadau Caffael o £5,000 i £50,000, fe gedwir cofnodion yn nodi pa Gontractwyr a ddewiswyd i roi dyfynbris, i bwy y dyfarnwyd y Contract a'r rhesymau am wneud hynny (pris isaf neu'r cynnig sy'n arddangos gwerth gorau i'r Cyngor a pham), fel bod modd arddangos gwerth gorau a chyfanrwydd y broses. Bydd dyfynbrisiau'n cael eu cadw'n gyfrinachol hyd nes y dyfernir y contract. Rhaid i'r Gwasanaeth gadw'r wybodaeth hon. Mae'n bwysig gwerthfawrogi bod yn rhaid rhoi gwybod i Gontractwyr sut bydd eu dyfynbrisiau yn cael eu gwerthuso a dylid nodi'r wybodaeth hon yn glir pan ofynnir i Gontractwyr roi dyfynbris.

17.7.5 Lle mae angen rheolaidd am nwyddau, gwasanaethau a gwaith tebyg, ac nad yw'r trefniadau a ddisgrifir yn Rheol 17.5 ar gael, rhaid ystyried dyfarnu trefniant fframwaith a rhaid cael cyngor gan y Rheolwr Caffael.

17.7.6 Lle bo nwyddau, gwasanaethau neu waith yn cael eu caffael yn rheolaidd o un cyflenwr penodol dan y Rheol hon a bod gwerth cyfanredol y contractau hynny'n fwy na £50,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol, rhaid i'r Pennaeth Adran adrodd ar y mater i'r Rheolwr Caffael fydd yn cynnal adolygiad o'r trefniadau hyn o ran sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheolau hyn a Pholisïau a Strategaethau'r Cyngor.

**17.8 <u>CONTRACTAU SYDD YN WERTH MWY NA £50,000 (TENDRAU)</u>**

17.8.1 O ran ymarferiadau caffael sydd ag amcan werth o fwy na £50,000, rhaid gwahodd o leiaf dri thendr ysgrifenedig.

17.8.2 I weld y rheolau ynghylch: Cyn-gymhwyso, Gwahoddiad i Dendro, Derbyn, Cystodaeth ac Agor Tendrau, Gwerthuso Tendr, Tîm Gwerthuso, Risg a Dyfarnu Contractau, gweler rheolau 17.12-17.13, 17.18, 17.20-17.24.

17.8.3 Bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn cynnal Cofrestr Contract Corfforaethol fydd yn cadw cofnod o bwy y dyfernir contractau iddynt a'r llwybr caffael ymhob achos. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig ddarparu'r holl wybodaeth ofynnol i hwyluso hyn i'r Rheolwr Caffael Corfforaethol.

17.8.4 Rhaid i bob tendr ddefnyddio rhif cyfeirio tendr a rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol am y rhif hwn.

**17.9 <u>CONTRACTAU Y MAE'R RHEOLIADAU YN BERTHNASOL IDDYNT</u>**

17.9.1 O ran ymarferion caffael sy'n cael eu trin dan y Rheoliadau:

(a) gwahoddir tendrau yn unol â gofynion y Ddeddf a'r Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd; a

(b) bydd y Ddeddf a Rheoliadau yn cael blaenoriaeth dros y Rheolau hyn;

(c) bydd y Ddeddf a Rheoliadau o'r fath yn cynnwys gofynion sy'n fwy na'r gofynion a nodir yn y Rheolau hyn.

17.9.2 Gellir cael cyngor ac arweiniad ar p'un a yw ymarferiad caffael penodol yn destun y Rheoliadau gan y Rheolwr Caffael a'r Swyddog Monitro.

17.9.3 Y trothwyon cyfredol, fel ar 1 Ionawr 2024 yw:

- Cyflenwadau a Gwasanaethau £214,904
- Contractau Gwasanaeth Cymorthdaledig £214,904
- Gwaith £5,372,609
- Contract Cyffyrddiad Ysgafn am Wasanaethau £663,540

Rhaid cyfrifo gwerth yr ymarferiad caffael yn cynnwys TAW yn unol â Nodyn Polisi Caffael 10/21 a 11/23.

Mae'r trothwyon yn newid bob dwy flynedd ac mae disgwyl iddynt newid eto ar 1 Ionawr 2026.

**17.10 <u>YMGYNGHORWYR</u>**

17.10.1 Penodir unrhyw ymgynghorwyr a ddefnyddir gan y Cyngor yn unol â'r Rheolau hyn. Pan fo'r Cyngor yn defnyddio Ymgynghorwyr i weithredu ar ei ran mewn perthynas ag unrhyw ymarferiad caffael, yna bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn sicrhau bod yr ymgynghorwyr yn cynnal yr ymarferiad caffael yn unol â'r gorchmynion sefydlog contract hyn. Ni fydd unrhyw ymgynghorydd yn gwneud penderfyniad ar p'un ai i ddyfarnu contract neu o ran pwy ddylid dyfarnu contract iddo. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn sicrhau bod perfformiad yr ymgynghorydd yn cael ei fonitro.

**17.11 IS-GONTRACTWYR WEDI'U HENWEBU A'U HENWI**

17.11.1 Os bydd is-gontractwr, cyflenwr neu is-ymgynghorydd yn cael ei enwebu neu'n cael ei enwi i brif gontractwr, rhaid gwahodd dyfynbrisiau neu dendrau yn unol â'r Gorchmynion Sefydlog hyn a bydd telerau'r gwahoddiad yn cyd-fynd â'r prif gontract.

**17.12 CYN-GYMHWYSO (yn berthnasol i bawb)**

17.12.1 Ni fydd y Cyngor yn ymrwymo i Gontract â Chontractwr oni bai ei fod yn fodlon o ran cymwyseddau'r Contractwr. Gallai'r meini prawf ar gyfer dewis Tendrwyr gynnwys, ond nid oes yn rhaid iddynt fod yn gyfyngedig i:

(a) Cymhwysedd technegol neu broffesiynol a phrofiad, gan gynnwys cymwysterau;

(b) Iechyd a Diogelwch;

(c) Ansawdd, yn cynnwys awdurdodiad gan sefydliadau rheoli ansawdd swyddogol neu asiantaethau cydnabod cymhwysedd ac/neu sy'n profi cydymffurfiaeth â safonau rheoli ansawdd ac/neu mesurau neu gyrff neu safonau cyfwerth;

(d) Statws ariannol ac economaidd, gan gynnwys darpariaethau yswiriant priodol;

(e) Cynaliadwyedd, gan gynnwys mesurau rheoli amgylcheddol,

(f) Tystiolaeth ynghylch a ydynt yn anaddas ar sail e.e. methdaliad, euogfarn droseddol neu fethiant i dalu trethi;

(g) Mesurau'r Iaith Gymraeg;

(h) Diogelu Data; a

(i) Cyflogaeth Moesol a Diogelu.

17.12.2 Bydd unrhyw ymarferion caffael sy'n destun y Rheoliadau, yn cydymffurfio â'r Rheoliadau priodol.

17.12.3 Bydd yr holl brosesau Cyn-gymhwyso yn cydymffurfio â'r egwyddorion y cyfeirir atynt yn 17.1.7 uchod a rhaid llunio unrhyw ofynion yn unol â'r Cyn-gymhwyso er mwyn osgoi torri'r egwyddorion hyn.

17.12.4 Bydd yr holl gyfyngiadau amser ar gyfer y Prosesau Cyn-gymhwyso yn rhesymol ac yn ystyried pwnc y contract, gwerth y contract ac Amcanion Caffael.

**17.13 Y GWAHODDIAD I DENDRO (ITT)**

17.13.1 Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i'r holl wahoddiadau i Dendro, waeth beth fo'u gwerth.

17.13.2 Rhaid i'r ITT gynnwys manylion gofynion y Cyngor ar gyfer y contract penodol gan gynnwys:

(a) manyleb o'r Gwasanaethau, y Nwyddau neu'r Gwaith sy'n cael eu caffael a chyfarwyddiadau ynghylch a ganiateir unrhyw amrywiadau;

(b) yr amserlen caffael gan gynnwys y dyddiad a'r amser dychwelyd tendr, a bydd hwn yn rhoi cyfnod rhesymol o amser i'r ymgeiswyr baratoi eu tendrau;

(c) telerau ac amodau contract y Cyngor;

(d) y meini prawf gwerthuso gan gynnwys y pwysoli;

(e) ffurf y tendr;

(f) mecanwaith prisio a chyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau;

(g) p’un a yw'r Cyngor o'r farn y bydd TUPE yn berthnasol;

(h) ffurf a chynnwys y datganiadau dull i'w darparu;

(i) rheolau ar gyfer cyflwyno tendrau;

(j) cyfeirnod tendr;

(k) unrhyw wybodaeth bellach a fydd yn hysbysu neu'n cynorthwyo Tendrwyr i baratoi tendrau.

17.13.3 Bydd gofyn i bob Tendrwr sy'n cyflwyno tendr lofnodi datganiad sy’n nodi:

(a) nad ydynt ac na fyddant yn rhoi gwybod i unrhyw berson arall beth yw swm eu tendr;

(b) nad ydynt wedi pennu swm unrhyw dendr yn unol â threfniant pennu pris;

(c) eu bod yn derbyn bod gan y Cyngor hawl i ganslo'r contract ac adfer ganddynt swm unrhyw golled a ddaw yn sgil unrhyw ganslo o'r fath os canfyddir bod unrhyw weithred lwgr neu dwyllodrus neu hepgoriad ganddynt hwy sydd wedi gwneud i'r Cyngor ymrwymo i'r contract;

(d) cydnabod nad yw'r Cyngor wedi'i rwymo i dderbyn y tendr isaf nac unrhyw dendr a gyflwynwyd, y gellir atal yr ymarferiad tendro ar unrhyw gam yn ystod y broses dendro a'u bod yn gyfrifol am unrhyw gostau a threuliau a ddaw yn sgil llunio tendr.

17.13.4 Bydd yr hol gyfyngiadau amser ar gyfer y Prosesau Tendro yn ddigon rhesymol ac yn ystyried pwnc y contract, gwerth y contract ac Amcanion Caffael.

**17.14 GWEITHDREFN DENDRO GYSTADLEUOL**

17.14.1 Gall y Cyngor ddewis dyfarnu contract cyhoeddus i gyflenwr sy'n cyflwyno'r tendr mwyaf manteisiol ("MAT") mewn gweithdrefn dendro gystadleuol, y mae'n rhaid iddi fod ar un o ddwy ffurf.

17.14.2 Yn achos gweithgareddau caffael nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad ar wefan Sell2Wales y Cyngor. Bydd maint a natur y cyhoeddiad yn gymesur â gwerth a phwnc y Caffaeliad a rhoddir ystyriaeth i'r Amcanion Caffael.

17.14.3 Bydd yr hysbyseb yn cynnwys manylion y contract arfaethedig ac yn nodi cyfyngiad amser lle y gallai partïon â diddordeb fynegi diddordeb mewn tendro am y contract. Ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer mynegi diddordeb ddod i ben, bydd y Cyngor yn anfon ITT i unrhyw barti sy'n mynegi diddordeb. Bydd yr ITT yn nodi'r dyddiad dychwelyd ar gyfer tendrau.

17.14.4 Gwahoddir yr holl Dendrwyr sy'n mynegi diddordeb i gyflwyno tendr. O ran ymarferion caffael sydd ag amcan werth sy'n uwch na £50,000 lle mae llai na thri Thendrwr wedi mynegi diddordeb, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael, bennu p'un a oes digon o ddiddordeb i arddangos gwir gystadleuaeth cyn penderfynu parhau â'r ymarferiad Caffael.

**17.15 GWEITHDREFN AGORED:**

17.15.1 Gweithdrefn un cam lle gall unrhyw barti â diddordeb gyflwyno tendr. Rhaid i'r penderfyniad i roi'r contract fod yn seiliedig ar y tendr sengl yn unig, yn amodol ar unrhyw dendrau diystyr. Mae hon yn broses lle gall pob darparwr sydd â diddordeb yn y contract ac sydd wedi ymateb i hysbyseb gyflwyno tendrau. Rhaid ystyried pob tendr o'r fath heb unrhyw broses ddethol ymlaen llaw. Mae'r amodau cyfranogiad a chamau gwerthuso yn cael eu cynnal ar ôl cyflwyno'r tendrau.

**17.16 GWEITHDREFN HYBLYG GYSTADLEUOL:**

17.16.1 Nid yw'r weithdrefn hon yn rhagnodol ac mae'n caniatáu hyblygrwydd i'r Cyngor ddylunio ei broses gaffael ei hun, i weddu i'w anghenion a'i ofynion penodol. Rhaid i'r Cyngor roi sylw i'r Amcanion Caffael a bodloni'r gofynion gweithdrefnol sy'n berthnasol i'r weithdrefn dendro gystadleuol, megis mewn perthynas ag amser a thryloywder. Rhaid i'r Cyngor benderfynu at bwy i roi'r contract ar sail pwy y mae'r Cyngor yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben dyfarnu'r contract cyhoeddus.

17.16.2 Mae'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio'r weithdrefn hyblyg gystadleuol lle:

- mae'n dymuno cyfyngu ar nifer y cyflenwyr cyn gwahodd tendrau;
- wrth gaffael o dan farchnad ddeinamig; ac
- wrth gadw contract cyhoeddus i Ddarparwyr Cyflogaeth â Chymorth neu Gydfuddiannol Gwasanaethau Cyhoeddus.

17.16.3 Nid oes angen i'r Cyngor ddefnyddio gweithdrefn dendro gystadleuol lle mae dyfarniad uniongyrchol yn cael ei gyfiawnhau yn unol â'r Ddeddf neu wrth ddyfarnu contract cyhoeddus o dan Fframwaith.

**17.17 DYFARNIAD UNIONGYRCHOL:**

17.17.1 Mae hyn yn darparu ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus heb ddefnyddio gweithdrefn dendro gystadleuol a gellir gosod y contract cyhoeddus gyda'r cyflenwr yn uniongyrchol heb gystadleuaeth.

17.17.2 Mae amgylchiadau cyfyngedig lle caniateir i'r Cyngor roi contract cyhoeddus heb gynnal gweithdrefn dendro gystadleuol yn gyntaf. Dylai swyddogion gyfeirio at yr amgylchiadau fel y nodir yn adran 41 ac Atodlen 5 o'r Ddeddf. Mae'r amgylchiadau hyn hefyd yn berthnasol i ddyfarniadau uniongyrchol o dan y trothwy.

17.17.3 Cyn dyfarnu contract yn y ffordd hyn, rhaid i'r Cyngor ystyried a yw'r cyflenwr yn Gyflenwr Gwaharddedig, os felly, bydd angen i'r Cyngor benderfynu a yw'n briodol i'r cyflenwr dderbyn y contract.

17.17.4 Mae paragraff 15 o Atodlen 5 (Dyfarniad Uniongyrchol: Contractau Dewis Defnyddiwr) o'r Ddeddf yn caniatáu dyfarnu contract dewis defnyddiwr yn uniongyrchol ar yr amod bod amodau penodol yn cael eu bodloni. Nid yw Contractau Dewis Defnyddiwr yn addas ar gyfer gweithdrefn dendro gystadleuol oherwydd anghenion neu ddewis unigolyn. Rhaid i'r Cyngor hefyd fod o'r farn ei bod er budd gorau'r unigolyn nad yw'r contract yn cael ei ddyfarnu o dan weithdrefn dendro gystadleuol. Dylid darparu gwasanaethau dewis defnyddwyr o dan Gontractau Cyffwrdd Ysgafn er mwyn bod o fudd i unigolyn penodol a lle mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried barn yr unigolyn neu ei ofalwr ynghylch pwy ddylai ddarparu'r gwasanaethau dewis defnyddwyr.

**17.18 DERBYN, CYSTODAETH AC AGOR TENDRAU**

17.18.1 Rhaid i wahoddiadau i dendro nodi'n glir beth yw'r dyddiad a'r amser dychwelyd diweddaraf.

17.18.2 Rhaid dychwelyd yr holl dendrau gan ddefnyddio'r amlen swyddogol neu'r label dychwelyd swyddogol ac ni ddylid marcio'r amlen mewn unrhyw ffordd fel bod modd gwybod pwy yw'r tendrwr.

17.18.3 Bydd tendrau sydd ag amcan werth sy'n llai na £50,000 (os y'i derbynnir drwy'r post yn yr amlen swyddogol neu gan ddefnyddio'r label dychwelyd tendr swyddogol) yn cael eu dychwelyd i'r Pennaeth Gwasanaeth. Bydd tendrau'n cael eu hagor ym mhresenoldeb dau weithiwr sydd wedi'u dynodi gan y Pennaeth Gwasanaeth neu'r maes gwasanaeth perthnasol, fel y bo'r achos. Rhaid i'r gweithwyr fod yn annibynnol o'r dasg o osod y Contract. Pan agorir y tendrau, bydd pob tendr yn cael ei gofnodi ar gofrestr tendrau a bydd y tendrau a'r gofrestr yn cael eu llofnodi â phriflythrennau'r swyddogion dynodedig sy'n bresennol ar y pryd, ac fe nodir y dyddiad arnynt. Anfonir copi o gofnod o'r fath i'r Rheolwr Caffael.

17.18.4 Rhaid cyfeirio tendrau sydd ag amcan werth sy'n fwy na £50,000 at y Swyddog Monitro os yn ei dderbyn trwy'r post gan ddefnyddio'r amlen swyddogol neu'r label dychwelyd tendrau swyddogol a ddarparwyd gan y Cyngor. Bydd y Swyddog Monitro yn gyfrifol am dderbyn, am gystodaeth ac am agor tendrau o'r fath. Bydd tendrau ar gyfer yr un ymarferiad caffael yn cael eu hagor un ar ôl y llall yn ystod yr un sesiwn, a hynny ym mhresenoldeb dau weithiwr a ddynodwyd ar gyfer y diben hwnnw. Caiff un gweithiwr ei enwebu gan y Swyddog Monitro a bydd y gweithiwr arall yn cael ei enwebu gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Rhaid i'r gweithwyr fod yn annibynnol o'r dasg o osod y Contract. Ar ôl eu hagor, bydd y tendrau'n cael eu cofnodi mewn cofrestr tendrau a bydd y tendrau a'r gofrestr yn cael eu llofnodi â phriflythrennau'r swyddogion dynodedig sy'n bresennol ar y pryd, ac fe nodir y dyddiad arnynt. Yna, anfonir y tendrau sydd wedi'u hagor at y swyddog gwerthuso.

17.18.5 Ni fydd unrhyw Dendr sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad a'r amser derbyn tendrau hwn yn cael ei dderbyn.

## 17.19 TENDRO ELECTRONIG

17.19.1 Gyda chytundeb y Rheolwr Caffael, efallai y bydd y broses dendro, gan gynnwys gwahodd a derbyn tendrau, yn cael ei chynnal yn electronig gan ddefnyddio teclynnau eGaffael y Cyngor ac fe ellir addasu darpariaethau Rheolau 17.14 i 17.18 i hwyluso hyn, cyhyd ag y bo'r system electronig a ddefnyddir wedi'i chymeradwyo gan yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

17.19.2 Wrth wneud cais am sawl dyfynbris neu dendr, dylid osgoi defnyddio cyfeiriad e-bost personol neu generig i sicrhau bod bidiau'n cael eu derbyn yn unol â'r gweithdrefnau agor a bod y bidiau'n cael eu cofnodi'n gywir wrth gael eu derbyn.

## 17.20 GWERTHUSO'R TENDR

17.20.1 Bydd tendrau'n cael eu gwerthuso yn unol â'r meini prawf gwerthuso a'r pwysoliadau a nodir yn y gwahoddiad i dendro. Bydd pob contract, ac eithrio contractau pan bennwyd ymlaen llaw fod y pris isaf yn faen prawf priodol, yn cael ei ddyfarnu ar sail y cynnig sy'n cynrychioli'r gwerth am arian gorau i'r Cyngor (y tendr sydd fwyaf manteisiol yn economaidd) gan ystyried y meini prawf gwerthuso a'r pwysoli a osodir. Rhaid pennu'r meini prawf gwerthuso a'r pwysoli ymlaen llaw, a'u rhestru yn y dogfennau gwahoddiad i dendro. Yn ogystal, bydd y meini prawf a'r pwysoli yn cael eu dilyn yn gaeth (ac yn parhau heb eu newid) bob amser drwy gydol y weithdrefn dyfarnu contract. Gellir cael arweiniad a chymorth ar y meini prawf gwerthuso perthnasol o'r Uned Caffael Corfforaethol a'r Uned Gyfreithiol.

17.20.2 Bydd y meini prawf asesu a ddefnyddir yn cael pwysoliad sy'n cynrychioli canran o gyfanswm pwysigrwydd. Bydd ystyriaeth o werth cymdeithasol yn cael ei chynnwys yn y meini prawf asesu neu fel arall a bennir yng ngofynion y contract.

17.20.3 Ar ôl agor ac archwilio'r tendrau, os canfyddir camgymeriad yng nghyfrifiant y tendr, rhoddir manylion y camgymeriad i'r Tendrwr, ynghyd

â chyfle i gadarnhau bod y tendr a gyflwynir wedi'i gywiro, neu i dynnu eu tendr yn ei ôl.

17.20.4 Bob amser yn ystod unrhyw broses o'r fath neu broses egluro, bydd y Cyngor yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r egwyddorion o beidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal, tryloywder, cyd-gydnabyddiaeth a chyfranoledd; egwyddorion sy'n berthnasol i holl ymarferion Caffael y Cyngor.

## 17.21 <u>Y TÎM GWERTHUSO</u>

17.21.1 Ar gyfer pob Contract gydag amcan werth sy'n fwy na £50,000, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn ffurfio tîm gwerthuso ('Tîm Gwerthuso') sydd â chyfrifoldeb am werthuso tendrau. Bydd y Tîm Gwerthuso yn cynnwys o leiaf dau swyddog sydd ag arbenigedd perthnasol i gwblhau'r gwerthusiad yn llwyddiannus. Rhaid cadw cofnodion ysgrifenedig o'r gwerthusiad.

## 17.22 <u>RISG</u>

17.22.1 O ran ymarferion Caffael sydd ag amcan werth sy'n fwy na £50,000, bydd y Swyddogion Awdurdodedig yn cynnal asesiad risg ar y cychwyn cyntaf ac yna fe'i diweddarir drwy gydol y Broses Gaffael. Rhaid rhoi gwybod i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau am unrhyw risgiau a nodwyd.

17.22.2 O ran ymarferiadau Caffael sydd ag amcan werth o fwy na £50,000, bydd y Tîm Gwerthuso yn ystyried p'un a fydd angen bond perfformiad ac/neu warant rhiant gwmni (os yn berthnasol) gan y Cyflenwr a ffafrir a lle bo gofyniad o'r fath yn codi, sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys fel gofyniad yn y broses gaffael.

17.22.3 Ar gyfer yr holl ymarferion Caffael, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn ystyried y math priodol (atebolrwydd gweithwyr, atebolrwydd cyhoeddus, indemniad proffesiynol, ac ati) a lefel yr yswiriant sydd ei angen ar gyfer pob contract a sicrhau bod hwn wedi'i gynnwys fel gofyniad yn y broses gaffael.

## 17.23 <u>Y RHESTR A GYMERADWYWYD</u>

17.23.1 Ni ellir ond defnyddio Rhestrau a Gymeradwywyd pan fo contractau ailadroddus neu debyg yn debygol ond lle mae angen prisio contractau o'r fath yn unigol ac nad oes modd eu hagregu a'u prisio yn rhwydd mewn ymarferiad tendro sengl. Ni ellir defnyddio Rhestrau a Gymeradwywyd ar gyfer contractau lle mae'r amcan werth yn fwy na £50,000.

17.23.2 Ni ellir rhoi unrhyw gyflenwr ar Restr a Gymeradwywyd hyd nes bod ymchwiliad digonol, gan ystyried Rheol 17.12 o ran eu gallu ariannol a thechnegol i weithredu'r contract, oni bai y bydd materion o'r fath yn cael eu harchwilio bob tro y gwahoddir bidiau o'r rhestr honno.

17.23.3 Rhaid llunio Rhestrau a Gymeradwywyd ar ôl hysbysebu yn gwahodd ceisiadau i gael eu cynnwys ar y rhestr. Rhaid arddangos yr hysbyseb er mwyn sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf eang ymysg cyflenwyr

perthnasol. Gellir cynnwys personau ar y rhestr rhwng yr hysbyseb gychwynnol a'r ail-hysbyseb cyhyd ag y cydymffurfir â gofynion Rheol 17.23.2.

17.23.4 Rhaid cadw rhestr a gymeradwywyd o gyflenwyr Gwasanaethau mewn dull agored, teg a thryloyw a rhaid iddi fod ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor. Gellir caniatáu unrhyw gais gan weithredwr economaidd i gael ei gynnwys ar y rhestr, cyhyd a'u bod yn bodloni gofynion Rheol 17.23.2.

17.23.5 Rhaid adolygu'r rhestr bob blwyddyn fan leiaf a rhaid ei hail-hysbysebu bob tair blynedd, fan leiaf. Wrth ail-hysbysebu, rhaid anfon copi o'r hysbyseb i bob person ar y rhestr, yn eu gwahodd i ail-ymgeisio. Mae Adolygu yn golygu:

(i) ail-asesu gallu ariannol a thechnegol a pherfformiad y personau hynny sydd ar y rhestr, oni bai bod materion o'r fath yn cael eu harchwilio bob amser y gwahoddir bidiau o'r rhestr honno

(ii) dileu, gyda rhybudd, y personau hynny sydd ddim yn gymwys mwyach, a chofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw yn cyfiawnhau'r dilead hwnnw.

**17.24** **<u>DYFARNU CONTRACTAU</u>**

17.24.1 Dim ond Swyddog Awdurdodedig a all ddyfarnu contract. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig sicrhau, cyn ceisio penderfyniad o'r fath, bod digon o gyllideb yn ei lle i fodloni holl daliadau'r contract ac os oes unrhyw gyllid yn dod gan drydydd parti, y cydymffurfir ag unrhyw amodau sydd ynghlwm â chyllid o'r fath.

17.24.2 Lle mae gan y Contract i'w ddyfarnu amcan werth o £250,000 neu fwy, ymhen 5 diwrnod gwaith o ddyddiad dyfarnu'r contract, rhaid hysbysu'r Aelod Cabinet perthnasol yn ysgrifenedig bod y contract wedi'i ddyfarnu a dylai hysbysiad o'r fath gynnwys manylion ynghylch y pwnc dan sylw, y partïon a gwerth y contract.

17.24.3 Ni fydd y Cyngor yn dyfarnu Contract oni bai ei fod yn cynrychioli'r gwerth am arian gorau. Ni fydd Contract yn cael ei ddyfarnu heb ddefnyddio'r meini prawf gwerthuso tendr a bennwyd ymlaen llaw a'r pwysoli. Pan fo tendr yn cael ei werthuso yn seiliedig ar bris yn unig, rhaid i'r Contract, yn ddarostyngedig i Reol 17.24.4 isod, gael ei ddyfarnu i'r Tendrwr sy'n cyflwyno'r pris isaf.

17.24.4 Os yw'r Swyddog Awdurdodedig o'r farn bod Tendr yn cael ei ystyried yn annormal o isel, gellir diystyru'r Tendr, ond dim ond os:

(a) yw’r Swyddog Awdurdodedig wedi gwneud cais ysgrifenedig am eglurhad o'r Tendr neu'r Rhannau hynny ohono y mae'n eu hystyried sy'n cyfrannu at bris annormal o isel y cynnig;

(b) ystyriwyd y dystiolaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r cais ysgrifenedig; ac

(c) a ddilyswyd y Tendr wedi hynny.

17.24.5 Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ni ddylid gofyn i unrhyw Gontractwr ddarparu unrhyw Wasanaethau, cyflenwi unrhyw Nwyddau neu wneud unrhyw Waith (gan gynnwys Gwaith paratoadol) hyd nes i'r Contract gael ei gwblhau neu bod y Gwasanaethau, y Nwyddau neu'r Gwaith dan sylw wedi'u cynnwys mewn llythyr o fwriad. Rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y maes gwasanaeth dan sylw wneud unrhyw benderfyniad sy'n groes i hyn a bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cynnwys asesiad risg llawn o ran y goblygiadau posib i'r Cyngor os bydd y Contractwr yn cael dechrau arni cyn i delerau ac amodau'r contract gael eu cwblhau'n derfynol neu bod llythyr o fwriad yn cael ei gyflwyno.

17.24.6 Dim ond o dan yr amgylchiadau eithriadol y defnyddir llythyrau o fwriad, fel a ganlyn:

(a) Lle mae gofyn i Gyflenwr ddarparu gwasanaethau, cyflenwadau neu waith cyn derbyn derbyniad ysgrifenedig gan y Cyngor; neu

(b) Pan nad yw ffurflen tendr y Cyngor yn cynnwys datganiad hyd nes y bydd contract ffurfiol wedi'i gwblhau, bydd derbyniad ysgrifenedig y Cyngor o dendr yn rhwymo'r partïon mewn perthynas gytundebol.

## 17.25 <u>HYSBYSU AM GANLYNIADAU A CHRYNODEBAU ASESU</u>

17.25.1 Unwaith y bydd y penderfyniad i ddyfarnu'r contract wedi'i wneud, ac eithrio'r Tendrwr llwyddiannus, bydd pawb sy'n mynegi diddordeb ac yn tendro, yn derbyn crynodeb asesu yn cynnwys manylion am yr hyn a ganlyn:

(i) Y meini prawf dyfarnu a'r pwysoli

(ii) Sgôr y Tendrwr yn erbyn y meini prawf dyfarnu a'r pwysoli (lle bo hynny'n berthnasol)

(iii) Sgôr gyffredinol y Tendrwr llwyddiannus; ac

(iv) Enw'r Tendrwr llwyddiannus.

17.25.2 Os bydd unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei datgelu i'r Tendrwyr, rhaid dod i gytundeb ar hyn ymlaen llaw â'r Rheolwr Caffael, gan ystyried gofynion unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth.

17.25.3 Mae'r rhestr o bwyntiau lle gall dad-briffio fod yn briodol yn cynnwys:

(i) amodau cyfranogi: lle nad yw'r ymgeisydd wedi'i ddewis (rhestr fer) i gymryd rhan yn y broses dendro;

(ii) dyfarniad: pan na ddyfarnwyd y Contract i'r Tendrwr ar ôl gwerthuso'r cynigion/tendr. Ni ddylid cynnal di-briffio o'r fath cyn y gwneir y penderfyniad am ddyfarnu'r contract a bod yr holl Dendrwyr aflwyddiannus wedi cael gwybod na fuont yn

llwyddiannus. Dylid bod yn glir na ellir defnyddio'r broses ddi-briffio i newid y dewis o Gontractwr neu i ail-agor y broses ddethol.

(iii) os gofynnir i unrhyw ddarpar gyflenwr dynnu'n ôl neu ei fod yn tynnu yn ôl yn ystod yr ymarferiad Caffael. Dim ond ar gais y Contractwr y bydd di-briffio yn cael ei wneud.

17.25.4 Gall y Cyngor ymrwymo'n wirfoddol i gyfnod segur, a ddylai fod am ddim llai nag 8 diwrnod gwaith o'r diwrnod y cyhoeddir yr Hysbysiad Dyfarnu Contract.

17.25.5 Nid yw cyfnod gwahardd yn orfodol pan fo'r Cyngor yn dyfarnu contract cyhoeddus yn unol â Dyfarniad Uniongyrchol o dan adran 41 ac adran 43 o'r Ddeddf; contractau a ddyfarnwyd o dan Fframweithiau neu Farchnadoedd Dynamig; a Chontractau Cyffyrddiad Ysgafn.

17.25.6 Mae Hysbysiad Manylion Contract yn hysbysiad gorfodol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyhoeddi bob tro y bydd contract cyhoeddus yn cael ei ymrwymo. Os yw'r contract yn gontract Cyffyrddiad Ysgafn, rhaid cyhoeddi hwn cyn diwedd y cyfnod o 120 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod yr ymrwymir i'r contract. Fel arall, rhaid cyhoeddi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod o 30 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod yr ymrwymir i'r contract. Rhaid i'r Hysbysiad Manylion Contract nodi bod y Cyngor wedi ymrwymo i gontract, a chynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Rheoliad 32 (Hysbysiadau Manylion Contract: Gweithdrefn Hyblyg Agored neu Chystadleuol), Rheoliad 33 (Hysbysiadau Manylion Contract: Fframweithiau), Rheoliad 35 (Hysbysiadau Manylion Contract: Penodiad Uniongyrchol) neu Reoliad 36 (Hysbysiadau Manylion Contract: Contractau o dan y Drothwy) o'r Rheoliadau (fel sy'n berthnasol yn dibynnu ar y llwybr y mae'r Cyngor wedi'i gymryd) fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

**17.26 <u>CWBLHAU CONTRACTAU</u>**

17.26.1 Ac eithrio unrhyw Gontract sy'n cael ei lunio gan ddefnyddio deilliant archeb brynu ar system brynu electronig y Cyngor, rhaid i unrhyw Gontract sydd ag amcan werth o fwy na £100,000 fod:-

(i) yn ysgrifenedig;

(ii) wedi'i wneud dan sêl y Cyngor.

17.26.2 Rhaid i gontractau gyda gwerth o £100,000 neu lai gael eu gwneud gan ddefnyddio:

(i) archeb brynu a grëwyd gan system brynu electronig y Cyngor, neu

(ii) ffurflen archeb swyddogol a gynhyrchwyd gan y Cyngor, neu

(iii) Contract ysgrifenedig.

**17.27 <u>RHEOLI CONTRACTAU</u>**

17.27.1 Unwaith y bydd y contract wedi cael ei ddyfarnu, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig adnabod ac enwebu unigolyn fydd yn rheoli agweddau dydd-i-ddydd y Contract dros ei gyfnod ac os bydd angen, cynllunio beth fydd yn digwydd unwaith i'r Contract ddod i ben (cynllunio ar gyfer unrhyw ymarferiad caffael angenrheidiol).

17.27.2 Bydd y gwaith o reoli'r Contract o ddydd-i-ddydd yn cynnwys monitro o ran:-

(i) perfformiad

(ii) Cydymffurfio â’r fanyleb a thelerau’r contract

(iii) cost

(iv) unrhyw werth am arian/gofynion gwerth gorau

(v) boddhad defnyddwyr, a

(vi) rheoli risg.

17.27.3 Lle mae cyfanswm gwerth y Contract yn fwy na £250,000, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig lunio adroddiad ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaeth yn gwerthuso i ba raddau y mae'r Contract yn cwrdd â'r amcanion a osodwyd. Dylid gwneud hyn fel arfer pan mae'r Contract yn cael ei gwblhau ond o ran contractau tymor, dylid paratoi adroddiad o'r fath bob blwyddyn.

**17.28 <u>CONTRACTAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A'R DREFN CYFFYRDDIAD YSGAFN</u>**

17.28.1 Adran 9 o'r Ddeddf ac Atodlen 1 o'r Rheoliadau
Mae fframwaith rheoleiddio penodol ar gyfer caffael contractau gwasanaethau cymdeithasol ac mae'r rhain yn cael sylw ar gyfer y ddau gontract sy'n dod o dan y Rheolau hyn a'r Rheoliadau. Mae contractau o'r fath mewn sawl ffordd yn wahanol i gontractau ar gyfer gwaith adeiladu, cyflenwadau swyddfa ac offer TG.

17.28.2 Mae'r drefn Cyffyrddiad Ysgafn (LTR) yn set benodol o reolau ar gyfer contractau penodol sy'n cynnwys rhai gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill, a ddiffinnir gan godau Geirfa Caffael Cyffredin (CPV), ac maent yn destun rheolau caffael llawer mwy hyblyg.

17.28.3 Ar lefel y trothwy ac yn uwch na hynny, yn achos gweithgareddau caffael lle mae'r Rheoliadau yn berthnasol, y prif ofynion gorfodol yw:

a) Hysbysebu Tendr: Cyhoeddi Hysbysiad Tendro Caffael Cynlluniedig (oni bai bod cyfiawnhad Dyfarniad Uniongyrchol yn berthnasol);
b) cyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract yn dilyn pob caffaeliad unigol;
c) Cydymffurfio ag Amcanion Caffael y CPRs hyn;
d) Cynnal yr ymarferiad caffael yn unol â'r wybodaeth a ddarperir yn yr hysbysiad contract neu'r hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw ynghylch:

unrhyw amodau er mwyn cymryd rhan; cyfyngiadau amser o ran cysylltu neu ymateb i'r Cyngor; a'r drefn ddyfarnu i'w defnyddio.
e) Rhaid i gyfyngiadau amser a orfodir gan y Cyngor ar gyflenwyr, megis ar gyfer ymateb i hysbysebion a thendrau, fod yn rhesymol ac yn gymesur. Nid oes cyfnodau amser lleiaf wedi'u nodi yn rheolau'r drefn cyffyrddiad ysgafn, felly dylai'r Cyngor ddefnyddio ei ddisgresiwn a'i farn fesul achos.

17.28.4 **<u>O dan y Trothwy:</u>**

Yn achos ymarferion caffael lle mae'r Rheolau hyn yn berthnasol, sef bod yr ymarferiad caffael yn is na throthwy'r drefn cyffyrddiad ysgafn, y prif ofynion mandadol yw:

a) Dylai trefniadau caffael sy'n is na'r trothwy ddyblygu rhannau eraill o'r Rheolau hyn i sicrhau gwerth am arian, y lefel ofynnol o ansawdd a pherfformiad.

b) Lle nad oes trefniadau cymeradwy presennol, rhaid ceisio'r nifer a ganlyn o ddyfynbrisiau a rhoi tystiolaeth o hynny:

- i) Dim ond un dyfynbris sydd ei angen ar gyfer hyd at £5,000
- ii) Mae angen tri dyfynbris ar gyfer rhwng £5,000 a £50,000 yn ddelfrydol trwy S2W
- iii) Dylid cynnal trefn gaffael sydd wedi'i hysbysebu'n agored ac sydd ar gael, tra'n ceisio gwahodd o leiaf dri thendr ysgrifenedig

c) Defnyddir hyblygrwydd y drefn cyffyrddiad ysgafn gan hefyd gynnal gweithgarwch craffu sy'n cael ei gynnal yn agored, yn gywir a chydag atebolrwydd.

17.28.5 Ystyriaethau pellach i gontractau gwasanaethau cymdeithasol a'r trefniadau Contract Cyffyrddiad Ysgafn.

17.28.5.1 Contractau wedi'u Cadw - Mae Adran 33 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer ymarferion caffael am gontractau gwasanaethau penodol i gael eu "cadw" ar gyfer sefydliadau sy'n bodloni meini prawf penodol. Gall y contractau hyn redeg am gyfnod uchafswm o 3 blynedd. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu bod modd cynnal cystadleuaeth yn unol â'r drefn contractau cyffyrddiad ysgafn newydd yn rheolau caffael y DU lle mae cyfranogiad wedi'i gyfyngu i sefydliadau cymwys megis cyd-fentrau a mentrau cymdeithasol.

17.28.5.2 Bydd yr un trefniant ar gyfer dyfarnu contractau wedi'u cadw yn gymwys i wasanaethau islaw'r trothwy sy'n cael ei gynnwys dan y drefn cyffyrddiad ysgafn.

17.28.5.3 Cyfnod Segur - Byddwn yn anfon hysbysiad segur ac yn gweithredu'r cyfnod segur am ymarferion caffael cyffyrddiad ysgafn sydd wedi'u cynnwys dan y Rheoliadau yn unol â'r 'Canllawiau ar y Cyfnod Segur'.

17.28.5.4 Nid yw'r contractau o dan drothwy'r drefn cyffyrddiad ysgafn angen gweithredu cyfnod segur. Fodd bynnag, dylid dyfarnu contractau yn unol ag adran 17.24 ac adrannau perthnasol 17.25 y Rheolau hyn.

## 17.29 HEPGOR RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT

17.29.1 Gall yr Aelod Cabinet perthnasol gytuno i ildio hawl os yw'n fodlon, wedi ystyried adroddiad ysgrifenedig gan y Prif Swyddog, bod modd cyfiawnhau'r ildio hawl oherwydd:-

(i) mae natur y farchnad ar gyfer y gwaith i'w wneud neu'r nwyddau neu'r gwasanaethau i'w darparu wedi'i hymchwilio ac y gwelir bod modd cyfiawnhau gwyro oddi wrth ofynion Gorchmynion Sefydlog y Contract, neu

(ii) mae amgylchiadau'r contract arfaethedig yn destun eithriadau deddfwriaethol; neu

(iii) mae hyn er budd cyffredinol y Cyngor; neu

(iv) mae amgylchiadau eraill sy'n wirioneddol eithriadol.

17.29.2 Mae'n rhaid cadw cofnod o'r penderfyniad sy'n cymeradwyo ildio hawl a rhaid cadw'r rheswm am hynny a gwneud cofnod ar y gofrestr briodol.

17.29.3 Nid oes grym i ddarparu ildiad hawl mewn perthynas â gofynion y Rheoliadau.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **6 Mawrth 2025** |
| **PWNC** | **Calendr Pwyllgorau 2025/26** |
| **PWRPAS** | **Mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2025/26** |
| **AWDUR** | **Ian Jones**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2025/26.

## 1. CEFNDIR A RHESYMEG

1.1 Cyflwynir y calendr o ddyddiadau pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2025/26. Mae'r Calendr yn cynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.

1.2 Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.

1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw hynny yn bosib ar bob achlysur os am sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.

1.4 Ymgynghorwyd â swyddogion perthnasol ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau er mwyn sicrhau hyd y gellir nad oes gwrthdaro â chyfarfodydd eraill. Yn ychwanegol, rydym wedi ceisio sicrhau nad oes gwrthdaro gyda dyddiadau cyfarfodydd rhanbarthol megis cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, er nad yw holl ddyddiadau 2025/26 yn wybyddus eto.

1.5 Yn ychwanegol eleni, rydym wedi nodi dyddiad Sesiwn Briffio i Aelodau pob mis yn ogystal â Diwrnod Hyfforddiant misol, fel bod y Cynghorwyr yn cael digon o rybudd am y dyddiadau. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i geisio trefnu'r Sesiynau Briffio neu Hyfforddiant ar y dyddiadau hynny lle bo modd, gan nodi fod posibilrwydd i orfod gwyro i ddyddiadau eraill petai hyfforddwyr neu swyddogion allweddol ddim ar gael.

1.6 Yn dilyn trafodaeth am y Calendr Pwyllgorau yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar 18 Chwefror 2025, gwnaethpwyd awgrymiad i amlygu ar y Calendr pa gyfarfodydd sy’n cael eu cynnal yn hybrid neu’n aml-leoliad. Yn dilyn yr argymhelliad hwn rydym wedi nodi *(H)* wrth ochr y cyfarfodydd hybrid. Noder bod y gweddill (ag eithrio’r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth) yn cael eu cynnal yn rhithiol.

**2. CALENDR PWYLLGORAU 2025/26**

2.1 Gweler yr atodiad ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2025/26.

**BARN SWYDDOGION STATUDOL**

**Y SWYDDOG MONITRO**
Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y PENNAETH CYLLID**
Rwy’n cefnogi’r penderfyniad a geisir. O safbwynt materion ariannol, mae’r dyddiadau arfaethedig ar gyfer y cyfarfodydd perthnasol yn caniatáu i’r Cyngor gydymffurfio ag amserlenni statudol lle bynnag bosib.

**ATODIADAU**
Atodiad 1 – Calendr o dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2025/26.

DRAFT

| 2025/26 | Amser cyfarfod | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR** ***(H)*** | **pm** | **1*** | | **3** | | | **2** | | **4** | | | **5** | | **7*** |
| Cabinet *(H)* | **pm** | **13** | **10** | **8** | | **16** | **14** | **11** | **16** | **20** | **10** | **10** | **21** | |
| Pwyllgor Craffu – Addysg ac Economi *(H)* | **am / pm** | | **19** | | | | **16** | | **11** | | **12** | | **23** | |
| Pwyllgor Craffu – Cymunedau *(H)* | **am / pm** | | **5** | | | **18** | | **6** | | **22** | | **19** | | |
| Pwyllgor Craffu – Gofal *(H)* | **am / pm** | | **12** | | | **25** | | **20** | | **29** | | **26** | | |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | **am** | **22** | | | | **11** | **9** | **13** | | **15** | **5** | | | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth | **pm** | | **17** | | | | | **4** | | | **24** | | | |
| Pwyllgor Cynllunio *(H)* | **pm** | **19** | **16** | **14** | | **8 / 29** | **20** | **17** | **8** | **12** | **2** | **2 /23** | **27** | |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | **am** | | **30** | | | **22** | | | **1** | | | **9** | | |
| Pwyllgor Safonau | **am** | | **9** | | | | | **3** | | | **23** | | | |
| CYSAG | **pm** | | **24** | | | | | **18** | | | **3** | | | |
| Pwyllgor Iaith | **am** | | **23** | | | | **13** | | | | **9** | | **20** | |
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol | **am** | | | **16** | | | | | | | | | | |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | **am / pm** | **16** | **13** | **11** | | **12** | **10** | **14** | **12** | **16** | **13** | **20** | **24** | |
| Pwyllgor Pensiynau | **pm** | | | **7** | | **15** | | **24**** | | **19** | | **16** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog | **yr hwyr** | | | | | **30** | | | | | | **3** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli | **yr hwyr** | | | | | | **7** | | | | | **10** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi | **pm** | | | | | | **14** | | | | | **17** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw | **pm** | | | | | | **21** | | | | | **24** | | |
| Hyfforddiant Aelodau | **am / pm** | **7** | **4** | **2** | | **17** | **8** | **5** | **3** | **7 / 28** | | **4** | **15** | |
| Sesiwn Briffio | **pm** | **14** | **18** | **16** | | **24** | **22** | **19** | **17** | **14** | **11** | **18** | **22** | |

*Cyfarfod Blynyddol.

**Pwyllgor Pensiynau (am) / Cyfarfod Blynyddol (pm)

*(H)* = Cyfarfod hybrid (aml-leoliad)

Amser cyfarfod (yn ôl yr angen) **am** – bore **pm** – prynhawn **am/pm** – trwy'r dydd

**Dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.**

Department for Work & Pensions

HM Treasury

Caxton House
Tothill Street
LONDON
SW1H 9DA

ministers@dwp.gov.uk

HM Treasury
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ

Cyng. Beca Roberts
Cyngor Gwynedd,
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
Gwynedd
LL55 1SH

Eich cyf:

Ein cyf: MC2024/97778

23 Rhagfyr 2024

Annwyl Gynghorydd Beca Roberts,

Diolch i chi am eich gohebiaeth ar 30 Hydref at y Prif Weinidog ynglŷn â'r penderfyniad i gyfyngu ar gymhwysedd i dderbyn y Taliad Tanwydd Gaeaf. Rwyf yn ymateb fel y Gweinidog Pensiynau ac yn ymddiheuro am yr oedi.

Yn wyneb y pwysau sylweddol a wynebir gan gyllid cyhoeddus eleni a'r flwyddyn nesaf, bu'n rhaid i'r Llywodraeth wneud dewisiadau anodd, gan gynnwys targedu'r Taliad Tanwydd Gaeaf, i ddod â chyllid cyhoeddus yn ôl dan reolaeth. Mae'r penderfyniad hwn yn golygu y bydd y Taliad Tanwydd Gaeaf yn cael ei dargedu at bensiynwyr incwm isel sydd ei angen.

Er gwaethaf y penderfyniad anodd hwn, rydym yn benderfynol o amddiffyn y pensiynwyr tlotaf a thargedu cefnogaeth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Bydd y Taliadau Tanwydd Gaeaf yn parhau i gael eu talu i aelwydydd pensiynwyr sydd â rhywun sy'n derbyn Credyd Pensiwn neu rai budd-daliadau eraill sy'n seiliedig ar incwm. Byddant yn parhau i fod yn werth £200 ar gyfer aelwydydd cymwys, neu £300 ar gyfer aelwydydd cymwys gyda rhywun dros 80 oed.

Mae'r Llywodraeth am i'r rhai sy'n gymwys i gael Credyd Pensiwn ond nad ydynt ar hyn o bryd yn ei hawlio i gael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, gan gynnwys y Taliad Tanwydd Gaeaf. Fel rhan o hyn, rydym wedi dechrau ymgyrch newydd i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar Gredyd Pensiwn, sy'n llawer rhy isel ar hyn o bryd - gyda

thraean o bensiynwyr cymwys ddim yn ei hawlio. Rydym yn gwybod bod yna bensiynwyr incwm isel nad ydynt yn hawlio Credyd Pensiwn, ac rydym yn annog y bobl hynny i wneud cais.

Gellir gwneud hawliadau am Gredyd Pensiwn ar-lein yn: www.gov.uk/pension-credit/how-to-claim. Mae'r gwasanaeth ar gael i'w ddefnyddio 24/7, ac mae'n rhoi'r hyblygrwydd i'r rhai hynny a allai ei chael hi'n anodd gwneud eu cais ar eu pennau eu hunain i gael ffrind neu deulu i'w cefnogi wrth wneud eu cais, ar adeg sydd fwyaf cyfleus iddyn nhw. Gellir gwneud hawliadau Credyd Pensiwn hefyd drwy'r rhif rhadffôn 0800 99 1234, ac mae opsiwn i lenwi ffurflen gais bapur.

Hoffwn bwysleisio bod y Llywodraeth hon wedi ymrwymo'n llwyr i bensiynwyr - mae pawb yn ein cymdeithas, waeth beth yw eu hanes gwaith neu eu cynilion, yn haeddu ymddeoliad cyfforddus ac urddasol. Dyna pam, trwy ein hymrwymiad i ddiogelu'r Clo Triphlyg, y bydd dros 12 miliwn o bensiynwyr yn elwa, gyda disgwyl i lawer weld eu Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu dros fil o bunnoedd dros y pum mlynedd nesaf. Mae diogelu'r Clo Triphlyg, hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd bresennol, yn dangos ein hymrwymiad diysgog i bensiynwyr.

Mae'r cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes yn darparu ad-daliad o £150 ar eu bil trydan i aelwydydd incwm isel cymwys ledled Prydain Fawr. Y gaeaf hwn, rydym yn disgwyl i dros dair miliwn o gartrefi, gan gynnwys dros filiwn o bensiynwyr, elwa o'r cynllun.

Yng Nghyllideb yr Hydref 2024, cyhoeddodd y Canghellor y bydd £1 biliwn, gan gynnwys effaith Barnett, yn cael ei fuddsoddi i ymestyn y Gronfa Gymorth i Aelwydydd yn Lloegr am flwyddyn gyfan tan 31 Mawrth 2026, ar ben y chwe mis a gyhoeddwyd eisoes, ac i gynnal Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yng Nghymru a Lloegr. Bydd hyn yn helpu'r aelwydydd hynny sy'n ei chael hi'n anodd ac sy'n wynebu'r caledi ariannol mwyaf.

Rydym yn cefnogi defnyddwyr, gan gynnwys pensiynwyr, drwy Gynllun Cartrefi Cynnes uchelgeisiol y Llywodraeth a fydd yn trawsnewid cartrefi ledled y wlad trwy eu gwneud yn lanach ac yn rhatach i'w rhedeg, o osod insiwleiddiad newydd i gyflwyno pympiau solar a gwres. Rydym wedi ymrwymo £3.4 biliwn dros y 3 blynedd nesaf tuag at ddatgarboneiddio gwres ac effeithlonrwydd ynni cartref. Mae hyn yn cynnwys £1.8 biliwn i gefnogi cynlluniau tlodi tanwydd, gan helpu dros 225,000 o aelwydydd i leihau eu biliau ynni o fwy na £200.

Mae ein camau eraill yn cynnwys torri amseroedd aros yn y GIG a fydd yn helpu llawer o bensiynwyr sy'n aros mewn poen ac anghysur am driniaeth ar hyn o bryd, a sicrhau'r sefydlogrwydd economaidd sydd mor hanfodol i bensiynwyr.

O ystyried y pwysau sylweddol sy'n wynebu cyllid cyhoeddus eleni a'r flwyddyn nesaf, bu'n rhaid i'r Llywodraeth wneud dewisiadau anodd i ddod â chyllid cyhoeddus yn ôl dan reolaeth.

Yn gywir,



**Emma Reynolds AS**
**Y Gweinidog Pensiynau**

At sylw Cadeirydd Cyngor Gwynedd,
Diolch o galon am eich llythyr yn ddyddiedig 18 Rhagfyr, ac i'r Cyngor yn ehangach am bleidleisio i gefnogi fy ngalwad i sefydlu Ysgol Deintyddiaeth ym Mangor.
Gallaf eich sicrhau fod cael y maen i'r wal â'r ymgyrch hon yn flaenoriaeth imi yn fy ngwaith fel yr Aelod o'r Senedd sy'n cynrychioli dinas Bangor. Mae fy ymdrechion i ddenu sylw i'r ymgyrch bwysig hon dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys:

- **Comisiynu Adroddiad:** Ym mis Medi 2024, fe lansiais yr adroddiad "Llenwi'r Bwlch", sy'n cyflwyno achos cryf dros hyfforddi deintyddion ym Mangor.
- **Lansio Deiseb:** Rwyf wedi llunio deiseb i ennyn cefnogaeth y cyhoedd i'r ysgol ddeintyddol, gan bwysleisio'r angen hanfodol am well mynediad at ofal deintyddol yn y rhanbarth.
- **Arwain Dadl yn y Senedd:** Ar 8 Ionawr, 2025, arweiniais ddadl yn y Senedd, gan gyflwyno cynnig i sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor. Roedd y cynnig yn tynnu sylw at y prinder difrifol o wasanaethau deintyddol y GIG yn Arfon. Yn fy etholaeth dim ond 36.6% o'r boblogaeth sydd â mynediad at ddeintydd GIG—y ganran isaf yng Nghymru.
- **Sicrhau Cefnogaeth Drawsbleidiol:** Cafodd fy nghynnig gefnogaeth drawsbleidiol, ac fe bleidleisiodd y Senedd o blaid sefydlu'r ysgol ddeintyddol.

Rwy'n gobeithio bod y camau y cyfeirir atynt uchod yn dangos yn glir fy ymrwymiad cryf i wella gwasanaethau iechyd deintyddol yng Ngogledd Cymru drwy eirioli dros sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor.
Diolch unwaith yn rhagor am gysylltu â mi.
Yn gywir,
Siân



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru
Etholaeth **Arfon**
**Arfon** Constituency
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672076

8 Stryd y Castell, CAERNARFON, LL55 1SE

Plaid Cymru
Party of Wales

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MDFWL/10172/24

Y Cynghorydd Beca Roberts
Cadeirydd y Cyngor

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

16 Ionawr 2025

Annwyl y Cynghorydd Beca Roberts,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr a oedd yn dwyn fy sylw at y cynnig sydd wedi'i fabwysiadu gan Gyngor Gwynedd.

Daeth yr ymgynghoriad y cyfeiriwyd ato yn y cynnig i ben ym mis Mawrth 2022 a chyhoeddwyd ymateb ym mis Gorffennaf 2022. Roedd yr ymateb yn cyfeirio at ein bwriad i "weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith cenedlaethol y gallant ei ddefnyddio i wneud cais am gyfraddau uwch ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau i'w cymhwyso yn eu hardal".

Nid yw trafodaethau pellach ag awdurdodau lleol wedi ennyn unrhyw ysgogiad i ddatblygu fframwaith cenedlaethol, ac felly, nid yw'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae nifer o ddulliau wedi'u darparu i awdurdodau lleol, gan gynnwys cynyddu premiymau'r dreth gyngor, cynyddu'r trothwy ar gyfer llety gwyliau at ddibenion ardrethi annomestig, a chyfarwyddydau Erthygl 4 mewn perthynas â chynllunio. Mae'n bwysig gwerthuso effaith y gwahanol ddulliau hyn wrth fynd i'r afael â'r materion i gymunedau lleol sy'n deillio o nifer uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

Rwy'n parhau i fod yn agored, ar y cyd ag awdurdodau lleol yng Nghymru, i ystyried datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer amrywiadau lleol o'r cyfraddau preswyl uwch mewn ardaloedd penodol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr Ymgynghoriad, mae datganoli agweddau ar dreth genedlaethol i awdurdodau lleol yn codi sawl her.

Un mater a amlygwyd oedd yr angen i sefydlu llinell derfyn rhwng yr anheddau hynny sy'n cael eu prynu fel cartrefi gwyliau ac at ddibenion llety gwyliau a'r rhai sy'n cael eu prynu am resymau eraill. Byddai hynny'n newid y prawf o brawf syml sy'n seiliedig ar ffeithiau o ran faint o fuddiannau mewn anheddau a oedd yn eiddo i'r prynwr ar ddyddiad y trafodiad, i un yn ymwneud â bwriad y prynwr ar ddyddiad y trafodiad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran y refeniw a gynhyrchir gan y dreth trafodiadau tir (TTT), mae'n bwysig cofio bod y refeniw hwnnw'n rhan hanfodol o gyllid Llywodraeth Cymru i dalu am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, gan gynnwys cyllid ar gyfer awdurdodau lleol. Yn yr un modd â threthi datganoledig eraill, nid ydym yn dyrannu refeniw ar gyfer cyllid awdurdodau lleol yn seiliedig ar y swm a gynhyrchir ym mhob awdurdod lleol, ac felly, nid ydym yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny yn yr achos hwn. Yn ogystal, pe bai'r cynnig yn arwain at lai o refeniw yn sgil yr effaith ar y trafodion, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn ceisio hawlio refeniw ychwanegol gan awdurdodau lleol i wneud iawn am ddiffygion.

Yn y Gyllideb ddrafft ar 10 Rhagfyr 2024, cyhoeddais gynnydd i gyfraddau preswyl uwch TTT o un pwynt canran a ddaeth i rym o'r diwrnod canlynol ymlaen. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu refeniw oddeutu £7 miliwn y flwyddyn a rhagwelir hefyd y bydd yn lleihau nifer y trafodiadau sy'n digwydd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cymryd camau felly i gynyddu'r cyfraniad a wneir i wasanaethau cyhoeddus Cymru drwy godi'r gyfradd uwch pan fo hynny'n briodol, gan geisio cydbwyso'r effaith ar y ddau drafodiad pan fo ail gartref yn dod i feddiant y prynwr a phan fo'r eiddo yn dod i feddiant y prynwr at ddibenion eraill.

Byddwn yn hapus i'n priod swyddogion gyfarfod i drafod yn fanylach ein cyd-ddealltwriaeth o'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer amrywiadau lleol i gyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HIDCC/10848/24

Mair Eirian Roberts
Gwynedd Council

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

16 Ionawr 2025

Annwyl Gynghorydd Roberts,

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 18 Rhagfyr ynghylch newidiadau i'r Rhyddhad Eiddo Amaethyddol (APR) a'r Dreth Etifeddiant (IHT).


Fel y gwyddoch, mae treth etifeddiant yn dreth a gedwir yn ôl sy'n cael ei goruchwylio gan Lywodraeth y DU. Fel rhan o'i Chyllideb, roedd yn rhaid i Lywodraeth y DU wneud penderfyniadau anodd iawn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r pryderon dwfn ar y mater, ac rwyf wedi cynnal trafodaethau gydag undebau ffermio Cymru, wrth geisio cael sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd eu pryderon yn cael eu clywed, a chael y sicrwydd hwnnw. Rwyf hefyd wedi amlinellu wrth Lywodraeth y DU bod yn rhaid i ni sicrhau nad yw newidiadau i Dreth Etifeddiant a Rhyddhad Eiddo Amaethyddol yn effeithio ar ddyfodol ffermio cynaliadwy yng Nghymru.

Mae'n anghywir nodi y bydd pob fferm sy'n werth dros £1 miliwn yn talu treth etifeddiant, felly rwy'n annog y cyngor i edrych ar y wybodaeth sydd ar gael gan Drysorlys y DU. Mae yna lawer o ffactorau ychwanegol a fydd yn berthnasol i bob busnes fferm yn unol â'u hamgylchiadau unigol, er enghraifft strwythur perchnogaeth y fferm neu unrhyw roddion a roddwyd i ddarpar etifeddion islaw’r trothwy trethu, a fydd yn penderfynu pa ffermydd fydd yn talu treth a'r swm dan sylw. Dyna pam ei bod yn bwysig ein bod yn dychwelyd at y data a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n seiliedig ar ffigurau profiant gwirioneddol diweddar, ac sy'n nodi na fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y rhan fwyaf o ffermydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i fuddsoddi mewn busnesau ffermio i gyflawni ein nodau cyffredin o gynhyrchu bwyd cynaliadwy, cyflawni ein hamcanion hinsawdd a natur, a chefnogi ein cymunedau gwledig. I'r perwyl hwn, fe wnaethom amddiffyn cyllideb Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) ar £238m ar gyfer 2025, yr un lefel â 2024. O ystyried y pwysau sylweddol rydym yn ei wynebu, nid oedd hyn yn hawdd.

Cyhoeddwyd sawl cynllun ar gyfer 2025, gan roi cymaint o sicrwydd â phosibl i'n ffermwyr. Yn ogystal â hynny, yn ddiweddar fe wnes i gadarnhau buddsoddiad pellach o £14m ar gyfer y sectorau amaethyddiaeth a garddwriaeth yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JB/10613/24

Y Cynghorydd Beca Roberts
Cadeirydd y Cyngor

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

21 Ionawr 2025

Annwyl Beca,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr ynglŷn â chyfnewid tai cymdeithasol yng Nghymru a'r cynnig y mae Cyngor Gwynedd yn ei ystyried ynghylch eu polisi dyrannu tai cymdeithasol.

Ni fyddai'n briodol i mi wneud sylw ar y cynnig ei hun, gan ei fod yn fater i'r awdurdod lleol. O dan Ddeddf Tai 1996, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddyrannu tai, ac mae'n ofynnol iddynt gael cynllun dyraniadau i bennu blaenoriaethau ar gyfer dyrannu tai. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall ac ymateb i anghenion tai eu cymunedau lleol, ac i flaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Wrth benderfynu ar eu cynllun penodol, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru roi sylw i Cod Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol: Dyrannu Llety a Digartrefedd. Mae Pennod 3 o'r Cod yn darparu canllawiau ar ofynion awdurdodau tai i gael cynllun dyrannu ar gyfer pennu blaenoriaethau, ac ar gyfer diffinio'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth ddyrannu llety tai.

Rwy'n gobeithio bydd y wybodaeth uchod yn ddefnyddiol i lywio eich diweddariad yng nghyfarfod nesaf y cyngor.

Yn gywir

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Department for Transport

Gan yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol **Lilian Greenwood AS**

Great Minster House
33 Horseferry Road
Llundain
SW1P 4DR

Rhif Ffôn: 0300 330 3000
E-Bost: lilian.greenwood@dft.gov.uk

Gwefan: www.gov.uk/dft

Ein Cyf: MC/00030389
Eich Cyf: ER

Y Cynghorydd Beca Roberts
Cadeirydd Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

19 Chwefror 2025

Annwyl Gynghorydd Roberts,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch trwyddedau gyrru graddedig. Rwyf yn ymateb i chi fel y Gweinidog dros Ddyfodol Ffyrdd.

Hoffwn ei gwneud yn glir bod gwella diogelwch y ffordd yn un o flaenoriaethau uchaf fy Adran. Mae anafiadau a marwolaethau yn sgil gwrthdrawiadau ffordd sy'n cael eu hachosi gan yrru, yn annerbyniol, a bydd y Llywodraeth hon yn gweithio'n galed i atal y trasiedïau hyn i holl ddefnyddwyr y ffordd.

Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod nifer y marwolaethau ymysg gyrwyr ceir 17-24 mlwydd oed ar ffyrdd Prydain yn cwympo. Mae'r Adran hon wedi gweld gostyngiad yn nifer y gyrwyr 17-24 mlwydd oed sy'n cael eu lladd o 448 yn 1990, i 158 yn 2010, ac i 90 yn 2023. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth hon yn credu na ddylem fodloni ar hyn, yn enwedig oherwydd, o ran y boblogaeth a nifer y milltiroedd a yrrir, mai pobl ifanc 17-24 mlwydd oed, yn benodol dynion ifanc, sy'n parhau i fod yn un o'r grwpiau gyda'r risg uchaf o farwolaethau fel gyrwyr ceir a theithwyr mewn ceir.

Er nad ydym yn ystyried Trwyddedau Gyrru Graddedig, rydym yn llwyr gydnabod bod pobl ifanc yn ddioddefwyr digwyddiadau trasig ar ein ffyrdd ar lefel anghymesur, ac rydym yn edrych ar opsiynau i ymdrin â'r rhesymau am hyn, heb fynd ati i gosbi gyrwyr ifanc mewn ffordd annheg.

Rwyf am bwysleisio bod y Llywodraeth hon yn trin diogelwch y ffordd yn gwbl ddifrifol, ac rydym wedi ymrwymo i leihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu ar ein ffyrdd.

Mae fy Adran yn datblygu ein strategaeth diogelwch ffyrdd a bydd yn cyflwyno rhagor o fanylion yn y man.

Dymuniadau gorau,



**LILIAN GREENWOOD AS**

**GWEINIDOG DROS DDYFODOL FFYRDD**